F-46.103
W6765a

6. 8. 51

*THE BENSON LIBRARY OF HYMNOLOGY*

Endowed by the Reverend

Louis Fitzgerald Benson, D.D.

LIBRARY OF THE THEOLOGICAL SEMINARY

PRINCETON, NEW JERSEY

SCB
2153

# ALELUIA NEU, LYFR O HYMNAU.

O WAITH

*WILLIAM WILLIAMS*,

Gweinidog o Eglwys Loegr.

SAL. cxlvii. 1.

*Molwch yr* ARGLWYDD *: canys da yw canu i'n* DUW *ni ; o herwydd hyfryd yw, ie, gweddus yw Mawl.*

EPH. v. 19.

*Gan lafaru wrth eich gilydd mewn* SALMAU, *a* HYMNAU, *&c.*

Y PEDWARYDD ARGRAPHIAD.

ABERHONDDU,
Argraphwyd dros yr AWDWR, gan E. EVANS,
yn y Flwyddyn, 1775.

LIBRARY OF PRINCETON
JUN 8 1951
THEOLOGICAL SEMINARY

George D: Griffith 1826.—

E. Morris

# ALELUIA, &c.

1821.

## HYMN I.

*Mawl y Cristion am orchfygu Gelynion ei Enaid.*

1 TRwy rinwedd nefol ras rhof glod i'r Iesu glân,
Gorchfygodd angau glas, fe'm tynnodd i o'r tân;
Archollwyd ef, ca's farwol friw,
Mae e' etto'n fyw; fy enaid cân.

2 Fy nghalon pa'm na's tyrr yn ddrylliau bob yr awr,
Wrth weld fy Mhrynwr pur, a'i waed yn llif i'r llawr:
Gan wylo'n daer ar Duw ei Dad,
Am faddeu'n rhad fy meiau mawr.

3 Rhyfelodd Crist â'r ddraig, trwy angau dirfawr boen,
Gorchfygodd Had y wraig, i'r orsedd'r aeth yr Oen;
Tros f' enaid i mae e' yno 'nawr,
F' Eiriolwr mawr, a'm hanwyl Ion.

4 Concwerodd Iesu'n llyn ellyllon uffern faith,
'Does ynddynt bellach 'rym i'm rhwystro ar fy nhaith;
Pa'm 'r ofnaf mwy? anturia'n hy'
Trwy ganol llu ngelynion llaith.

5 Mae'r ffordd yn awr yn rhydd i entrych nefoedd wen,
Gall pob pechadur prudd gael lle o fewn i'r llen:
Mae'r Iesu fry â'i freichiau 'r led;
Fy enaid, cred. Amen, Amen.

## HYMN II.

*Mawl i* GRIST *am ei Eiriolaeth.*

1 O'R holl gadwedig lu, sy'n teithio i *Salem* lân,
Myfi yw'r mwya' du ar bawb yn dwyn y bla'n:
Tragwyddol ras, na bu'sai'm nyth
Mewn cadwyn byth, yn uffern dân.

2 Er hyn nid ofnaf mwy, er cynddrwg yw fy ngwedd,
Ca's pechod farwol glwy' gan IESU glân â'i gledd':
Mae'r ddraig yn friw dan draed fy NGHRIST,
Mae i'm henaid trist dragwyddol hedd.

3 Efe yw'm Meichiau mawr o flaen gorseddfaingc Ion,
Sy'n eiriol bob yr awr, gan goño ei ddirfawr boen:
Pa'm 'r ofnaf mwy? mae'n llifo maes
I orsedd gras bur waed yr Oen.

4 Mae briw y biccell fain, a thyllau'r hoelion dur,
Ac ôl y goron ddrain, a chwysau'r groes a'i chur,
Yn dadleu nerth cyfiawnder Naf,
Dros f' enaid claf am heddwch pur.

5 Dioddefaint IESU GRIST orchfygodd lid DUW Ion,
Pob peth ry'm henaid trist, wrth feddwl am ei boen:
Fy unig sail y bydd e'n DDUW,
Im' tra fwy byw fy 'ngwaed yr Oen.

## HYMN III.

*Hiraeth am weled Dydd Ymddattodiad.*

1 YN ddiflaw disgwyl f' enaid prudd,
O'r diwedd daw, nesau mae'r dydd,
Pan caf roi naid i'm nefol nyth,
Lle byddaf byw yn berffaith byth.

2 Mi flinais fod mewn anial fyd,
Am fyn'd 'rwy'n glau i'm gartre' clyd,

Lle

Lle'r aeth o'm blaen i Frenhin ne',
Ac yn ei lys gwnaeth i mi le.

3 Lle na bydd brad im' mwy na briw,
Na thrai, na thristwch o un rhyw:
Ond gorphwys byth mewn gwledd ddi-boen,
Gan edrych ar y nefol Oen.

4 Taw, f' enaid, mwy, 'dyw 'r ffordd ddim maith,
I dŷ fy Nhad, i ben fy nhaith;
Bydd fodlon, cai, fy enaid cu,
Nofio yn frau i'r nefoedd fry.

5 Lle byddai ymhlith y sanctaidd lu,
Yn feinio cân i'm Harglwydd cu;
Yn berffaith lân heb bechod mwy,
Oll yn gyffelyb iddynt hwy.

---

## HYMN IV.

*Llef y Cristion am gael ei ddwyn i Win-dŷ* DUW.

1 O Clyw fy ngwaedd, a gwel fy ngwedd,
Fel hydd am ddw'r, 'rwy'n brefu am hedd;
Tyr'd, O fy Nuw, neu c'od fi uwch nen,
I'th lwyr fwynhau o fewn i'r llen.

2 Gwel fi yn llesg, a gwrando'm llef,
Mi wnes im' nyth wrth borth dy nef;
Lle arosaf byth, tra byddwyf byw,
Nes cael rhoi naid i gôl fy Nuw.

3 Fy nghlwyfau mawr a ddwed i maes,
Im' ddioddef cur gan elyn câs:
Llesg wyf er's tro, gan hynny trin
Fy nghalon wan â nefol win.

4 On'd oes mawr lu yn y nefol wlad
Yn nofio 'n rhwydd mewn cariad rhad?
Peth hono tro i'm henaid trist,
A gwrando nghwyn er mwyn fy NGHRIST.

5 'Does dim wna lês îs nefol len,
Nes teimlwi mhwys ar Grist fy mhen ;
Mae nghalon fach yn awr yn friw
Trwy ddifgwyl wrth fy anwyl Dduw.

6 Pa bryd y gwelai 'r ddedwydd awr,
I'm beiau'n llu gael myn'd i'r llawr ?
Yn bur heb len gael gweld fy Nghrist,
A myned trwy f' holl ofid trift.

7 O n'allwn beidio pechu 'n llyn,
A difgwyl fry ar *Bifga* fryn,
Nes gwawrio o draw dragwyddol ddydd,
At Iesu 'n rhwydd ai f' enaid rhydd.

---

## HYMN V.

### *Pererindod y Criftion.*

1 PERERIN llefg a llaith,
Dechreuais daith oedd bell,
Trwy lu o elynion mawr eu brad,
Gan geifio gwlad fydd well :
Am ffoi mae f' enaid tlawd,
At f' anwyl Frawd a'm Pen ;
Yn *Salem* fry par'to fy lle,
Mewn llys o fewn i'r llen.

2 Yng nglyn wylofain drift,
Lle bu fy Nghrist, 'rwy'n byw ;
Ac wrth ryfela 'm gelyn caeth,
Fy ngha'on aeth yn friw :
Iacha bob clwyf a brath,
A dail y bywiol bren ;
Yn *Salem* fry, &c.

3 Mae'm brodyr uwch y nen
Yn canu ar ben eu taith ;
A minneu oedais lawer awr,
Ar fiwrneu fawr a maith :
Ond bellach tyn fi'n ddwys,
Ar Grist dod bwys fy mhen ;
Yn *Salem* fry, &c.

4 Gwna im' fyn'd ymlaen yn ddewr,
Trwy ddyfroedd mawr a thân,
Heb ofni *Satan* lew na'i lu,
Nes elwi i *Seion* lân ;
Gan ddiangc ar y byd,
I'm cartref clyd uwch ben :
Yn *Salem* fry, *&c.*

5 'Rwy'n gwel'd yr oriau'n hir,
I fod o dir fy ngwlad ;
'Bryd deuaf at fy mrodyr fry,
Sy'n canu yn nhŷ fy Nhad ?
Gael gorphen ar fy nhaith,
A'm fiwrne faith îs nen :
Yn *Salem* fry, *&c.*

---

## HYMN VI.

### *GWEDDI.*

1 IESU, Mrenhin mawr a'm Priod,
Bydd wrth raid i mi'n blaid i orchfygu pechod.

2 Ti fu drofwyf yn diferu,
Chwys a gwaed 'lawr i'th draed, ynddo gad i'm golchi:

3 Tra fwy'n trigo yn 'r anialwch,
Gwel'd yn wir d' wyneb pur yw fy ngwir ddiddanwch.

4 Tua *Salem* auraidd arwain
F'enaid llaith ar ei daith, nes bo'm gwaith yn gorphen.

5 Pâr im' aros mwy'n dy freichiau,
Boed fy nyth ddedwydd byth, yn dy ddilyth glwyfau.

6 N'ad i'r gyfrwys ddraig fy nhwyllo,
Ar un llaw, yma thraw, oddi wrthyt i ymado.

7 Nertha 'm traed blinedig ddringad,
Fynu o hyd maes o'r byd, nes i'r nef im' ddwad.

8 Pan bwy'n fengu'n llwybrau angau,
Rhag pob braw, rho dy law, dangos im' dy glwyfau.

## HYMN VII.

*Ar yr un Ystyr.*

1 PErerin wyf heb ble, blinedig ar fy nhaith,
Hiraethu 'rwyf am dre', yn nhragwyddoldeb [maith:
O ddedwydd le! pa bryd do' i fyw,
Byth at fy Nuw o fewn i'r ne'?

2 Am ddiangc 'rwyf o'r byd, i blith y nefol gôr,
Lle mae fy nhrysor drud, i mi i'w gael yn 'stôr;
O ddedwydd le, &c.

3 Rhyfela 'rwyf is nen, â mawr elynion lu,
'Does un yn *Seion* wen i guro ar f' enaid cu:
O ddedwydd le, &c.

4 Merthyron aeth ymlaen yn llu i ben eu taith,
Heb ofni dw'r na thân, nes gorphen ar eu gwaith:
O ddedwydd le, &c.

5 Fy ngartref yno sy, a'm dedwydd orsedd wen,
Mae ngwisgoedd gwerthfawr fry, mewn llys o fewn i'r [llen:
O ddedwydd le, &c.

6 'Does gofid yno'n bod, na galar byth na phoen,
Ond gwlad yn llawn o glod, i'r nefol anwyl Oen:
O ddedwydd le, &c.

## HYMN VIII.

*Hiraeth y Cristion am fyned i ben ei Daith.*

1 PERERIN wyf i'r *Ganaan* fry,
I gynnes gôl fy Iesu cu,
Lle ca'i dragwyddol nyth;
'Mhell uwchlaw swn y ddraig a'i saeth,
Na gelyn mwy i'm gwneud yn gaeth,
Cai'n dawel orphwys byth.

2 O bell mi wela'm cartre'n wir,
O ſewn i byrth *Caerſalem* bur,
Pob rhai 'n meddiannu hedd ;
O ddinas dêg, o'th ſewn nid oes
Na haul, na lloer, na thywyll nos,
Gwynfyd rhai draw i'r bedd !

3 Pan ddel yr adgyfodiad mawr,
Caf godi 'n lân o'r ddaear lawr
I entrych awyr fry :
Oddi yno af mewn nefol hedd,
I'r nefoedd wen mewn newydd wedd,
I blith angylaidd lu.

4 Mi fyddaf fry, (O rhyfedd fraint !)
Yn boddi 'm ſŵn ymhlith y ſaint,
Mewn peraidd hyfryd dôn ;
Cymdeithion hy' mewn nefol hwyl,
Heb 'mado byth, ond cadw gwyl
I'r tirion anwyl Oen.

5 Gwynfyd yn awr fai gyd â'm Ner,
Fy nghartre' ſydd uwchlaw y ſer,
Mewn paradwyſaidd fan ;
On' chaf ar frys ehedeg fry,
Gael prawf o wledd angylaidd lu,
Fe dyrr fy nghalon wan.

---

## HYMN IX.

*Cryf Obaith o weled Gelynion dan Draed.*

1 PERERIN wyf tu a *Salem* bur,
A ddaeth i maes o'r Aiphtiaidd dir ;
Rho nerth fy Nuw i deithio mlaen,
Nes d'od i mewn i'r *Ganaan* lân.

2 Gelynion taer ſydd o bob tu,
Fel câd, am rwyſtro'm henaid cu
Wel'd d' wyneb gwych fy Iesu gwiw,
A theimlo o'th nefol hedd fy Nuw.

3 Mi wn y cyll pob gelyn call,
Caf rwygo dyrus rwydau'r fall;
Caiff pechod drwg ac uffern drist,
I wel'd mai'm Ffrynd yw Iesu Grist.

4 Er maint yw llid fy mhechod llym,
Ei erchyll rwysg a'i ryfedd rym,
Fy Mhriod mae'n Dywysog mawr,
Fy meiau'n llu fe myn i'r llawr.

5 O Iesu da na âd mo'th waith,
Nes myn'd yn llwyr â'm henaid llaith
O'r anial fyd, at nefol lu
Sy'n gongc'rwyr yng *Nghaersalem* fry.

---

## HYMN X.

*Dedwyddwch y Saint ar ol Marwolaeth.*

1 DAW diwedd ar fy nhaith a'm pererindod trist,
Gorphenna'm llafur-waith, caf orphwys gyd [â'm Crist:
O fewn ei gôl y gwnaf fy nyth,
Ddychwelaf byth i'r byd yn ol.

2 Pryd hynny mi af trwy bob blinder, brad, a llid,
Fy nhèmtio ni's daw mwy na *Satan*, cnawd, na byd;
Mewn newydd wedd caf fyn'd at Ion,
O'r byd a'i boen i'r hyfryd wledd.

3 Fe dderfydd mwyach son am alar, tristwch, gwae,
Y pechod câs a'r poen, i flino'r duwiol rai;
(O hyfryd waith!) ond moli'm Ner
Uwchlaw y ser, i oesoedd maith.

4 Caf wel'd aneirif lu o bererinion glân,
O fewn *Caersalem* fry, a ddaethant yno 'm blaen,
O ddautu 'r faingc yn moli'n hy'
Fy Iesu cu, â pheraidd gaingc.

5 Caf wel'd fy anwyl Dad f' arweiniodd ar fy nhaith,
A'm carodd i yn rhad o dragwyddoldeb maith;
A'r anwyl Oen fu drosof fi
Ar *Galfari* mewn dirfawr boen.

6 Caf

6 Caf fwytta uwch y nen guddiedig fanna pur,
Caf ddail y bywiol bren i laefu'm briw a'm cur ;
Mi fyddaf iach, mi gaf yn wir,
Driagl pur wrth f' enaid bach.

## HYMN XI.

*Yn ymgadarnhau wrth gofio'r Cyfuron gynt.*

1 O ARGLWYDD, gwel fi'n llefg a gwan,
Yn ffaelu dringo o'r byd i'r lan,
Am fyn'd yn lew i'r *Ganaan* lân,
Heb allu fymmud fawr ymlaen.

2 Gynt credais cai fy enaid cu,
I fod yn frau'n gongcwerwr fry ;
Ond etto heb feddiannu'r wlad
Bwrcafodd IESU im' â'i waed.

3 Fy meiau 'n gryf fydd o bob gradd,
Yn fawr eu llid am gael fy lladd,
Gan ddadleu 'n daer nad oes dim rhan
Yn IESU gwiw gan f' enaid gwan.

4 Yn fy erbyn mae gelynion gâd,
Am ddamfiad f' enaid dan eu traed :
Och! och! p'le mae fy Mrenhin mawr
I fathru llu o'r rhai'n i'r llawr ?

## HYMN XII.

*Yr ail Ran.*

1 O DEFFRO, côd, fy enaid cu,
Pa'm 'r ofnaf lew elynion lu ?
Er maint yw grym uffernol griw,
Fe maedda gwaed yr IESU gwiw.

2 CRIST wyddai'm bai'n hir cyn bod byd,
Mai pechod gai 'fe ynnwy' gyd ;
A'i fryd oedd lawn er uffern lu,
I'm dwyn i fryn *Caerfalem* fry.

3 Am hyn mi greda, tra ſwi byw,
Mai Cyfaill da caf wel'd fy Nuw;
Y dwg fy Nhad fi ' ben fy nhaith,
Er gwaetha lluoedd uffern faith.

4 Cof ddyddiau gynt, fy enaid triſt,
Attolwg, cred hen eiriau'th Grist;
Gwnaeth 'ddewid hael na ddigiai'n hwy,
A'm beiau mawr ni chofiai mwy.

5 Ce's wel'd yn rhodd fod Duw o'm rhan,
Yn Briod gwiw i'm henaid gwan,
'N arfaethu'm dwyn i ben fy nhaith,
O eitha' tragwyddoldeb maith.

6 Pryd hynny teimlais waed yr Oen,
Yn tynnu'm pwn a llaeſu'm poen;
Yn f' enaid llon 'roedd cri a llef,
Am ſyn'd ar nawſ i deyrnas nef.

7 Byth cofiaf mwy y lle a'r man,
Dilifodd gwin i'm henaid gwan,
Yn ffrwd ddidrai o'r nefoedd draw,
Nes gwella'm briw a dofi'm braw.

8 Pryd hynny 'mlaen yr o'wn yn myn'd,
Gan bwyſo'n ffri ar f' anwyl Ffrynd;
A'm golwg beunydd ar y gwaed,
Yn ſathru pechod dan fy nhraed.

9 Diſgwyliaf dro, fe wawria draw,
Dragwyddol ddydd, fy Iesu ddaw
I'm dwyn o'm briw, lle na bydd brâth,
Na braw wrth ſwn un danllyd ſaeth.

## HYMN XIII.

*Myſyrdod ar Ddedwyddwch y Nefoedd.*

1 O Fugail *Iſrael*, dwg fi 'mlaen
I'r dawel lân orphwysfa,
I'th neſol lys, o'm poen a'm pla,
I ganu *Aleluia.*

2 I *Seion* wych, paradwys wiw,
Lle mae fy Nuw'n gartrefu,
Gael rhoddi mhwys, a chuddio mhen
Ym mynwes wen yr Iesu.

3 Yn angau caf nefolaidd gôr,
Angylion o'r difgleiria,
I'm dwyn o'm briw at deulu bra'
Sy'n canu *Aleluia*.

4 Ar aden Cerub âf yn hy'
Trwy ganol llu 'r gelynion,
Nes d'od yn llwyr, er gwaetha'r llid,
I hyfryd fynydd *Seion*.

5 Ond myn'd trwy lys *Caerfalem* lon,
Caf gwrdd â'm ffyddlon Frenhin;
Yn agor drws y nefoedd draw,
Ac yn ei law fe'm derbyn.

6 Cael cwrdd a wnaf o fewn i'r ne'
A'r fanctaidd bererinion;
Ac yn eu plith câf foli'm Ner
A phêr ganiadau *Seion*.

7 Ffarwel gaethiwed yno mwy;
Chaiff angau'n hwy deyrnafu;
I dragwyddoldeb câf mewn hwyl
Iawn-gadw gwyl i'r Iesu.

8 Fel haul yn y ffurfafen bur
Câf fod mewn gwir ddifgleirdeb:
Neu fel y fer llewyrchu câ'
Hyd eitha tragwyddoldeb.

9 Y wifg a'r goron câf i'm rhan,
Sy 'nghadw gan yr Iesu;
A'r hyfryd balmwydd yn fy llaw,
Ca'i'n *Seion* draw deyrnafu.

10 Ymborthi caf mewn gwlad uwch-ben
Ar ffrwythau pren y bywyd,
Ac yfed byth, heb boen na chur,
O afon bur a hyfryd.

11 Lle na's daw pechod, byd, na chnawd,
Na gwyn, na gwawd, na thriftwch;
Ond perffaith hedd, a chariad pur,
A nefol wir ddiddanwch.

12 Ni's gwn yn iawn, tr'wi ar y dda'r,
Mo'r hyfryd ffâr fydd yno;
Ond gwynfyd, medd fy enaid prudd,
A welai'r dydd yn gwawrio!

---

## HYMN XIV.

*Hiraeth am Waredigaeth o Gaethiwed.*

1 O Iesu 'r Meddyg da,
Iacha fy enaid caeth,
A ficr felia fi ar y graig,
Sydd uwchlaw 'r ddraig a'i faeth:
Am ddiangc wyf i'th gôl,
Mae'n f' ol elynol griw;
O cofia mod mewn anial wlad,
A châr fi'n rhâd tr'wi byw.

2 *Sodoma*, 'r *Aipht*, y man
Croeshoeliwyd 'r anwyl Oen,
Ymhell o olwg *Cannan* wiw,
'Rwy'n byw mewn dygn boen;
Ymhlith gelynion haid:
Bydd im' yn blaid fy Nuw;
O cofia mod, &c.

3 Ar lan y llyn yn wir,
Y bum yn hir a maith,
Yn dyfal ddifgwyl gwneud yn iach,
Fy enaid bach oedd gaeth:
Un olwg ar dy waed
Roiff im' iachad o'm briw;
O cofia mod, &c.

4 Bydd im' yn dirion Ffrynd,
Rhaid im' gael myn'd yn rhydd

P'odd

P'odd gallai aros yma'n hwy ?
Fy nghlwyfau'n fwyfwy fydd :
Ond llefain wnaf hyd fedd,
Am hyfryd hedd fy Nuw :
O cofia mod, &c.

5 N'ad i mi ofni mwy,
Fyn'd trwy'r anialwch maith,
Er gwaetha'r lluoedd fydd is nen,
Dwg fi i ben fy nhaith :
Cyfura 'm calon wan,
A fwppiau'r *Ganaan* wiw ;
O cofia mod, &c.

---

## HYMN XV.

*Gobaith o fynd trwy bob Rhwyftrau i'r* Ganaan *nefol.*

1 O Anghrediniaeth clyw, na flina'm henaid llaith,
Tragwyddol gariad Duw, a'm dwg i ben fy nhaith :
Pa'm 'r ofnaf lu ? mi af ymla'n,
Trwy ddw'r a thân i'r *Ganaan* fry.

2 Er bod gelynion hy' am gongc'ro'm henaid gwan,
Addawodd Iesu cu y byddai byth o'm rhan ;
Pa'm 'r ofnaf lu ? &c.

3 Er cael fy rhwyftro'n hir, trwy ddichell *Satan* gaeth,
Feddiannu'r hyfryd dir fy'n llifo o fel a llaeth :
Pa'm 'r ofnaf lu ? &c.

4 P'le mae'r 'ddewidion rhâd, a ffyddlon eiriau Duw ?
A feliwyd oll â gwaed o galon Iesu gwiw :
Pa'm 'r ofnaf lu ? &c.

5 Arweiniodd ef fi maes o'r dyrus anial dir,
A ball ef mwy ei ras i'm dwyn i *Seion* bur ?
Pa'm 'r ofnaf lu ? &c.

6 Fy ffyddlon nerthol Frawd a'm Ffrynd yw'r Iesu cu,
Fe arwain f' enaid tlawd i fryn *Caerfalem* fry :
Pa'm 'r ofnaf lu ? &c.

7 Caf weld *Iorddonen* faith yn dal ei dyfroedd du,
'N rhoi lle i'm henaid llaith i'r etifeddiaeth fry:
Pa'm 'r ofnaf lu? &c.

---

## HYMN XVI.

*Golwg Ffydd.*

1 PE meddwn ar angylaidd ddawn,
Fy IESU ag ef ei foli wnawn:
Trwy 'r anial wlad myn'd yn ei law,
'Rwy 'nawr i dre' *Caersalem* draw.

2 I *Bisga* o'r diwedd f' enaid daeth,
Wel'd gwlad yn llifo o fel a llaeth;
Y *Ganaan* wiw, Paradwys well,
Gorphwysfa 'r pererinion pell.

3 *Caersalem* dêg a chartre'm Duw,
Mae 'r IESU a laddwyd yno 'n fyw:
Yn awr y gwn fod yno gaingc,
Gan feintiau fyrdd o ddautu'r faingc.

4 Yno mae gwaed dros f' enaid gwan
Yn dadleu'n rhwydd bob awr o'm rhan;
Mae yno lu, mi af i'w plith,
Heb 'mado, na rhoi ffarwel byth.

5 Mi wela 'm lle o fewn i'r llen,
A'm henw fry ar garreg wen;
Y goron bur a ga'wd trwy boen,
A gwaed y croeshoeliedig Oen.

6 Wele fe ga's fy nghalon gu,
Wledd ag fydd gan angylaidd lu;
Mae f' enaid bach yn awr mewn hwyl,
Fyn'd at y faint i gadw gwyl.

7 Pa bryd troi 'n ol *Iorddonen* ddu,
Gael myn'd yn frau i'r *Ganaan* fry,
Dan hyfryd wlith y nefol wlad,
Ga's *Abra'am* hy a'i fanctaidd had.

8 Mi rof fy mhwys ar f'-anwyl Grist,
Nes paso glyn wylofain drist;
O nerth i nerth mi ddof i'r wledd,
Sydd gan y Saint tu draw i'r bedd.

9 O tyr'd yn awr, côd fi, fy Ner,
Ar aden eryr uwch y ser,
Gael myn'd ar naid i'm dedwydd nyth,
O fewn i byrth *Caersalem* byth.

## HYMN XVII.

*Gobeithio yn erbyn Gobaith.*

1 PAM'r ofna'm henaid gwan, wrth wel'd aneirif lu,
Yn ceisio ammau'm rhan a'm hawl i'r Iesu cu?
Gwn mai dilith wirionedd yw
Fod cariad Duw yn parhau byth.

2 P'odd gall y Bugail mawr anghofio ei anwyl wyn?
Pan daeth o'r nef i lawr i farw er eu mwyn;
Gwn mai dilith, &c.

3 Os gad fy anwyl Dad fi farw ar fy nhaith,
Beth ddaw o'r arfaeth rad yn nhragwyddoldeb maith?
Gwn mai dilith, &c.

4 A ddiffodd cariad rhad? ai ofer geiriau Duw?
A gollir rhinwedd gwaed, ac angau Iesu gwiw?
Gwn mai dilith, &c.

5 A roi ffarwel i dyst o gariad Crist a'i hedd?
Gynt ga's fy enaid trist o fyn'd i'r nefol wledd:
Gwn mai dilith, &c.

6 Mi greda etto'n hy' caf fyn'd i ben fy nhaith,
Fy nhawel artre' fry o'm poen a'm llafur maith:
Gwn mai dilith, &c.

## HYMN XVIII.

### *Pererindod y CRISTION.*

1 TRafaelwyr 'ym i'r *Ganaan* glyd,
Llesg bererinion yn y byd;
Ni glywsom lais yn gwawdd i'r nef,
I gael teyrnasu gyd ag ef.

2 Yno mae'n IESU ni a'n Tad,
A'n brodyr gwiw bwrcasodd gwa'd
Mae'n henwau newydd yno oll
Ar synwes CRIST, nid awn ar goll.

3 Mae yno fôr o waed yr Oen,
Yn llwyr amgylchu gorsedd Ion;
Mae cariad a llawenydd pur,
Yno fel afon grisial glir.

4 Pa beth all mwyach ddwyn ein bryd,
Na'n denu i aros yn y byd?
Ein hiraeth ni a'n syched yw.
Gael myn'd i'r lan i deulu DUW.

5 Ar wagedd brau, pa'm rho'wn ein bryd?
Sy'n erchyll dwyllo plant y byd:
Dilynwn ol y praidd yn dyn,
Nes dringo fry i *Seion* fryn.

6 'Rhyd anial ffordd ni awn ymlaen,
O'r dywyll *Aipht*, i'r *Ganaan* lân:
Er rhwystrau mawr cawn fyn'd yn wir
Ar fyr feddiannu'r hyfryd dir.

## HYMN XIX.

### *Yr Ail RAN.*

1 GWnawd ffordd i'r nef gan IESU cu,
'Nawr gwel'd yr 'ym ein cartre' fry;
A'r anwyl Oen, a'i ddwylo'n waed,
Yn dangos lle yn nhŷ ein Tad.

2 Ymhlith

2 Ymhlith y gwych fendigaid lu,
Fu 'n ymladd â gelynion hy',
Aeth etto 'mlaen, er gwaetha llid,
Yn moli 'nawr mewn nefol fyd.

3 Yn gorphwys fry heb friw na phoen,
Ar feingciau o ddautu mainge yr Oen;
Mae llwybrau rhai'n i wel'd o hyd,
Nes d'od o fewn i'r nefol fyd.

4 Ymdrechu wnawn trwy nerth ein Duw
Nes cael y wifg a'r goron wiw;
O law'n gelynion fyn'd yn rhydd,
A chael yr uchel gamp a'r dydd.

5 Rhedwn ar frys, mawr yw y fraint,
Y nef yw diwedd gyrfa'r faint;
Er maint yw'r llid, par'towyd ein lle
Ym mynwes Naf o fewn i'r ne'.

## HYMN XX.

*Gorfoledd yng Nghariad DUW.*

1 YM mynwes glyd yr anwyl Oen,
Heb friw na phoen 'rwi'n llechu;
Ac oddifewn ei glwyfau cu,
Mae f' enaid i'n gartrefu.

2 Nid llygad wel, na chluft a glŷw,
Nac un dyn byw ddychymmyg,
Y tawel hedd roiff Duw bob dydd,
I'r rhai fydd ddewifedig.

3 Er bod yn hir mewn anial fan,
Yn 'mofyn am orphwysfa,
O'r diwedd des (O rhyfedd fraint!)
I'r man mae'r faint yn gwledda.

4 Wrth linyn rhâd fe ddaeth i'm rhan,
Y lle a'r man hyfryda;
Mewn brafder bro, 'mhlith cwmp'ni bra'
Sy 'n canu *Aleluia.*

5 Mi

5 Mi wn pe cawn dafodau hy',
Angylion fry sy 'n canu,
Mi ro'wn y rhai'n i gyd o'r bron
I ganmol graslon IESU.

6 Mi wn y dwg fi i deyrnas ne',
'Orphennu 'm pererindod;
Ac yno fyth mewn tawel fan
Caf eistedd dan ei gysgod.

7 Caf fwytta ffrwythau prennau plan
Ar hyd glan afon bywyd;
Tragwyddol sabboth gyd â'r Oen
Heb friw, na phoen, na gofid.

---

## HYMN XXI.

### *Am Ddioddefaint* CRIST.

1 O DEFFRO tro, fy enaid trist;
Gwel 'ffernol griw o ddautu 'th GRIST,
Am ladd dy Brynwr pur:
Yn 'mofyn gang o dystion gau,
I *Pilat* i 'w gondemnio e'n glau;
O f' enaid cofia ei gur.

2 Gan bwys y gwaith, fe chwysai'r gwaed,
Yn llif didrai o'i ben i'w draed,
A hyn dros oriau hir;
Fe yfai'n rhwydd o'i gariad rhad,
Y cwppan du o law ei Dad; O f' enaid, &c.

3 Y Ceidwad cu, ei gondemnio ca's,
Ond llofrudd mawr a ddaeth i ma's,
A gwirion hoelion dur:
O dan y pwys er maint y poen,
Distewi wnai fel addfwyn Oen; O f' enaid, &c.

4 Gelynion llym a godai eu llef;
*Croeshoelia, O croeshoelia ef,*
Ni haeddai fyw yn hir:

Ymhlith

Ymhlith y llu, awd ag e'n llyn,
I farw fry i *Galfaria* fryn; O f' enaid, &c.

5 Rho'wd mantell goch am dan yr Oen,
Gan ddrain ei ben ddioddefai boen;
'Nawr wele'r Brenhin pur:
Fflangellwyd ef (nes 'doedd e'n wa'd)
A chwyfau du, o'i ben i'w draed; O f' enaid, &c.

## HYMN XXII.

### *Yr Ail RAN.*

1 CA'DD gario'r groes i ben y bryn,
Nes llethu'n llwyr fy IESU'n llyn;
Gan wawdio'm Prynwr pur:
A dweud, ai dyma *Israel* Saint,
Ei waed boed arnom ni a'n plant; O f' enaid, &c.

2 Y ddaear fud roi 'i meirw'n fyw,
A'r creigydd fry a holltai'n friw,
Wrth edrych ar fath gur:
Yr haul a ymguddiai wrth y lo's,
Y lloer a'r fer ai'n dywyll nos; O f' enaid, &c.

3 Trywanwyd do fy Mhrynwr rhad,
Nes daeth o'i galon ddw'r a gwa'd,
Yn ffrwd fel afon bur;
Oedd ar y llawr i wel'd yn llyn,
Yn frwd ar ben *Calfaria* fryn; O f' enaid, &c.

4 Mi glywa'i lef pan chwerwa'r loes,
A'i eirad gri ef ar y groes,
Am faddeu i mi'n wir;
Ei weddi ai trofwyf uwch y nen,
A mi'n ei hoelio ar y pren; O f' enaid, &c.

5 Dros f' enaid i bu'r addfwyn Oen,
Fel hyn yn diodde' dirfawr boen,
I'm gwneud yn rhydd yn wir:
'Roedd yn ei fryd orphennu'r gwaith,
O eitha' tragwyddoldeb maith; O f' enaid, &c.

## HYMN XXIII.

*Ymddiddan â Duw ar hanner Nos,* Sal. lxiii. 6.

1 O Iesu'r Bugail da, fu'n dioddef ar y gro's,
Fy enaid brefu wna, am danat hanner nos;
Fy nghalon friw, yn ddeffro ca,
I ymddiddan â f' Anwylyd gwiw.

2 Tyr'd arwain fi'n y blaen, nes myn'd i ben fy nhaith,
Er dyfroedd mawr a thân, nertha fi orphennu'm gwaith;
Fy ffyddlon Ffrynd moes im' dy law,
I'r *Canaan* draw gad i mi fyn'd.

3 F'Anwylyd gwel fy mod, oddi wrth fy ngartre' mhell,
Hiraethu'r wyf am dd'od, o fewn i'r wlad fydd well;
'Rw'i yma'n byw mewn anial dir,
A'r oriau'n hir heb wel'd fy Nuw.

4 Ys truan wyf pa fodd arosaf îs y nen?
F' Anwylyd Iesu ffodd i mewn i'r nefoedd wen:
O d'wed pa bryd ca' finnau fod
Yn canu clod yn *Seion* glyd.

## HYMN XXIV.

*Gorfoledd mewn Cymmundeb â* Christ.

1 MOliannaf Iesu Grist, a alwodd ar fy ol,
Sy'n cuddio'm henaid trist o fewn ei gynnes [gôl;
O hyfryd fan ym mreichiau'r Oen,
Heb friw na phoen mae f' enaid gwan.

2 Yn awr pleserau'r byd, fydd ffiaidd beth a ffol,
Y golud s' ynddo gyd, ni'm denant ar eu hol;
O hyfryd fan, &c.

3 Tryforau'r *Aipht* a'i bri, a golud *India* bell,
Cael hedd fy Iesu cu, i mi fydd lawer gwell;
O hyfryd fan, &c.

4 Fe lecha 'm calon friw, o fewn ei fynwes wen,
Mae afwy law fy Nuw, dan fy mlinedig ben ;
O hyfryd fan, &c.

5 Fel pwyfi o nefol fyrr, mae'n dofi'm poen a'm loes,
A rhwng fy mronnau'n wir, mae'n aros dros y nos ;
O hyfryd fan, &c.

6 Mi fyddaf yma byth, er gwaetha llid y ddraig,
Can's cadarn yw fy nyth, o fewn i'r oefoedd graig ;
O hyfryd fan, &c.

---

## HYMN XXV.

Efa. xxxv. 8. *Yna y bydd prif Ffordd.*

1 I'R nefoedd fry'r aeth IESU gwiw,
Ynddo gobeithiodd *Ifrael* DUW,
Ac fe balmentodd ffordd ddigryn
O'r ddae'r i fynu atto ei hun.

2 Ffordd fanctaidd bur, heb och na gwae,
Na's teithia neb annuwiol rai ;
Gormefol ddyn 'rhyd hon ni ddaw,
A llew ni's dring i'r nefoedd draw.

3 Crediniol ryw a gafodd ras,
O'r cyftudd mawr i dd'od i maes,
Yw'r gwaredigion mwynion cu,
Sy'n ffoi 'rhyd ffordd *Caerfalem* fry.

4 Y pererinion glewion glân,
Ni's ofnant byth mo ddw'r na thân ;
Dieithriaid ar y ddaear ddu,
Sy'n teithio tu a'r *Ganaan* fry.

5 A phe ynfydion fyddent hwy,
Ni chaent ddim cyfeiliorni mwy ;
Hwy aent ymlaen trwy rin y gwa'd,
Nes d'od dan wlith, i'r hyfryd wlad.

6 Fy NGHRIST yw'r drws i'r nefoedd draw,
A'm feren dêg, i'm harwain daw ;
Yfgol fy NUW o'r ddae'r i'r nen,
I ddringo o'r llawr tu fewn i'r llen.

## HYMN XXVI.

*Can.* v. 8, 9, 10.

1 CHwi ferched *Salem* dre', wrth rodio heolydd hon;
A welſoch chwi'n un lle, 'rhwn hoffa'm henaid [llon?
'Rw'i'n glaf am nyth, i mi gael byw,
Dan aden wiw fy Mhrynwr byth.

2 Os gwelwch f' anwyl GRIST, manegwch iddo'n llwyr,
Hiraetha'm henaid triſt am dano fore a hwyr:
'Rw'n glaf, &c.

3 Efe yw'm ſicr ran, a'm cyſur oll yn oll,
Cryf Fugail f' enaid gwan, yn rhwyſtro 'm ſyn'd ar
'Rwy'n glaf, &c. [goll:

4 Daeth afon frwd o waed, o galon f' anwyl Frawd,
Yn llifo lawr i'w draed, i olchi f' enaid tlawd;
'Rwy'n glaf, &c.

5 'Nigoni wnaeth â gwledd o ſanna pur y nen,
Ces deimlo ei nefol hedd, ac arno bwyſo mhen;
'Rwy'n glaf, &c.

6 Mae'n wridog oll a gwyn; neb fel fy IESU cu,
'Does ar y ddaear hyn, nac yn y nefoedd fry:
'Rwy'n glaf, &c.

7 Arweiniodd ef fi 'mlaen, er mai ynfyd own a ffol,
Ynghanol dw'r a thân, fe'm cym'rodd yn ei gôl:
'Rwy'n glaf, &c.

## HYMN XXVII.

*Rhydd-did y Saint.*

1 YN awr y gwn fod IESU cu,
Yn *Seion* fry'n teyrnaſu;
Mae'n rhoddi im' arwyddion braf,
O'r rhydd-did gaf feddiannu.

2 Blwyddyn

2 Blwyddyn y carcharorion caeth,
O'r diwedd ddaeth i fynu;
Nesau mae gwaredigaeth lawn,
I'r rhai sy'n cyflawn gredu.

3 Bron darfod y mae'r *aipltiaidd* nos,
O'n poen a'n loes cawn orphwys;
Crist, colofn dân, mewn anial dir,
A'm dwg i'r wir baradwys.

4 Er gwaetha grym uffernol griw,
Hyd byth mae Duw a'i gariad:
Mae'r Iesu'm pen yn gadarn graig,
Diddymma'r ddraig a'i bwriad.

5 Y cysur llon, a'r gwynfyd llawn,
Gaiff rhai sy'n cyflawn gredu,
Sydd fwy nag all tafodau cu,
Angylion fry fanegu.

6 Ysbryd fy Nuw o'm mewn a drig,
'Rwy'n deml ddiddig iddo;
Fe'm dysg yn rhad byth fore a hwyr,
Nes caffwi'm llwyr sancteiddio.

7 Am wybod mwy o'm Iesu hael,
Mae f' enaid gwael yn brefu:
Cyflawnder mawr ei gariau cu,
Wyf am gael i feddiannu.

---

## HYMN XXVIII.

*Amynedd dan Ddioddefiadau.*

1 O Garcharorion prudd, disgwyliwn ronyn bach,
Nesau mae'r dedwydd ddydd, i'n gwneud ni oll [yn iach;
O'n poen a'n pla, cawn fynd yn wir,
I *Salem* dir, *Aleluia*.

2 Er yfed bustl cry' o ddwylo'r anwyl Oen,
A'r afon ddwfn ddu, o gystudd ing a phoen:
O'n poen, &c.

3 Yn ddyfal 'drychwn draw, am waredigaeth lawn,
Cawn fod i maes o law, yn ogoneddus iawn;
O'n poen, &c.

4 Er bod annuwiol fyd; ellyllon uffern gâs,
Bob munud awr â'u bryd am lwyr ddifetha'm grâs;
O'n poen, &c.

## HYMN XXIX.

*I'w chanu wrth ymadael.*

1 GWel dy anwyl ŵyn yn 'madael, [dael.
Bydd wrth raid, i ni'n blaid, IESU paid a'n ga-

2 Arwain ni trwy'n hanial drigfan,
Na'd ni 'nol; yn dy gôl, dwg ni 'r nefol *Canaan*.

3 Rhwyma 'r ddraig tro ni'n dihangyd,
Siga ei fiol, tyn ei chol', rho 'ddi farwol ergyd.

4 Rhag gelynion gwna ni'n arfog,
Oll yn un, yn gyttun, fanctaidd lu banerog.

5 N'ad ni 'nabod dim na'i garu,
Tra f'om byw, ond y gwiw, groeshoeliedig IESU.

6 Os gelynion ddaw i'n denu,
Gwna ni'n ddwys, fwrw'n pwys, i orphwys ar yr IESU.

7 Na'd i'r blaidd byth mo'n gwasgaru,
Bydd di byth, yn ddilyth, Ben a Bugail inni.

8 Dwg ni i'r baradwys auraidd,
Fyw heb boen gyd â'r OEN, fry yn *Seion* fanctaidd.

9 Lle na's torrir byth o'r undeb,
Cartre' bra', byth heb bla, dedwydd dragwyddoldeb.

## HYMN. XXX.

ADDEWIDION, *Esa.* xi. 6, 7, 8, 9.

1 DAW amser bra', can's gwawrio bron,
Mae hafddydd yr efengyl lon;
I'r 'nysoedd pell daw'r trysor drud,
A'i swn â hyd eithafoedd byd.

2 Cair gweld y blaidd a'r oen ynghyd,
Y myn a'r llewpart o'r unfryd;
Y llo, y llew, a'r 'nifail brâs,
Mewn heddwch mawr, heb gwympo ma's.

3 Bachgennyn bychan yn ei law,
A'u trin, a'u harwain yma a thraw:
Llid yn y rhai'n byth mwy ni bydd,
Yr anian newydd garia'r dydd.

4 Y fuwch ynghyd â'r arth a bawr,
A'u llydnod fydd mewn heddwch mawr;
Anghofia'r llew greulondeb cas,
Fel ŷch fe boriff wellt y ma's.

5 Y plentyn sugno chwery'n ffra'th,
Wrth dwll yr asp, heb ofni brath;
'Rhwn a ddiddyfnwyd, heb ddim braw,
Ar ffau y wiber rhydd ei law.

6 Diniwaid fyddant o bob rhyw,
Ar hyd holl fynydd sanctaidd Duw;
Yn wirion iawn cyfnewid gras,
Y rhai fu gynt yn gyndyn cas.

7 Gwybodaeth Iesu fydd yn 'stor,
Fel dyfroedd mawr yn llanw'r môr;
Daw'r de' a'r gogledd at yr Ion,
Holl bwrcas gwaed yr anwyl O'n.

8 Llamma fel hydd, tros fryniau pell,
Cyflawna'r addewidion gwell;
O galw d' etholedig had,
I brofi rhagorfreintiau 'th wa'd.

## HYMN XXXI.

*I'w chanu y Borau.*

1 DEffro f' enaid, deffro'n ufudd, [wydd.
Cod yn awr, gyd â'r wawr, feinia ganiad ne-

2 F' enaid bach ga's huno'n gynnes,
Yn ddi lo's, trwy y nos, yn dy ddiddos fonwes.

3 Dan dy aden dawel dyner,
Ces heb wyn hyfryd hun, buddiol fu'm hesmwythder.

4 Heddyw rho fy mhwys ar ddwyfron,
IESU gwiw'm Tywyfog yw rhag pob rhyw elynion.

5 Uwch creaduriaid, IESU cadw,
F' enaid llon, ar dy fron dirion nes fy marw.

## HYMN XXXII.

*Wrth fyned i Gyfgu.*

1 O IESU 'm Ffrynd a'm Prynwr rhâd
O'th galon wiw daeth môr o wa'd,
I olchi 'm ffiaidd friw:
Rho i mi nerth i wneud fy nyth,
I'm henaid bach i ymguddio byth,
O fewn dy glwyfau gwiw.

2 Rho im' orwedd yn dy gôl yn glŷd,
Yn barod fyn'd i'r nefol fŷd,
Os galw wna fy Nuw:
O boed o'm cylch angylion hŷ,
I'm cadw'n lân rhag uffern hu,
S'am ddrygu'm henaid byw.

3 Llettya heno 'm Prynwr prudd,
Rhung fy nwyfron nes gwawrio'r dydd,
Fel pwy fi o nefol fyrr:

Y borau

Y borau cymmer fi'n dy law,
Ni roddwn dro i'r *Ganaan* draw,
I wel'd p'radwyfaidd dir.

## HYMN XXXIII.

*Am Barhâd mewn Grâs.*

1 GElynion creulon fy yn dorf aneirif fawr,
A rhai'n mewn cyngrair cry, i'm curo'n lân i [lawr:
Dal fi fy Nuw, nes diengu i'r lan,
I'r hyfryd fan mae'r faint yn byw.

2 Cafeion Iesu fydd yn llwyr ddymuno cael,
Fy ngweled i ryw ddydd, yn fyrthio yn llaw *Saul*:
Dal fi fy Nuw, &c.

3 'R annuwiol fyd pe cai fy ngweled ar y llawr,
Gwn gorfoleddu wnai ef yn fy nhriftwch mawr:
Dal fi fy Nuw, &c.

4 Mae nghalon innau'n wan, ymron llewygu'n wir,
Wrth geifio d'od i'r lan o'r dyrus anial dir:
Dal fi fy Nuw, &c.

5 Pechodau o bob lliw, fydd am fy nodi lawr;
A myrddiwn o bob rhyw, o demtafiynau mawr:
Dal fi fy Nuw, &c.

6 Planhigyn wyf mewn gras, yngardd fy anwyl Dad,
N'ad i'm gelynion cas, i'm cael i dan eu tra'd:
Dal fi fy Nuw, &c.

7 O dwg fi yn y blaen, nes gorphen ar fy nhaith,
Mi feiniaf i ti gân yn nhragwyddoldeb maith:
Dal fi fy Nuw, &c.

## HYMN XXXIV.

*Ymeftyn at y Pethau o'r tu blaen*, Phil. iii. 13.

1 O Iesu byw, Iachawdwr byd,
Dwg fi 'n glau i'th fonwes g'ud,

Gael prawf o 'th gariad cu,
Sydd well nâ'r gwin i'm henaid gwan,
Am hyn rwy 'n daer, am gael d'od dan
Dy dirion aden di.

2 Dy gariad dwys yn f' enaid dod,
Ac yntho fyth gad i mi fod,
Yn nofio tu a'r ne':
Nes gado'n dêg yr anial dir,
A landio o fewn i *Salem* fur,
O'm gofid, och, a'm gwae.

3 Rhyfeddol rin arfaethol ras,
I'm Iesu mwyn fy nwyn i ma's
O'r dwfn bydew prudd:
Dros f' enaid bach dioddefodd bo'n,
Gan roddi iawn i'm hanwyl lon;
Ces innau fynd yn rhydd.

4 'Rwy 'nawr yn d'od o'r *aiphtiaidd* dir,
Trwy fôr o waed fy Iesu'n wir,
Tu a'r etifeddiaeth wiw;
Trafaelu wnes, trafaelu wnaf,
Nes im' gael nyth ynghôl fy Naf,
Tragwyddol i mi fyw.

5 O wynfydedig ddedwydd awr,
Ddisglairwen wir o hyfryd wawr,
Caf esgyn uwch y nen;
Gorphwysfa lân, tragwyddol wledd
Gaf fi fwynhau, mewn dinas hedd;
Boed hyn ar frys, *A M E N.*

---

## HYMN XXXV.

*Credu yn erbyn Gobaith,* Rhuf. iv. 18.

1 ANturiaf etto 'mlaen, tu a'r baradwysaidd wlad;
Pam digalonnai'n lân, mae'n eiriol drosfwyf wa'd;
Adnewyddaf nerth, trwy rinwedd hwn,
Gorchfygaf gwn, elynion gad.

2 Er ymladd lawer gwaith â llu o elynion llym,
Hen *Satan* gyfrwys faith, yn eitha ei rwyfg a'i rym;
Difgwyliaf nerth o *Seion* draw,
I maes o law daw cymmorth im'.

3 Er i mi dreio'n hir, orchfygu pechod câs,
Mi fyddaf marw'n wir, yn lân cyn colli'r ma's;
Mewn nefol fyd mae brodyr im',
A brofodd rym y gelyn cas.

4 Er ofni o'm henaid tlawd ryfela ag angau dewr;
Ond yma'n wylo ca'w'd yr *Hezecia* fawr:
Caf finnau ras, i fentro trwy,
Orchfygol glwy' yr angau glâs.

5 Er i mi ammau'n lân, hael gariad Iesu cu,
Bu *Tomas* o fy mlaen yn'r un rhyw bydew du;
Rho'm llaw yn ol yr hoelion dur,
Bellach yn wir, mi greda'n hŷ'.

---

## HYMN XXXVI.

### *Hiraeth am Burdeb.*

1 GWEDDIO 'r wyf, ochneidio'n brudd,
Rhyfela'n dêg am gael y dydd;
Lleng fydd o fewn, llu fydd o faes,
O 'ffernol griw, am faeddu'm gras.

2 Pa brŷd ca'i deimlo cariad rhâd,
I m henaid gwan, a rhin y gwa'd;
I'm gwneud yn gryf, yn erbyn grym,
Ac eitha' llid gelynion llym.

3 Brŷd ca'i 'm glanhau o'm pen i'm traed,
Mewn grifial fôr o werthfawr waed;
Iachau fy mriwiau (dyfnion ŷnt)
A gefais ym mharadwys gynt.

4 Brŷd ca'i ddinyftrio'r delwau'n llawn,
S' am lechu danai 'n ddirgel iawn;
Llabyddio *Agag* yn ddibarch,
A *Dagon* gwympo o flaen yr arch.

5 Rho

5 Rho win ac olew yn fy mriw,
Gwisg fi yn dêg â delw Duw;
Par'to fi fyn'd i blith y llu,
Sy'n ddisglair yn y nefoedd frŷ.

## HYMN XXXVII.

*Erfyniadau ac Achwynion Enaid crediniol.*

1 O EN Duw; tragwyddol Fab y Tad,
'R hwn dd'oft o'r nef i golli'th wa'd,
Dros bechaduriaid gwael eu rhyw,
Oedd wedi mynd dan felldith Duw.

2 Wyt yn tosturio wrth bob rhai,
Sy'n d'od yn flin dan deimlo eu bai,
Dan bwys f' aneirif feiau mawr,
'Rwy'n llefain Dduw, tosturia 'nawr.

3 Cymhwysiad llawn o'th waed trwy ffŷdd,
A wnaiff fy enaid caeth yn rhŷdd;
A golwg ar dy glwyfau mawr,
A dor fy mhechod oll i lawr.

4 Mae 'nghalon gâs i'n llawn o bla,
Ac ynthi'n aros 'does dim da;
Ond rhin dy waed, O anwyl Oen,
All fy nglanhau, a llaesu mhoen.

5 Mewn rhyfel blin 'rwyf nos a dydd,
A'm henaid fwrth mewn dalfa fydd;
Dan law 'ngelynion lawer pryd,
Heb ganfod help o du'n y byd.

6 O anwyl Iesu, brysia bŷdd,
Yn awr fel iwrch, neu lwdn hŷdd;
O tyr'd ar frŷs, a chlyda lawr,
Fy holl elynion fach a mawr.

HYMN

## HYMN XXXVIII.

*Hanes am Ddaioni* Duw *i'r Credadyn.*

1 BENDIGAID fyth fo enw Duw,
'R hwn wnaeth fy enaid marw'n fyw;
Ac a'm cyfododd fel o'r bedd.
I gael mwynhau ei ras a'i hedd.

2 Pan 'r o'wn yn gorwedd yn fy ngwa'd,
Edrychodd Duw o'r nef yn rhad;
A d'wedodd, Yn dy waed bydd fyw,
Rhof iddo glôd, fy nyled yw.

3 Pan 'r oedd euogrwydd heb ddim hedd,
Ymron a'm gwafgu'n is nâ'r bedd;
A'm holl bechodau 'n codi'n llu,
Datguddiodd Duw ei Fab i mi.

4 Pan o'wn yn nyffryn *Achor* brudd,
Mewn 'ftorom fawr heb oleu'r dydd;
Na dim cyfuron o un man,
Ces brofi'n rhôdd fod Duw o'm rhan.

5 Pan o'wn ar ben *Gilboa* fry,
Yn ymladd â'r uffernol lu,
Mewn gofid mawr a chur a braw,
Cynhaliodd Duw fi â'i nerthol law.

6 Pan 'r o'wn i mewn llifeiriant mawr,
'Mron foddi'n lân bob munud awr,
Heb wel'd cynnorthwy o un man,
Rhoes Duw ei law i'm codi i'r lan.

## HYMN XXXIX.

*Yr Ail* R A N.

1 'RWI 'nawr yn teimlo'r heddwch drud,
Er gwaetha'r cnawd, y ddraig a'r bŷd;
'Rwi'n mynych brofi o'r hyfryd wledd,
Sŷ gan y faint tu draw i'r bedd.

2 'Rwi

2 'Rwi'n profi mod i'n myn'd mewn hwyl,
Tu a'r man mae'r saint yn cadw gwyl;
Mae ar fy enaid syched mawr,
Am wledda gyd â hwy bob awr.

3 'Rwi'n credu 'nawr ca'i ras i fyw,
A gwneud pob peth er clod i'm Duw;
A chwedi gorphen hyn o daith,
Ca'i foli e'n nhragwyddoldeb maith.

4 Dewch greaduriaid o bob rhyw,
Trwy'r ddae'r a'r nef rhowch glod i'm Duw;
Gan's mewn cyfyngder bu im' yn dda,
Rhof iddo glod heb orphwys, gwna.

## HYMN XL.

*Dymuniad y Saint.*

1 PE cawn adenydd borau wawr,
Ehedeg wnawn dros foroedd mawr
Nes bawn yngolwg *Sion* wiw,
Lle mae fy Mhriod innau'n byw.

2 Pe cawn ond teimlo'r awel gref,
Aeth ag *Elias* gynt i'r nef;
Gadewn yn ol fy ngwisg o gnawd,
Ac *Eliseus* f'anwyla frawd.

3 Pe cawn fel *Iago* ysgol gref,
Gyrhaeddai o'r ddae'r i entrych nef
Dringo a wnawn o'r byd i ma's,
Heb orphwys liw ar garreg lâs.

4 Gwynfyd gai rodio gyd â Duw,
Fel *Enoch* ffyddlon, tra fw'i byw;
Ehedeg wnawn o'r byd i ma's,
Heb ofni briw yr angau glâs.

5 Yn *Peniel* 'rwyt, fy enaid clyw,
Ymdrecha yn dêg ag angel Duw,
Pwy ŵyr nas caf cyn codi'r wawr,
Wir etifeddu'r fendith fawr.

## HYMN XLI.

*Hiraeth am y Nefoedd.*

1 DRAW 'r wlad,
O'r lle 'rwi'n difgwyl llwyr ryddhad,
O law'm gelynion mawr eu brad;
Trwy rinwedd gwaed fy IESU gwiw:
'Does gelyn mwy a ddaw i'r lan,
I'r hyfryd fan ar fyr cai fyw.

2 Y llen,
Sydd rhyngwi 'nawr â'r nefoedd wen,
A rwyga NUW o'r ddae'r i'r nen,
I'r wlad uwch ben fe'm harwain ef,
Caf ddringo i'm gorphwysfa fraf,
Sy 'm monwes Naf o fewn i'r nef.

3 A byw,
Gai'n dawel fry heb boen na briw,
A'm cynnes nyth ynghoel fy NUW,
Lle mae pob rhyw ddiddanwch llawn;
Yn rhydd i'r llwch mi ro'wn fy nghnawd,
Fyn'd at fy Mrawd, yn awr pe cawn.

4 Mor fawr,
Yw'r fyched f' ar fy enaid 'nawr,
Am wel'd dy wedd o hyfryd wawr,
Boreuddyd tragwyddoldeb pur;
'Madewn yn rhydd â châr a ffrynd,
I mi gael mynd i'r nefol dir.

## HYHN XLII.

1 COR. i. 30.

*Sanctëiddrwydd im' yw'r Oen dinam,*
*'Nghyfiawnder, a'm Doethineb,*
*Fy Mhrynedigaeth o bob pla,*
*Fy* NUW *i Dragwyddoldeb.*

CRIST, *Doethineb y Saint.*

1 FE 'm gwnaeth i weld fy hun yn ddall,
Yn fab i'r fall wenwynig;

Ac wedi rhoddi f' hun o'm bodd
I gyflwr oedd ddamnedig.

2 Fe'm gwnaeth i 'nabod IESU GRIST,
Yn Ffrynd i drist eneidiau ;
Ac iddo roddi ei waed yn llif,
Tros fy aneirif feiau.

3 Ces weld mai fe yw 'm Brenhin bra',
Fy Mhrophwyd, a'm Hoffeiriad ;
Fy Nerth, a Nhryfor mawr a Nhwr,
F' Eiriolwr a fy Ngheidwad.

4 Fy Nghyfaill byth a'm ffyddlon Frawd,
Mae f' enaid tlawd yn garu ;
Sy 'nghofia i 'nawr o ganol ne',
Y man mae e'n teyrnafu.

5 Dyfgodd fi deithio 'r llwybr bra',
Sy'n mynd tu a thragwyddoldeb ;
Tros fryniau mawr ac anial dir,
Ond dyna wir ddoethineb.

6 Fel niwl a thân, bob nos a dydd,
Fy arwain bydd ei hunan ;
Trwy 'r 'nialwch mawr dwg fi'n ei gôl,
Mewn i'r ddymunol *Canaan*.

7 Fe'm dyfg, fe 'm cyfarwydda trwy
Bob rhwyftrau wy'n gyfarfod ;
Rhag cyfeiliorni yma a thraw,
'Chai fynd o law fy Mhriod.

8 Fe'm gwna mor ddoeth nes dryfu'r fall
Yn ei chyfrwyfaf ddichell ;
Dadrys ei rhwydau o bob rhyw,
Can's IESU yw fy Nghyfaill.

9 Enneinia fi etto i weld yn glir,
Rho im' fôr o wir ddoethineb ;
Im' gywir deithio'r llwybr bra',
Sy'n mynd i dragwyddoldeb.

HYMN

## HYMN XLIII.

### CRIST *yn Gyfiawnder.*

1 EUogrwydd pechod oedd yn bwn,
A mi dan hwn yn trengu;
Duw a'm rhyddh'odd, pwy'm damnia mwy ?
I'r IESU 'rwi yn credu.

2 Pur waed ei galon ddaeth yn llif,
Tros fy aneirif feiau ;
I'm cannu'n wyn fel lliain main,
Oddi wrth bob ftain a brychau.

3 Fe ddofodd llid cyfiawnder llym,
'Does gantho ddim i'w wneuthur;
Mae'r gwaed yn gwaeddi hedd yn daer,
Trwy'r nef a'r ddae'r yn eglur.

4 Ni all *Satan*, deddf, na gweddill bai,
I ddamnio rhai crediniol ;
Mae gwaed yr Oen ag uchel lef,
O fewn i'r nef yn eiriol.

5 Mi wna'm gorphwysfa dawel byth,
IESU'n dy ddilyth glwyfau ;
Bellach fy ngobaith fydd a'm ple,
'Th fod yn fy lle'n diodde'.

## HYMN XLIV.

### CRIST *yn Sanćteiddrwydd.*

1 PA ham y digalonnai mwy,
Caiff pechod glwy yn ebrwydd ;
Er maint ei lid, er dued lliw,
Fy IESU yw'm Sanćteiddrwydd.

2 Bedyddia ef fi â'r Yfpryd Glân,
Fel tân pwerus nerthol;
Caiff yfpryd barn a llofgfan fod,
Ar bechod yn waftadol.

3 Caf gantho ddw'r (fy enaid cred)
Dyrr ſyched yn dragwyddol ;
O hono i i'r lan daw ffrwd ddidrai,
I'm dwfrhau'n waſtadol.

4 Nes i fy mhechod gael ei ladd,
O radd i radd, nes gorphen
Fy llygredigaeth o bob rhyw,
Can's Iesu yw fy Nghadpen.

5 Fe duedda meddwl i bob cam,
I frefu am fath burdeb,
Ac a feddianna'r ſeintiau bra',
Sydd draw yn nhragwyddoldeb.

6 Teyrnafa O Dduw, a bwrw i ma's,
D' elynion câs gwrthwyneb ;
Ar f' enaid llefg rho 'th ddelw 'n llawn,
Nes d'od i gyflawn burdeb.

---

## HYHN XLV.

### Crist *yn Brynedigaeth.*

1 O Iesu fy Ngwaredwr llawn,
Fy iawn a'm prynedigaeth ;
Trwy'th angau di, ſy ngwared câ',
O uffern a marwolaeth.

2 Fe'm dwg i maes o'm gwae a'm gwŷn,
Fy llafur blin a'm lludded ;
I'r tawel fan, i'w cwmp'ni hwy,
S' heb newyn mwy na ſyched.

3 Ar ochr f' enaid tlawd fe fydd,
Ar forau dydd marwolaeth ;
Yn wyneb angau caf wneud ple,
Gan waeddi, Iechydwriaeth.

4 O fewn i'r wlad tu draw i'r bedd,
Caf weled gwedd ei wyneb ;
Ac yn ei fynwes llechu ca'
Hyd eitha tragwyddoldeb.

5 Fe gasglâ'm llwch o'r bedd i'r lan,
Yn gyfan ac yn gryno;
Caf gorph fel fy Anwylyd gwiw,
O hyfryd liw'n disgleirio.

---

## HYMN XLVI.

Salm cvii. 1. *Clodforwch yr Arglwydd; canys da yw: o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd.*

1 CLodforwch bawb ein HARGLWYDD DDUW,
Doed dynolryw i'w ganmol;
Ei hedd fel afon fawr ddidrai,
Gaiff ddwfrhau ei bobol.

2 Uwch nefol len mae tanllyd lu
Yn ei foli 'n dragywydd;
Nef, daear, dw'r, pob creadur byw,
All ddweud mai da yw'r ARGLWYDD.

3 Ei air a'i ammod cadw wna,
Byth y parha ei ffyddlondeb;
Nes dwyn ei braidd o'u poen a'u pla,
I hyfryd dragwyddoldeb.

4 Ni altra ddim er gweled bai,
O fewn i'w rai anwyla;
Byth cofia waed Tywysog nen,
A'i boen ar ben *Calfaria*.

5 Pan ballo ffafr pawb a'u hedd,
Duw o'i drugaredd odiaeth,
Yn Dad, yn Frawd, yn Ffrynd a fydd,
Ar gyfyng ddydd marwolaeth.

---

## HYMN XLVII. *Yr Ail RAN.*

Adn. 2. *Felly dyweded Gwaredigion yr Arglwydd.*

1 Y Gwaredigion gas ryddhau,
O'u carchar a'u cadwynau;

Dadseinient gân trwy'r nef a'r llawr,
Am ei fawr ryfeddodau.

2 Rhai fel yn feirw fu yn hir,
Mewn tywyll dir yn trigo;
Yn griddfan dro heb lewyrch gras,
I dd'od i maes oddi yno.

3 Mewn pydew dwfn du hwy gaed,
Yn rhwym eu traed a'u dwylo;
Dan bwer Satan fore a hwyr,
Nes cael eu llwyr anrheithio.

4 Fel cadarn wedi yfed gwin,
Yngwasg ei glyn â'i gleddau;
Daeth tirion Frenhin nef o'i blâs,
I rwygo teyrnas angau.

5 Trôdd IESU maes yr arfog cry',
O'r neuadd bu'n llettya;
Y carcharorion ddaeth o'u pla,
O canent *Aleluia.*

---

## HYMN XLVIII. *Y Drydedd RAN.*

Adn. 3, 4. *Ac a gasglodd efe o'r tiroedd*, &c.

1 Y Rhai a gasglodd Duw ynghyd,
O eitha'r byd a'i gyrrau;
O dir y dwyrain mewn mawr hedd,
Gorllewin, gogledd, dehau.

2 Rhai o bob man, rhai o bob iaith,
Cenhedloedd maith ac achau;
Yn ddoeth, yn ffol, fe dygodd Duw,
'Nghyd o bob rhyw gyflyrau.

3 Trwy yr anialwch wyr-draws hynt,
Y buont gynt yn c'rwydro;
Allan o'r ffordd, heb dref na llan,
Lle caent hwy fan i drigo.

4 Digysur iawn flynyddau hir,
Mewn cras dir anghynefin;

Bob

Bob pryd mewn ofn mawr a braw,
Rhag cwympo 'n llaw eu gelyn.

5 Yn 'mofyn am yr hyfryd wlad,
Tir *Gilead*, yr hen *Eden*;
A'u tyb o hyd eu bod gerllaw,
Yr ochr draw 'r *Iorddonen*.

6 Mewn ofn mawr dan *Sinai* lym,
Demheſtlog heb ddim heddwch;
Tarth, tân a mwg, echrydus blaw,
Sain udgorn a thywyllwch.

---

HYMN XLIX. *Y Bedwaredd RAN.*

Adn. 5, 6, 7. *Yn newynog ac yn ſychedig*, &c.

MEWN newyn mawr, a ſyched tyn,
A'u henaid yn llewygu;
Oll i anobaith ymron mynd,
Heb ganddynt ffrynd i'w helpu.

2 Yn yfed dyfroedd llwyd o'r llyn,
Yng ngwreſog ddyffryn *Baca*;
Yn gorfod yfed, nid o'u bodd,
O chwerwon ddyfroedd *Mara*.

3 Gwaeddaſant ar yr ARGLWYDD nef,
Yn eu cyfyngder enbyd;
Am gael eu dwyn cyn dyddiau hir,
I mewn i dir 'r addewid.

4 Yna eu gwared hwynt a wnaeth,
O'u holl orthrymgaeth foddion;
'Rhyd yr iawn ffordd fe'u dug mewn hedd,
I dref gyfannedd dirion.

5 Goſtegodd d'ranau *Sinai* draw,
Yr yſpryd braw a'r ofnau,
Daeth â hwy i *Seion* dêg i fyw,
At Iesu gwiw a'i glwyfau.

6 *Iorddonen* wyllt fe drôdd yn ol,
Gwnai gro fel doldir *Canaan* ;
Nes daeth pob gwan, a llefg, a llaith,
Trwy'r dyfroedd maith ei hunan.

7 Eu poen a'u gwae yn felus trôdd,
Oedd megis dyfroedd *Mara* ;
'Nawr bwytta maent fore a phrydnhawn,
O fyppiau'r grawn a'r manna.

## HYMN L.

*Dat.* xxi. 11, 16, 19, 20, 22, 23, &c.

1 C'OD f' enaid gwan, yn fuan gwêl,
Y wlad fy'n llifo o laeth a mêl ;
Gorphwysfa y rhai a ddaeth trwy ras,
O gyftudd mawr y byd i maes.

2 *Caerfalem* newydd dinas Ner,
Bar'towyd i'r Saint uwchlaw y fer;
Adeiliad pur o aur digoll,
Fel gwydr gloyw'n ddifglair oll.

3 Ei theg rodfeydd a'i phlafau fry,
A'i thyrau found yn hyfryd fy ;
Pob rhan o honi cyflawn yw
O fanctaidd brefennoldeb Duw.

4 Ei huchel furiau wnawd i gyd
O feini Jafpis hardd a drud :
A deuddeg fylfaen iddi cawn,
A rhai'n o gerrig gwerthfawr iawn.

5 Ei phyrth o berl, O ryfedd waith !
Aur yn palmento'i heolydd maith ;
Ei llawr hi gwydr gloyw yw,
Yn ddifglair lân o hyfryd liw.

6 'Does ynddi deml o un rhyw,
Can's Duw a'r Oen ei theml yw ;
Yma y faint yn eglur fydd,
Yn gweld ei wyneb nos a dydd,

7 Haul, lloer a ſer yma ni's cawn,
Gogoniant Duw ſydd ynthi'n llawn;
Yr Oen fu ei waed yn lli i'r llawr,
Sydd yn diſgleirio'r ddinas fawr.

8 Y gwaredigion oll o'u bron,
Sy'n rhodio yngoleuni hon;
Tywyſogion a brenhinoedd byd,
Ddwg eu hanrhydedd iddi gyd.

9 Ei phyrth ni cheuir ddim y dydd,
Can's tywyll nos yno ni bydd;
Dygir iddi mewn o hyd,
Ogoniant holl genhedloedd byd.

---

## HYMN LI. *Yr Ail Ran.*

1 YNO y mae ſy Mrenhin mawr,
Yn edrych rhwng y ſer i lawr;
Yn awr yn gweld ſy enaid gwan,
Yn teithio o'r anial ſyd i'r lan.

2 Mi wela draw ſy anwyl Dad,
Y nef ſy'n flammio tan ei draed;
Ar orſedd wen ofnadwy'n wir,
Ynghanol y goleuni pur.

3 Mae myrdd o angylion yn ei wydd,
Ag enaid rhŷdd yn moli'n rhwydd;
Seraphiaid a Cherubiaid lu,
Sy'n ſeinio'n fra'n y nefoedd fry.

4 Mewn gwiſg i'w draed a gwregys aur,
Fy Mhrynwr cadarn yno cair:
Ger bron ei Dad yn coſio am loes,
Y goron ddrain ac angau'r groes.

5 Teyrnaſu mae ſy Rhoſyn per,
Ymhlith y ſaint uwchlaw y ſer;
Mewn cariad, hedd a gras didrai,
Yn eiriol tros ei anwyl rai.

## HYMN LII. *Y Drydedd Ran.*

1 O Flaen y faingc mil miloedd mae,
Pwrcas ei waed, ei chwys a'i wae;
Y dyrfa fawr fu gynt ar goll,
Yn awr yn gorfoleddu oll.

2 Yno mae'r apoftolion mawr,
A'u gwifgoedd llaes hyd at y llawr;
Yn canu'n beraidd i Fab *Mair*,
Am dyrfa gredodd yn eu gair.

3 Myrddiynau o ferthyron hy',
A wnawd trwy dân yn ulw du;
Yfgubion byd ddioddefodd bo'n,
Tros air Duw ag efengyl Ion.

4 Babanod bychain yno fy,
Fu feirw'n ddiftaw yn y bru;
A rhai ddifethodd cleddau glâs,
Yn newydd dd'od o'r groth i maes.

5 O flaen y faingc mae tyrfa faith,
O bob rhyw bobloedd, llwyth a iaith;
Yn awr yn cael heb boen na briw
Wyneb yn wyneb weled Duw.

6 Pob un â'i goron ar ei ben,
Yn ddifglair yn y nefoedd wen,
Mewn gynau gwyn hardd iawn eu gwaith,
Bar'towyd er tragwyddoldeb maith.

7 Dyma werth gwaed yr Iesu gwiw,
Brenhinoedd ac offeiriaid Duw;
Blaen ffrwyth o'r dyrfa ddaw trwy ras,
O gyftudd mawr y byd i maes.

## HYMN LIII. *Y Bedwaredd Ran.*

1 WEL dyma hwy'r gadwedig hil,
A gadwodd ar y llwybr cul;

Trwy fôr o wae, trwy 'ftorm o wynt,
Y buónt hwy yn teithio gynt.

2 Hwynthwy gas heddwch gan y Tad,
Hwynthwy a gannwyd yn y gwaed;
Hwynthwy yw'r llu fy o dautu'r faingc,
Yn canu'r waredigol gaingc.

3 Eu dagrau oll a fychwyd ffwrdd,
Galar a thriftwch byth ni's cwrdd;
Ni ddaw marwolaeth mwy na phoen,
I ŵydd y croeshoeliedig Oen.

4 Priodferch Iesu yw y rhai'n,
A wifgwyd oll â lliain main;
Yn edrych ar ei wedd bob awr,
Ynghanol y gogoniant mawr.

5 Coronau ar eu pennau cair,
Ac yn eu dwylaw d'lynau aur;
Yn canu *Haleluia*'n hy',
Nes datfein' yr holl nefoedd fry.

---

## HYMN LIV.

### *Am Ddioddefaint* Crist.

1 FY enaid mae am ganu mawl,
Am roi im' hawl o'r nefoedd fry;
Trwy chwys a gwaed yr addfwyn Oen,
A'i ddirfawr boen ar *Galfari*.

2 Yno y bu afonydd mawr,
O waed i'r llawr yn d'od yn lli';
I'm dwyn i'r nef o'm 'ffernol nyth,
Mi gofia byth am *Galfari*.

3 Mi gofia ei gri ef ar y groes,
Yn eiriol tros ei ddefaid rhi;
Gan bledio â'i Dad am fadde'u bai;
Byth cofio wna'i am *Galfari*.

4 Gwirion

4 Gwirion a llonydd fel yr oen,
Dioddefai boen ein beiau ni,
Yn fodlon yn ei chwys a'i wae;
Byth cofio wnai am *Galfari.*

5 'Nol aros oriau ar y pren,
Fe grymmai ben tu a'r ddaear ddu;
Gorphennwyd iechydwriaeth do,
Boed hyn mewn co' am *Galfari.*

6 Yno bu farw f' anwyl Ffrynd,
I mi gael mynd i'r nefoedd fry;
Pan bwi ymhlith angylaidd rai,
Byth cofio wnai am *Galfari.*

7 Trywanwyd yno waywffon,
Mewn tan ei fron, er maint ei fri;
Daeth dw'r a gwaed i'r llawr yn llyn,
Byth cofiaf ben bryn *Calfari.*

---

## HYMN LV.

DWED a gaf fi weld disgleirdeb,
D'wyneb bra Iesu da draw yn nhragwyddo'deb?

2 D'wed i mi a gai deyrnasu,
Draw i'r bedd byth mewn hedd, gyd â'm hanwyl Iesu?

3 D'wed a ga'i y gwyrddlas balmwydd,
Coron wen, ar fy mhen, i'w gwisgo yn dragywydd?

4 Os cai byth i weld dy wyneb, [ddoldeb.
Disglair hardd, f' enaid chwardd, draw yn nhragwy-

5 Hiraeth sy ar fy nghalon dyner,
Weld y dydd fynd yn rhydd, maes o'm poen a'm blinder.

---

## HYMN LVI.

*Credu yn erbyn Gobaith.*

1 PA ham yr ofna 'm henaid cu,
I landio i'r hafan hyfryd fry?

On'd oes mil myrdd heb aeth na braw,
O frodyr yn fy ngroeso I draw.

2 Ac oni chaf fi fod ymhlith
Y ffryns a gâr fy nghalon byth?
Gwyryfon pur, cywir i'r Ion,
Cariadau'r croeshoeliedig Oen.

3 Os fi bechadur gaiff fynd fry,
Yn iach o'm briw i blith y llu,
Sy â'u gwisgoedd hardd fel eira gwyn,
Yn canu fry ar *Seion* fryn:

4 Fy llais a glywir uwch y llen,
Yn dadsein yr holl nefoedd wen;
Ymhlith y dorf bwrcasodd gwa'd,
Ag enaid rhydd, yn gwaeddi Rhad.

## HYMN LVII.

### *Rhydd-did.*

1 DY lwybrau di y'nt hyfryd iawn,
Dy ffyrdd y'nt lawn hyfrydwch;
Nag amlder ŷd, neu win fy Nuw,
Melusach yw dy heddwch.

2 I ni oedd gaeth rho'ist rydd-did bra',
Daeth *Jubil* gwaredigion;
Rhwygasom len trwy rinwedd gwaed,
Mae'n dwylo a'n traed yn rhyddion.

3 Mae'n traed yn awr ar wddf y ddraig,
Trwy Had y wraig sy'n eiriol;
Awn gan fod Iesu ar ein rhan,
I'r lan i'r lan yn wrol.

4 Ymlaen heb ffoi trwy gyflawn ffydd,
Tra fyddo'r dydd yn para;
Pob un ag sydd â'i ficr fail,
Yn baeddiant yr ail *Adda*.

## HYMN LVIII.

1 PEchadur wyf erioed, o halogedig ryw,
Gwrth'nebwr 'fyn â'i fod, yn erbyn gras fy Nuw:
Fy meiau mawr, O maddeu'n rhad,
Ar gyfri gwaed f' Anwylyd gwiw.

2 Mae rhwyftrau o fy mlaen i'r etifeddiaeth rad,
Mae dyfroedd mawr a thân oddi yma i dŷ fy Nhad;
O ARGLWYDD gwel fi'n llefg a gwan,
A dwg fi'r lan i'r hyfryd wlad.

3 Fe ŵyr f' Anwylyd cu fod llu o elynion im',
Y rhai'n yn gyfrwys fy, yn nerthol mawr eu grym;
Rho i mi ras i anturio'n hy',
Trwy ganol llu ngelynion llym.

4 Palmenta'r llwybr cul, fy'n mynd tu a thŷ fy Nhad,
Na's gallo'r ddraig a'i fgil, i fyflyd dim o'm traed;
O dwg fi 'mlaen tros fryniau pell,
I'r ddinas gwell bwrcafodd gwaed.

5 'Rwi'n gorwedd dan fy mhwn, fy nghalon fach fydd friw,
Fe'm llethir i gan hwn, O help f' Anwylyd gwiw;
O tyr'd yn glau, dwg fi i'r lan,
I'r hyfryd fan mae'r faint yn byw.

6 Pob llif a ffrwd a thon, pob gwawd ac erlyd llym,
A aethant tros fy mron, mi adwaen eitha eu grym;
Tros ronyn bach difgwyl a wna,
Mi wn daw gwaredigaeth im'.

## HYMN LIX.

CAN. ii. 10, 11, 12.

1 FFARWEL bleferau'r byd,
Ei freulyd fri a'i fraw,
Ni 'hedwn mwy fel adar mân,
I'n trigfan trigliwn draw:

Cawn

Cawn yno hyfryd hedd,
A rhyfedd roddion rhad,
O dewch, O dewch ni awn yn hŷ,
Tu a'r wledd sy'n nhŷ ein Tad.

2 Henffych gyfeillion da,
Fe ddarfu'r gaia' i gyd,
Yn awr mae llais y durtur lon,
Lân dirion yn y byd;
Fe ddaeth yr hyfryd haf,
Yn beraidd braf i'n bro,
Gogoniant fo i'r Iesu byw,
Fe carodd Duw ni, do.

3 Yn awr mae'r adar mân,
Ar dân yn moli Duw,
Yn awr mae'r haul a'r nefol hin,
Ar rai o'r werin wiw;
Fe ddaeth y *Jubili*,
Ond braf yw'n bri a'n braint,
Cawn fynd i dre' ar fyr o dro,
I seinio gyd â'r saint.

4 Ein brodyr sydd o'u bron,
Yn morio i *Seion* wiw,
Mewn hyfryd hwyl yn mynd tu a'r wlad
Lle mae ein Tad yn byw;
Cawn landio oll i'r lan,
I'r hafan hyfryd fry,
I blith y rhai sy'n gwaeddi'n rhad,
Am gariad Iesu cu.

---

## HYMN LX.

### Can. viii. 5, 6, 7, 13, 14.

1 O Pwy yw hon sy'n llesg a gwan,
O'r anial fyd yn dod i'r lan;
Gan faint ei bai blinedig yw,
Yn pwyso ar ei Hanwylyd gwiw.

2 Hon yw priodferch Crist ein Duw,
Gwerth gwaed ei galon dyner yw;
Mae'n pledio ag ef braf yw ei braint,
A'i phle sy 'r un a phawb o'r saint.

3 " 'Sgrifenna'm henw'n ddisglair iawn,
" Ar dy ddwyfron mewn geiriau llawn ;
" Er mwyn fy nghadw'n lân rhag braw,
" 'Sgrifenna fe eilwaith ar dy law.

4 " Sel fi ar dy fraich yn nôd dilyth,
" Fy mod yn briod itti byth :
" Gwisg fi yno'n arwydd iddynt hwy,
" Na's gelli fy anghofio i mwy.

5 " Cryfach nag angau, trech nâ'r bedd,
" Yw nerth dy gariad a dy hedd ;
" Digofaint Duw fel afon gref,
" A ffaelodd a'i ddiffoddi ef.

6 " Er cyttuno o'r ddae'r ac uffern ddu,
" A'r holl ellyllon ynthi sy ;
" Och ofer iawn eu gwaith yn wir,
" I geisio diffodd tân mor bur.

7 " Ond ofni 'rwyf i'm calon fynd,
" Ryw bryd ar ffo oddiwrth fy Ffrynd ;
" Am hynny gwisg fy enw yn llon,
" Fel *seinet* ddisglair ar dy fron.

8 " Nes dugost fi i'm tragwyddol nyth,
" Lle nad oes neb yn ammau byth ;
" Gad im' swynhau dy nefol hedd,
" A'm llonni mewn gwastadol wledd,

9 " O tyrd f' Anwylyd, brysia bydd,
" Yn awr fel iwrch neu lwdn hydd ;
" Nag oeda, ond tyred maes o law,
" Tros fynydd y perlysiau draw."

HYMN

## HYMN LXI.

*Gwaed* CRIST *Sylfaen Gobaith.*

1 'NAWR ſicr ſail i ngobaith ſy,
'Ngwaed calon ſy Anwylyd cu;
Bythol gyfiawnder IESU yw,
Attaliodd do, ddigofaint DUW.

2 Fel griſial fôr y gwaed ſydd im',
Fe gannodd f' enaid bach yn wyn;
Ond hwn yw'r aberth hwn yw'r iawn,
Ro i mi waredigaeth lawn.

3 Gwaed CRIST faddeuodd i mi'n rhad,
Gwaed ſy heddychodd i a'r Tad;
Gwaed ſeliodd y cyfammod hedd,
Gwaed faeddodd bechod, angau a'r bedd.

4 Ar waed yr Oen yr wyf yn byw,
Trwy nerth y gwaed 'rwy'n caru DUW;
Trwy'r gwaed rwi'n congcro uffern lu,
Trwy 'r gwaed mi ddringa i'r nefoedd fry.

## HYMN LXII.

1 O IESU hŷ y Meddyg hael,
Sy'n ffyddlon Ffrynd troſeddwyr gwael;
F' Anwylyd innau yw:
Angerddol dân dy gariad di,
Gorchfygu wnaeth ſy enaid i,
Mi'th gara' tra ſwy byw.

2 P'odd pallai ganmol IESU gwiw,
I'm dwyn o'r dom mewn hedd a'm DUW;
Rhyfeddol oedd ei ras:
Pan bo yn rhoi'm o'i gariad rhad,
Blaen-ffrwyth ei wae, ei chwys a'i waed,
Mae'n well nâ'r gwin ei flas.

3 Dy olwg wiw, a'th wridog wedd,
Dy Berson hardd, dy nefol hedd,
Orchfygodd f' enaid gwan:
Mwy nerth yn glir nag angau glâs,
Yw hyfryd rin dy nefol ras,
Fe'm dwg o'r byd i'r lan.

4 O'r diwedd des i windy Duw,
Trwy rinwedd gwaed fy Iesu gwiw,
I dawel hyfryd wlad:
Mae yno i'w gael bottelau gwin,
Afalau rai o nefol rin,
I'r cleifion gael iachad.

---

## HYMN LXIII.

1 O Mugail gwych, fy Iesu gwiw,
Hoff yw dy lais, hardd yw liw;
Rhagori 'r wyt f' Anwylyd cu,
Ar ddengmil o'r angylion fry.

2 Ie gwyn a gwridog hawddgar oll,
Cyfaill y rhai fu gynt ar goll;
O melus odiaeth yw dy fin,
A'th gusan fel llyseuog win.

3 Pan byddwi 'n teimlo bod dy waed,
'Yn maddeu meiau mawr yn rhad;
Fy nghalon fach enynna'n wir,
Yn ddisglair fflam o gariad pur.

4 Pan gallwi ddweud, Ti yw fy rhan,
Pan teimlwi'th hedd yn f' enaid gwan;
Pryd hyn rwi'n dringad uwch y byd,
Yn damsiad ei bleserau gyd.

5 O Arglwydd hyfryd yw dy hedd,
Melus ddanteithion sy'n dy wledd;
'R angylion fry erioed ni châs,
Un prawf o waredigol ras.

6 Pan (Iesu da) bo'th gariad di,
I'm henaid llon yn d'od yn lli;
Mi allwn aros yno'n rhydd,
Ryw faith ac anherfynol ddydd.

7 Y nos â heibio cyn bo hir,
Caf landio i wlad goleuni pur;
Ca' fynd ar nawf, caf wneud fy nyth,
Ym mreichiau'r hwn a garaf byth.

8 Yno yn lli mae gwynfyd llawn,
Cyfuron cu bob moment cawn;
A gweld ein hanwyl Briod hardd,
Yn rhodio'r baradwyfaidd ardd.

9 Cawn yfed byth o'r *afon bur*,
A bwytta o *bren y bywyd gwir*:
Heb friw na phoen cawn fod ymhlith,
*Seraphiaid DUW* yn moli byth.

---

## HYMN LXIV.

1 Y Mae, y dydd yn d'od i'r duwiol rai,
I felus foli Duw yn ddidrai,
Ym mhlith y rhai fydd fry mewn hedd;
I'r addfwyn Oen yn canu'n rhwydd,
Ac yn ei wydd gael gweld ei wedd.

2 Ond braf, yw meddwl am fath hyfryd hâf,
Ei weld a'i brofi gwn y caf;
Ymlaen yr âf trwy nerth fy Nuw,
Nes mynd i mewn i'r *Ganaan* fry,
I fyfg y llu fy'n hardd eu lliw.

3 O pwy lawenydd fy imi yma'n b[illegible]y,
'Rwi'n blino ar y byd lle 'rwy';
Mae hiraeth trwy fy enaid cu,
Am gael fy nwyn i maes o'r cnawd,
I gôl fy Mrawd a'm Priod fry.

4 Efe a'm carodd cyn bod dae'r na ne',
Aeth dan law'r lleiddiaid yn fy lle;
A thyma'r ple fydd gyd â mi,
I gleimio hawl i'r nefoedd lân;
Af trwyddo mlaen i'r *Ganaan* fry.

---

HYMN LXV. 1 *Cor.* iii. 21, 22, 23.

1 MAWR dryfor fydd yn eiddo'r faint,
Mewn ardal fra' daeth iddynt fraint;
Gwlad uwch y fer, gwlad fownd ei fail,
Mae'n tywynnu ar hon gyfiawnder haul.

2 'Tifeddion y'ch trwy'r IESU gwiw,
O'r cyfan ac a greodd DUW;
Mae genych hawl o'r pethau fy,
O uffern drift i'r nefoedd fry.

3 Fe'i rhwymwyd ich' mewn ammod drud,
Rhwng DUW a'i Fab cyn creu'r byd;
Hwy feliwyd ich' o oes i oes,
Trwy waed yr IESU ar y groes.

4 Eich hyfryd fraint 'nawr rhyfedd yw,
Cyd etifeddion â Mab DUW;
*Paul*, *'Polos*, *Cephas*, *bywyd*, *byd*,
Ac *angau glâs* rowd i chwi gyd.

5 JEHOFAH Ner ydyw eich Tad,
Yr Yfpryd yw'ch Sancteiddydd rhad,
CRIST yw eich Brawd, a'ch ffyddlon Ffrynd,
Eich Priod fyth, cewch atto fynd.

6 Myrdd o angylion difglair fy,
O ddautu'ch ffordd i'r nefoedd fry;
Er maint cyfrwyfdra'r ddraig a'i hil,
Chwi gedwir ar y llwybr cul.

7 Chwi gewch eich dwyn o ras i ras,
Nes mynd yn lân o'r byd i maes;
Ar fyr cewch fynd ' feddiannu'r fraint,
'Tifeddiaeth fawr y ffyddlon faint.

## HYMN LXVI.

*Can.* iii. 6. *a* vi. 10. *a* iii. 13. *Esa.* iv. 5.

1 O Pwy yw hon sy'n d'od yn hy',
Yn lew i'r lan sel rhwng dau lu,
O'r dywyll *aiphtiaidd* wlad ?
Gan roddi pwys ei henaid pur,
Ar Iesu gwiw'r Messia gwir,
Ei Ffrynd a'i Phrynwr rhad.

2 Fel colofnau mwg ei henaid mae,
Mewn nesol hwyl yn llawenhau;
'Nawr yn meddiannu'n wir,
Ras o bob rhyw, cysuron rhad,
Fel peraroglau pell a ga'd,
O hyfryd thus a myrr.

3 Dan *Pharao* hen mewn tywyllwch hir,
Yn poeni 'n dost mewn anial dir,
Yn y caethiwed draw;
Yn llesg ei hwyl yn wir bu hon,
Dan lawer ffrwd a llif a thon,
Mewn dychryn mawr a braw.

4 O'r dyfnder du i'r lan y daeth,
Tu a'r wlad sy'n llifo o sel a llaeth,
Yr etifeddiaeth fras:
Yn llawn o hedd mae 'nawr mewn hwyl,
A'i nesol gaingc yn cadw gwyl,
Am dd'od o'r *Aipht* i maes.

5 Hi deithiodd yr anialwch mawr,
Hi glydodd *Amalec* i lawr,
'Nghyd â brenhinoedd gwych ;
Ca's ddw'r o'r graig, ca's fanna gwiw,
Tan *Seinai* se'i cynhaliodd Duw,
Pan oedd yn sael ei drych.

6 Duw sy 'ddi'n blaid, hi gas o'i blaen,
Y cwmmwl niwl a'r golofn dân,
Enneiniad yr holl saint:

Hi wyr y ffordd i'r *Canaan* draw,
Ni chyfeiliorna hi ar un llaw,
Nes cael meddiannu 'r fraint.

7 Fel borau wawr fe welir hon;
Teg fel y lloer mae'i hwyneb llon;
Mewn cariad, gras a hedd:
Fel haul heb un brycheuyn du,
Yn ofnadwy fel banerog lu;
Ond hyfryd yw ei gwedd.

---

## HYMN LXVII.

*Preg.* iv. 2, 3. *Dat.* xiv. 13. *Job* iii. 13, &c.

*Ar Gladdedigaeth.*

1 WRTH edrych ar y cystudd mawr,
Sydd yma i'w gael bob munud awr;
Y gofid trist, y poen a'r traul,
Y llafur a'r llydded sydd dan haul.

2 Yna mi a ganmolais, do.
Y rhai sydd wedi marw er's tro;
'N fwy nâ'r rhai byw sy'n teithio nawr,
Ynghanol yr anialwch mawr.

3 Yno y cânt heb wae na gwŷn,
Ymhlith y meirw roddi hun;
A'u tŷ o glai mewn daear glyd,
Ymhell o swn daearol fyd.

4 'Mhlith tyrfa gymmysgedig faith,
O bob rhyw bobloedd, llwyth a iaith;
Sy mewn distawrwydd mawr a hedd,
O fewn 'stafelloedd oer y bedd.

5 Yno ni ddaw annuwiol ddyn,
I ddeffro neb o'i felus hun;
Yno y caiff lluddedig rai,
I orphwys byth o'u poen a'u gwae.

6 Y rhai a fu mewn carchar prudd,
Sydd yno oll yn awr yn rhydd ;
Y bach a'r mawr oll o'r un fryd,
Yn llonydd iawn yn llechu ynghyd.

7 'Does yno ryfel o un math,
Nag ofn briw un daullyd saeth ;
Ni ro un gelyn yno glwy ;
Fydd llais gorthrymwr yno mwy.

8 Gwagedd o wagedd sydd heb ball,
O eitha cwr y byd i'r llall ;
Plant *Adda*'n llu fel *Ephraim* aeth
I ymborthi ar wynt na ry ddim maeth.

9 Byr iawn yw'r plefer sydd dan haul,
Ar ol ei gael trwy boen a thraul ;
Fel mellten fe ddiflanna'n llawn,
Gwna, cyn cael gafael arno'n iawn.

---

## HYMN LXVIII.

### *Yr Ail RAN.*

1 BETH dâl im' roi fy serch a'm bryd,
Ar ddim a welai yn y byd ;
Da, daear, dw'r, pwy gysur yw,
Y dydd y del digofaint Duw ?

2 Pen byddwi'n mynd o'r byd i maes,
Yn siglo llaw ag angau glas ;
Pryd hyn pwy help fy enaid gwan,
I ddringo o'r anial fyd i'r lan.

3 O'r dywyll wlad pan bwi yn mynd,
Fy Iesu sydd fy ffyddlon Ffrynd ;
Pwy frawd, pwy chwaer, pwy gyfaill gwell
Ddaw'm hebrwng i'r ardaloedd pell.

4 Efe yw'm Brawd, efe yw'm Duw,
Efe yw'm Ffrynd, a'm Priod gwiw ;
Efe yw'm Hysgol i a'm Pen,
I ddringo i entrych nefoedd wen.

5 Fy Mrenhin a fy Mhrophwyd mawr,
Fy nysgu wna bob munud awr,
F' Eiriolwr, f' Archoffeiriad braf,
Mi cara i dragwyddoldeb, gwnaf.

6 Fy Mugail yw, fe'm ceidw'n glyd,
O fewn ei gôl, trw'i yn y byd;
Fe'm portha i â'i nefol ras,
Nes mynd yn lân o'r byd i maes.

---

## HYMN LXIX. *Achwyniad.*

GYnt gwelais lwybr rhydd, o'r ddae'r i entrych nen,
Ond 'nawr tymhestloedd sydd, yn rhuo uwch fy [mhen;
Cofia, O Dad, nad wyf ond llwch,
Maddeu o'r trwch fy meiau'n rhad.

2 Fy mhechod, gwae fi 'rioed, a'm llygredd o bob rhyw,
Sy'n peri'n llyn fy mod, heb brofi hedd fy Nuw;
Cofia, O Dad, &c.

3 Mi dreiais ddyddiau hir, gongcwero pechod cas,
Mae f' enaid bach yn glir yn ffaelu cario'r maes;
Cofia, O Dad, &c.

4 Meddyliais lawer pryd na ddoi fy mhechod mwy,
Yn eitha ei rwysg a'i lid i roddi i mi glwy;
Cofia, O Dad, &c.

5 Ar ol cael concwest dro, ar fawr elynion lu,
Yn union gyrch mi ddo, i ganol rhyfel du;
Cofia, O Dad, &c.

6 Mi addunedais, do, i wrth'nebu yn nerth dy ras,
Ac eilwaith lawer tro cofleidiais bechod cas;
Cofia, O Dad, &c.

---

## HYMN LXX.

CAN. V. 10. *Fy Anwylyd sydd wyn a gwridog*, &c.

1 MAE'm Prynwr mawr yn DDUW, yn ddyn,
Ac felly'n perthyn i mi;

Tywysog

Tywysog cadarn, Brenhin cry',
Yw'r Iesu fu'n fy mhrynu.

2 Mae'n wyn a gwridog yn ddilai,
Ar ddengmil mae'n rhagori;
Nid oedd neb deilwng ond efe,
Fod yn y ne'n teyrnasu.

3 Mae'n wridog fe ddioddefodd fry,
Ar *Galfari* farwolaeth;
Fe'n prynodd trwy ei waed dinam,
O ddygn ddamnedigaeth.

4 Mae'n wyn, ni chafwyd ynddo fai,
Un pechod neu amhurdeb;
Mae'n gymmwys iawn, fe bledia'n bra
Ym mhebyll tragwyddoldeb.

5 Pwy a gymmarir iddo ef,
O fewn i'r nef ddisglairwen?
'Does angel, sant, na seraph fry,
Gyffelyb i fy Nghadpen.

---

## HYMN LXXI. *Yr Ail Ran.*

1 PE chwilid fry ymhlith y ser,
Y byd, a'r dyfnder isod;
'Does neb y fu, na neb y sy,
Gyffelyb i fy Mhriod.

2 Mae ynddo ddwfn fôr didra,
O gariad a thosturi:
Mae'n barod iawn i faddeu bai,
Ei briod a'i ddiweddi.

3 Ni feddai ffrynd, na mam na thad,
A'r cyfryw gariad i mi:
Mewn culni, gofid, poen a gwae,
Yn waftad mae'n fy ngharu.

4 Fy Nghyfaill gorau yn y byd,
Yw fy Anwylyd Iesu;
Ffarwel, greaduriaid i chwi mwy,
'Fe'n unig wy'n ei garu.

5 Fe blediodd drofwyf ar y groes,
Pan oedd ei loes ef chwerwa';
Do! fe'm haddefodd i yn llyn,
Ar goppa bryn *Calfaria.*

6 O fewn i'r byd ni bu yn bod,
Neb im' erioed mor ffyddlon;
Gwirionedd yw, nid oes o'i fath,
O'r diwedd f' aeth a'm calon.

---

## HYHN LXXII.

*Ymadawiad â'r cwbl.*

1 FE ddarfu immi 'nawr i gyd,
A darfodedig bethau'r byd;
'Rhyn fydd i dd'od yn fuan ddaw,
Diddiwedd dragwyddoldeb draw.

2 O dragwyddoldeb ddedwydd ddydd,
Hyd 'noed ei fwn e'n hyfryd fydd;
Fy hapufrwydd mwy i bara fy,
Tra paro Duw 'n y nefoedd fry.

3 Mae ynwi ddymuniadau 'nawr,
Na leinw'r greadigaeth fawr;
Hwy'n gyflawn ni ddigonir byth,
Nes elwyf i'm tragwyddol nyth.

4 Caf yfed dw'r fel grifial clir,
O lygad ffynnon bywyd gwir;
Ca'm hadnewyddu yno'n wir,
A ffrydiau o lawenydd pur.

5 Caf glywed yno y tri yn un,
O galon gywir a chyttun,
Yn cyhoeddi immi heddwch llawn,
A chyfur anhraethadwy iawn.

## HYMN LXXIII.

1 DUW, cadw f' enaid bach o hyd,
Uwchlaw y byd a'i ddrygau ;
Gan lwyr ddibrifio ei boen a'i wae,
Ei drallod a'i gyftuddiau.

2 Fel na bwy'n gwrando ar ei dwrf,
Ei gynnwrf a'i ruade ;
Gan deithio'r llwybr cul bob cam,
A meddwl am fy ngartre'.

3 Heb gyfeiliorni ar un llaw,
Nes mynd tu draw'r *Iorddonen*,
At feintiau flinodd ar y byd,
Sy 'nawr i gyd yn llawen.

4 Yn gorphwys yn y *Ganaan* bur,
Prefwylfa'r gwir dduwiolion,
Tir yr addewid hyfryd draw,
Gwlad lle nas daw gelynion.

5 Gorphwysfa dawel, deg, ddiftwr,
Sydd yno i'r gwr lluddedig ;
Afonydd gloyw, pur, didrai,
I ddiodi rhai fychedig.

6 Ac yno mae fy Mrenhin mawr,
Yn daer yn awr yn eiriol ;
Gan bledio ei angau ddydd a nos,
Yn ffyddlon dros ei bobol.

## HYMN LXXIV.

1 GWynfyd y rhai dileaift eu bai,
Eu pechod a'u hanwiredd ;
Gan roi 'ddynt nerth, er cnawd a byd,
I bara hyd y diwedd.

2 Y rhai fy'n cadw'th hedd o hyd,
Er gwaetha'r byd a'i ddrygau ;
Gan wilio beunydd yn ddigoll
Ar gadw'th holl gyfreithiau.

3 A'u cydwybod fel lliain main,
Heb arni ſtain na brychau ;
Heb gyfeiliorni 'mlaen neu 'nol,
Ond dilyn ol dy gamrau.

4 Pwy ddrwg wna'r gelyn i'r rhai hyn,
Sy'n rhodio yn dy ddeddfau ?
Cyfeillach dawel, bur â'u Duw,
Gânt ym mhob rhyw gyflyrau.

5 Fel pwyſi myrr eu Hanwylyd tlos,
Sydd liw nos rhwng eu bronnau;
Nid yw eu Priod hwy'n cyffroi,
Na byth yn ffoi o'u breichiau.

6 Hwynthwy ſy'n eiſtedd tan ei wŷdd,
A'i ffrwythau ſydd yn felus ;
Ac ynddo ef yn llawenhau,
A'u henaid mae'n ddiddanus.

7 Ar dryſor fry yn waſtad mae
Eu calon a'u dymuniad ;
O fewn i'r gwindy, braf eu ffar,
'N ymborthi ar ei gariad.

---

## HYMN LXXV.

1 ESgynodd ein Iesu i ſynwes ein Ner,
Gwnaeth i ni le diſglair ymhell uwch y ſer ;
Dewch, dringwn o'r ddaear i'r nefoedd yn hy',
Gael coron dragwyddol, wych, freiniol ſydd fry.

2 Cawn driagl peraidd, cawn olew, cawn win,
Cawn ddail pren y bywyd, ſy'n hyfryd eu rhin,
'Roi wrth ein doluriau, 'n cyſtuddiau, a'n cur,
Nes gwneuthur rhai afiach yn holl iach yn wir.

3 Cawn wared o'n hadfyd, a'n gofid i gyd,
Pob terfyſg, a dwndwr, a chynwrf y byd ;
'Ddaw blinder, na thrallod, na phechod, na phoen,
Na gelyn, na gormes, i ſynwes yr Oen.

4 'Rym

4 'Rym yma mewn lludded, gan dwymed y dydd,
Ond ſyched a blino, byth yno ni bydd ;
Cawn yfed o'r afon, yn gyſon i gyd,
Sy'n tarddu dan orſedd y bywyd cyn byd.

5 Heb gaethder, na phrinder, nac eiſiau'n y byd,
Cawn dryſor pur, parod, diddarfod o hyd ;
Cawn fanna cuddiedig, draw'n ddiddig heb drai,
A 'falau o'r pren bywiol, rhinweddol bob rhai.

6 Cawn delyn i'w chanu, cawn balmwydd i gyd,
Coronau, perls diſglair, nid ſorod y byd ;
Cawn weld ein Hanwylyd, yn hyfryd mewn hedd,
A'n gynau hardd gwynion, yn ddiſglair ein gwedd.

7 'Mhlith ſaint a phrophwydi, a'r merthyron i gyd,
Seraphiaid, cerubiaid, angylion ynghyd ;
Sy'n dweud, *Haleluia*, *Hoſanna* mor hy',
A'u dyblu drachefn. Gwynfyd a fai fry !

---

## HYMN LXXVI.

1 AI Iesu mawr, Ffrynd dynol ryw,
Wy'n weled fry, â i gnawd yn friw,
A'i waed yn lliwio'r lle !
Fel gwr dibris yn rhwym ar bren,
A'r gwaed yn dorthau ar ei ben ?
Ie, f' enaid dyma fe.

2 Ai'm hanwyl Briod welai draw,
A hoelion llymion trwy bob llaw,
A'u pwyo'n drwm i dre' ;
A bar o ddur trwy 'i ddwyfron draed,
Ac yntau'n marw yn ei waed ? Ie, f' enaid, &c.

3 Ai fe fu'n maddeu idd i'w gâs,
A'i waed fel llif o'i glwyfau 'maes,
Nes agor drws y ne' ;
Rhoi 'ben tu a'r llawr gan boenau llym,
Yn wirion dêg heb yngan dim ? Ie, f' enaid, &c.

## HYMN LXXVII.

1 UN ynfyd wyf, heb fedru dim,
Tlawd, gwan, a llefg, llaith a dirym;
Yn llawn o ddygn dywyllwch du,
Ac anwybodus iawn o'r bru.

2 Y grâs, a'r hedd, a'r purdeb oll,
Row'd im' yn *Eden*, aeth ar goll;
Ni ffeindia i bellder, tra fwy byw,
Fy hen 'madawiad gynt a Duw.

3 Ym Mh'radwys llithrais innau'n llyn,
'Rwy'n profi'r effaith hyd yn hyn;
O'r nefoedd llithiwyd fi i'r llawr,
'Mherffeithrwydd collais mewn un awr.

4 'R cre'duriaid mân nid aeth mor bell,
Eu braint cadwafant lawer gwell;
Gyd yn eu lle 'n rhoi i'w ARGLWYDD glod,
O ddechrau'r byd heb bechu erioed.

5 Pa'm cyfyd hunan ynwy'n hwy?
P'odd maidda balchder i mi mwy?
Pa'm tybia i mod yn rhyw beth gwych?
Myfi'r pechadur faela ei ddrych.

6 Rhyfeddu 'rwyf, rhyfeddaf byth
Na buafwn 'nawr mewn 'ffernol nyth;
Rhyfeddaf fwy os f' enaid ddaw
Trwy'r d'ryfni, mewn i'r nefoedd draw.

7 Rhyfeddu wnaf im' ddyfod byth,
Trwy demtafiynau rif y gwlith,
A gweled myrdd mewn pydew du,
Gynt dybiais fod yn well nâ mi.

8 Rhyfeddai'r arfaeth fownd ddigryn,
Tragwyddol gyngor Tri yn Un,
A'm cadwodd ar y llwybr cul,
Ynghanol gwrthgiliadau fil.

HYMN

## HYMN LXXVIII.

*Chwant ymadael.*

1 PErerin wyf fydd ar fy nhaith,
Yn mynd tu a thragwyddoldeb maith;
Am hyn 'rwy'n edrych ar y byd,
Fel peth dieithr im' o hyd.

2 'Rwy'n teimlo ferch fy enaid gwan,
'Nawr wedi mynd o hono i'r lan;
Fe ddarfu i mi flino'n lân,
Ar y cre'duriaid fawr a mân.

3 Y man dymunwn i gael byw,
Yw'r drydedd nef, prefwylfa'm DUW;
Lle mae y feintiau gyd heb boen,
Mewn hwyl yn cadw gwyl i'r Oen.

4 Nid eifiau'r byd, a'i dryfor maith,
Nac ofn ei wae a'i ofid 'chwaith,
Ond am gael gweld f' Anwylyd cu,
'Rwy'n brefu am fynd i'r nefoedd fry.

5 Diafol a phechod hefyd fydd,
Yn curo arnai nos a dydd,
A gweled 'rwyf y dawel hedd
Sy'r faint yr ochor draw i'r bedd.

6 Fy ffryns anwyla yno fy,
Merthyron a phrophwydi lu,
Yn feinio'r nef yn gydgan iawn,
Am ddod i'w gwaredigaeth lawn.

## HYMN LXXIX.

CRIST *yn bob peth.*

1 DY glwyfau yw fy rhan,
Fy nhirion IESU da,
Y rhai'n yw nerth fy enaid gwan,
Y rhai'n a'm llwyr iacha;

Er ſaeled yw fy nrych,
Er tlotted wyf yn awr,
Fy llenwi caf â llawnder Duw,
A'm gweled fel y wawr.

2 Mi brofais Dduw yn dda,
Fy nhirion raſlon Dad,
Yn maddeu im' fy meiau mawr,
Yn rhwydd o'i gariad rhad;
Fe'm ſeliodd i mewn hedd,
Ond rhyfedd yw ei ras,
Fe'm bwydodd i â'r manna pur,
Mewn gwledd o hyfryd flas.

3 Mi wn i Grist, mi wn
Fy ngharu cyn bod byd,
Parhau fy ngharu gwn y gwna,
Yn ddidrai yr un o hyd:
Fe yw 'm Tywyſog hardd,
Efe yw'r Meddyg mawr,
Efe yw'm Harchoffeiriad gwych
Sydd drofwy'n pledio 'nawr.

4 Fy Mrawd yw'r Iesu da,
Fy Mherl o uchel bris,
Fy Nghyfaill yw a'm Cariad mwyn,
Fy Ngobaith yn ddilys:
Fy Mhren y bywyd mawr,
Fy Nrws i fynd at Dduw,
Fy Ffordd i fyned tu a'r wlad
Lle mae fy Nhad yn fyw.

5 Fy Rhoſyn *Saron* gwych,
Yw'r hyfryd Iesu mwyn,
Fy Mugail yw; a mi ſydd un
O'i dirion, anwyl wyn.
Fy Mhrynwr yw heb lai,
Fy Offeiriad yn ddigel,
Fy Nharian gref, a'm 'Fforddwr da,
Fy ſicr Ran, a'm Sel.

6 Omega, Alpha mawr,
A'm Hawl yw'r anwyl Grist,

Efe yw'm Hamddiffynfa lon,
Efe yw'm ffyddlon Dyſt ;
Fy Mhen, fy Nghorn, a'm Twr,
Fy auraidd Allor lân,
Fy Aberth drud, a'm Prophwyd mawr,
Fe'm tywys yn y blaen.

7 Fe'm portha i â'i ras,
Nes mynd i ben fy nhaith ;
Fe ladd fy holl elynion cas,
Caf gongcro uffern faith :
Fy Arch a'm Hyſgol yw,
I'm codi tu a'r nen,
Caf ddringo 'mlaen o nerth i nerth,
Nes dod i *Seion* wen.

---

## HYMN LXXX.

CRIST *y Gwrthddrych gorau i'w garu.*

1 NID oes un gwrthddrych yn y byd,
Sydd deilwng o fy ſerch o'm bryd :
Mae tynfa f' enaid cannaid cu,
At dryſor tragwyddoldeb fry.

2 Pe cawn y byd i gyd yn grwn,
A byw flynyddau fil yn hwn ;
Ni fyddai hyn ond gofid blin,
Heb gaffael ffafr Duw ei hun.

3 Wrth fyned trwy borth angau du,
Dan ymladd â gelynion lu ;
Ni thyccia cyfoeth, bri na gwaed,
Na brawd, na phriod, mam, na thad.

4 Wel IESU garai yn ddilai,
Efe a'm gwared i o'm gwae ;
Fy Mhriod hynod yw o hyd,
A'm Cyfaill gorau yn y byd.

5 Duw yw efe i'm dwyn ymlaen,
Trwy ddyfroedd mawr a fflammiau tân ;
O'r nefoedd fry rhoiff i mi nerth
I ddringo creigydd mawrion ſerth.

## HYMN LXXXI. *Yr Ail RAN.*

1 DYMA f' Arweinydd i a'm Duw,
Dyma'r un gara i trwi byw;
Ni flina i garu tro 'nwy chwyth,
Er caru i dragwyddoldeb fyth.

2 Pan fyrthio'r fer fel ffigys îr,
Pan berwo'r môr, pan losgo'r tir.
Pan droer yr haul a'r lloer yn ddu,
Pryd hyn mi gara Mhrynwr cu.

3 Doed fel y del, mi cara o hyd,
Dan bob rhyw drallod yn y byd,
Yn nydd y farn, yn angau chwyth,
Mi cara yn y nefoedd byth.

4 Fe rwyma fy ngelynion fyth,
F'au tawl i'r pydew dwfn byth:
Fe'm dwg i'n ddiddig yn ei law
O orfedd barn i'r nefoedd draw.

5 Er temtafiynau filoedd myrdd,
Caf delyn aur a phalmwydd gwyrdd;
A gwifgo'n gyfon goron gun,
Rhoiff ar fy mhen â'i law ei hun.

## HYMN LXXXII. *Y Drydedd Ran.*

1 EFE yw'r feren firiol fy,
Yn ledio'r faint tu a *Bethle'm* fry;
Y foreu wawr fy'n tywynnu'n rhad
Ar holl drigolion *Canaan* wlad.

2 Haul y cyfiawnder, a ddyd gras
I dyfu megis llyfiau'r maes;
Y cwmmwl niwl, a'r golofn dân,
I'm dwyn trwy'r anial dir ymlaen.

3 Fy 'Ffeiriad, a fy Ngheidwad cu,
F' Eiriolwr yn y nefoedd fry ;
Fy Mhrophwyd, Brenhin, a fy Mrawd,
Ie, Ffrynd a Phriod f' enaid tlawd.

4 Fe yw'r Sarph-bres, a'r Manna mwyn,
A'r Bugail da i ymg'leddu'r wyn,
A Ffynnon fawr y dyfroedd byw,
I oleuo'r etholedig ryw.

5 Fy Meichiau, a fy Nghapten cry',
Gongcwerodd ar ben *Calfari* ;
Fy Ysgol nerthol uwch y nen,
Ac eilwaith Drws y nefoedd wen.

---

## HYHN LXXXIII.

2 *Sam*. vii. 14. *Mi a fyddaf iddo ef yn Dad*, &c.

1 PAROD yw'n Duw i faddeu bai,
Sydd yn ei rai anwyla,
Fel ffyddlon ffrynd, neu dirion dad,
Yn waftad fe a'u cara.

2 Canfod y mae ef ym mhob man,
Ein bai a'n annoethineb;
Ei feibion y'm, ei ras barha
I eitha tragwyddoldeb.

3 Fe'n c'rydda am ein beiau ar g'oedd,
Cawn yfed dyfroedd *Mara* ;
Cyftuddiau o newydd ddaw bob cam,
I'n cwrddid am y cynta.

4 Ond ficr yw y pery byth,
Ei ddilyth addewidion;
Nid nef ac uffern newid barn
Creawdwr cadarn cyfion.

5 Nid yw ei gerydd e'n parhau,
I ddyddiau tragwyddoldeb ;
Gyd â'i ffonnodiau gwn y ca'
Drugaredd a thiriondeb.

HYMN

## HYMN LXXXIV.

*Dioddefaint* CRIST.

1 'RWY 'nawr wrth gofio anfeidrol gur,
Dioddefaint y MESSIA gwir,
Fel un yn teimlo rhan o'i loes,
A'i boenau drud o'i gryd i'w groes.

2 'Rwy'n cofio am ei ymdrech mawr,
Pan oedd ei chwys yn llifo'r llawr;
A'r nofwaith oer yn ddafnau gwaed
Wrth yfed cwppan dig ei Dad.

3 Mi gofia'r ffyrnig dorf â'u ffyn,
I ddala'm Llywydd mawr yn llyn,
Gan waeddi maes ag uchel lef,
" Croeshoelia, O croeshoelia ef."

4 'Rwy'n cofio ei ddiofg yn eu gŵydd,
Ac ynte'n tewi a fôn yn rhwydd;
Rhai'n poeri ac yn plygu glin,
Toft cas fy IESU mawr ei drin!

5 'Rwy 'n cofio'r goron ddrain a'i chur,
Y fantell goch, a'r liccer fur;
Y gorfen wael, a'r gwawd, a'r cri,
Wrth gario'r groes i *Galfari*.

6 'Rwy'n cofio'r hoelion dewrion dur,
A'u pwyo'n nwylo'r Brenhin pur,
A hoelio ei draed yn groes ar bren,
Ac ynte heb 'nganyd gair o'i ben.

7 'Rwy'n cofio yno i'r Oen difrad,
Weddio droftynt, " Madde, O Dad;"
Ac iddo yno ogwyddo ei ben,
A dweud, " Gorphennwyd," ar y pren.

## HYMN LXXXV.

*Y cwbl yn rhad.*

1 O ARGLWYDD, 'r hwn fy 'n maddeu bai
Yn rhâd i'r edifeiriol rai;

Fy unig hawl i'r nefoedd fy,
Trwy'th angau ar ben *Calfari.*

2 Pe rhown fy nâ i'r tlodi'n lân,
A'm corph i losgi yn y tân,
A chongcro'm beiau mawr eu rhi',
Pwy ennill fyddai hyn i ti?

3 Pe traethwn dy efengyl lân,
Ac achub myrdd rhag mynd i'r tân;
Beth yw hyn it', O ARGLWYDD cun,
Un gronyn ond dy ras dy hun?

4 Rhyfeddu 'rwyf i'r coelbren dd'od,
A'r nefoedd wen i'm rhan erioed;
Os yno'r af, mi gara'r gwaith
O ganu i dragwyddoldeb maith.

5 O ARGLWYDD, dwed beth wnes i well,
Nâ'r rhai fy'n aros etto 'mhell:
A ydyw'm beiau'n llai nâ hwy?
Yn hyttrach amlach ynt, a mwy.

6 Yn rhad y ce's, yn rhad mae'n bod
Bob peth a roddwyd i mi 'rioed;
Mae'r cwbl oll yn rhad i mi
O'r ddaear hon i'r nefoedd fry.

---

## HYMN LXXXVI.

### *Pererindod.*

1 PErerin wyf fy Nuw, fy'n mynd trwy nerth dy ras,
I *Salem* bur i fyw, o ddinas diftryw 'maes;
Oni buafai itti ddal i'r lan
Fy enaid gwan fuafai lawr.

2 Mi deithiais anial dir, ces gwrdd a ffoefydd maith,
Mieri a drain fel mur, yn amal ar fy nhaith;
Oni buafai, &c.

3 Gofidiau o bob math, fu'n pwyfo ar fy mron,
Yn f' erbyn curo wnaeth, pob llif, a ffrwd, a thon;
Oni buafai, &c.

4 O'm

4 O'm pen i'm traed 'rwy'n friw, fy nghlwyfau'n gwaedu [fy,
Gelynion o bob rhyw, fu'n caro arnai'n llu;
Oni buasai, &c.

## HYMN LXXXVII.

*Meddyliau ynghylch ein Cyfeillion aethant i'r Nef.*

1 O Arglwydd, dena'm ferch a'm bryd,
Ar y gwrthddrychiau s'uwch y byd;
Tryforau hyfryd can mil gwell,
Cuddiedig draw ar fryniau pell.

2 Draw mae ein Iesu mawr a'n Duw,
A brodyr fyrddiwn i ni'n byw;
Oes, mae yno rai'n clodfori o hyd,
Fu'n teithio gyd â ni 'n y byd.

3 Dringafant hwy i ben eu taith,
Gorphen'fant ar eu llafur waith;
O gwynfyd a fai yno byth,
Yn moli'n beraidd yn eu plith!

4 Wel, cyn bo hir ni ddewn ynghyd,
O eitha pedwar cwrr y byd,
O'r gogledd, de', a'r dwyrain bell
I gael mwynhau cymdeithas gwell.

5 Yno y derfydd poen a gwae,
A holl gyftuddiau'r duwiol rai;
Caiff yr holl etholedig ryw
Wyneb yn wyneb weled Duw.

## HYMN LXXXVIII.

2 Cor. iv. 17. *Canys ein byr yfgafn Gyftudd.*

1 Os yw'n gofidiau yn y byd,
I bara hyd y diwedd,
O fewn y nef fe dderfydd hyn,
Troir triftwch yn orfoledd.

2 Pwy

2 Pwy fwya gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn yn lle'n cyftudd byrr a'n crwys,
Dragwyddol bwys gogoniant.

3 Fe orfu'n deithio, nid o'n bodd,
Trwy filoedd o flinderau;
Ganwaith bu'n tyb, na ddoin' uwch nen,
Byth byth i ben ein fiwrnau.

4 Ni orphwyfwn mwy, nes dringo'n llawn,
I'r man y cawn brefwylio;
I'r lan i ben y tawel fryn,
Mae miloedd yn difgleirio.

5 Aneirif dorf, a chyfon gôr,
Angylion o'r difgleiria;
Seraphiaid pur, a faint ynghyd,
Sy'n canu i gyd *Hofanna*.

6 F' enaid blinedig yn eu plith,
Yn dawel byth gaiff orphwys,
'Nol teithio 'ngwres yr haul a'r dydd,
Y nefoedd fydd yn felus.

7 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron,
Holl chwerwon ddyfroedd *Mara*;
Pryd hyn y try pob chwerw nant,
Yn win i blant JEHOFAH.

---

## HYMN LXXXIX.

*Gweddi am amryw Bethau.*

ARGLWYDD, gweli'r ddraig yn gyfrwys,
Rhag pob ton, ar dy fron, gad i'm henaid orphwys.

2 Fry, fry'n waftad uwch cre'duriaid,
Cuwch â'r fer, O fy Ner, cadw f' anwyl enaid.

3 Gwna fi farw, farw'n ddiau,
Farw i'r byd 'nawr ynghyd â'i holl wael bleferau.

4 Sang ar ſiol y ddraig wenwynig,
Heibio ar frys mewn i'th lys, minneu âf yn ddiddig.

5 Iesu, helpa f' enaid ddringo,
'Nawr i'r lan, tua'r man, y cai byth breſwylio.

6 Pechod, paid, tra fwy'n concwero,
'R 'ffernol griw, o bob rhyw, ſydd am fy ninyſtrio.

7 Rhowch im' lonydd, O ellyllon, [gwirion.
Ni chewch byth, tra ynoch chwyth, feddu'm henaid

---

## HYMN XC.

*Salm* xlv. 10, 11. *Gwrando*, &c.

1 CLYW hyn, O ferch, a hefyd gwel,
Ac â chluſt iſel gwrando,
Mae'n rhaid it' ollwng pawb o'th wlad,
A thŷ dy dad yn ango'.

2 'Rys am dy gael tros foroedd pell,
I'r wlad ſydd well i drigo;
Lle mae dy Brynwr gwridog gwyn,
Anwylaf yn preſwylio.

3 Gad yna'r byd ynghyd â'i ddâ,
Ei wagedd a'i deganau;
Pechod, a phleſer o bob math,
D' eulunod a'th gariadau.

4 Rho'th ſerch, a'th gariad, rho fe'n rhwydd,
Ar Arglwydd yr arglwyddi;
Y Tywyſog brafa o bob rhai,
Ar ddeng mil mae'n rhagori.

5 Yna bydd gan y Brenhin wych,
Gael edrych ar dy burdeb,
Fe'th gâr o ddyfnder calon, gwna
Hyd eitha tragwyddoldeb.

6 Yna fe'th wel yn hawddgar iawn,
Yn hardd, yn llawn hyfrydwch;

Cai

Cai ganddo beunydd yn ddinag,
O'i gariad ac o'i heddwch.

7 Ymoſtwng dithau i'th ARGLWYDD da,
Ac ufuddha yn ffyddlon ;
Cân iddo byth ganiadau mwyn,
Am iddo ddwyn dy galon.

---

## HYMN XCI.

*Galarnad* iii. 24. *Yr* ARGLWYDD *yw ſy Rhan, medd ſy Enaid.*

1 YMae yr ARGLWYDD i mi'n rhan,
'Mhob lle, a man p'odd bynna' ;
Ac er gwaetha y gelyn llym,
Ynddo mi ymddirieda.

2 Ce's garreg wen, tyſtiolaeth rad,
Gwir bwrcas gwaed ſy Nghapten ;
Ac enw newydd nas gall dyn,
Ond mi ſy hun ei ddarllen.

3 Ymhob rhyw ſtorom para mae,
Ei 'ddewid a'i ffyddlondeb ;
Y gair ddaeth o'i enau cadw wna,
Hyd eitha tragwyddoldeb.

4 Pa'm ofnaf golyn angau mwy ?
M' anturiaf trwy ſarwolaeth;
Dywedodd na's cawn (nis gwn pa ham)
Fyn'd byth i ddamnedigaeth.

5 Cymmwyſodd at ſy enaid cla',
Ei angau a'i ſarwolaeth ;
Drachefn, a thrachefn mae
E'n cadarnhau nhyſtiolaeth.

6 Dim ond ei hedd a wnaiff yn iach
Fy enaid bach lluddedig ;
Pa ſwya gaffwi o hono, rwy'
O hyd yn ſwy ſychedig.

## HYMN XCII.

*Salm* lxxxiv. 1, 2. *Mor hawddgar yw dy Babell.*

1 DY babell di mor hyfryd yw,
O ARGLWYDD DDUW y lluoedd;
Mynych chwennychais weled hon,
Rhag mor dra thirion ydoedd.

2 Y man b'ost di, bid bryn neu fro,
Sydd gyflawn o ddiddanwch;
Yn dy gynteddau'n wastad mae,
Oes, fôr didrai o heddwch.

3 Sawl drig i'th dŷ gaiff yn ddidra,
Dy gariad a dy ffafar;
Cânt hwy ymborthi ar fath ffâr,
Sy'n nefoedd ar y ddaear.

4 Dy wleddoedd di byth a barha,
I'r newynog a'r sychedig;
A chyd a thi gorphwys a wna
'R diffygiol a'r lluddedig.

5 Fy enaid flysia 'm fynd ar frys,
I'th gysegr lys hylwydd;
Mae'm calon fach a'm cnawd bob cam,
Yn gwaeddi am yr ARGLWYDD.

6 O dwg fy enaid llesg i'r lan,
I'r man'r wyt ti'n preswylio;
Wrth deithio'r 'nialwch mawr yn hir,
'Rwi gwedi gwir ddiffygio.

## HYMN XCIII.

Adn. 6 *Y rhai yn myned trwy ddyffryn* Baca, &c.

1 PE b'ai yn gorfod ar y rhai'n,
'Rhyd glyn wylofain dramwy;
Gosodir ffynnon iddynt hwy,
A'r gwlaw a'u lleinw fwyfwy.

2 Mewn

2 Mewn dyrus dir ac anial daith,
Ynghanol maith anialwch,
Cânt fanna'r nef, cânt ddyfroedd pur,
Sef ffrydiau o wir ddiddanwch.

3 Pan bo'r annuwiol fyd o'i fron,
Mewn dyfnion gyfyngderau;
Fe weryd Duw hwynthwythau, gwna,
O'u trallod a'u cyftuddiau.

4 Pa fwya bo eu cyfyngder hwy,
Bydd fwyfwy eu cyfuron;
Eu hedd melufach nâ'r dil mel,
A lifa fel yr afon.

5 Er gorfod teithio yng wres y dydd,
Tros greigydd o'r diffeitha;
Ni chaiff bod fyched ar un gwr,
Cânt ganddo ddw'r eu gwala.

---

## HYMN XCIV.

Adnod 7. *Ant o Nerth i Nerth*, &c.

1 ANT rhagddynt bawb o nerth i nerth,
Nes cael yn brydferth ddyfod,
I 'mddangos i Dduw gar ei fron,
Yn *Seion* ei brefwylfod.

2 I'r lan, i'r lan tu a phen y bryn,
Lle mae eu Brenhin Iesu;
Ddiffygiant ddim nes mynd i'r ne',
Cânt gyd ag e deyrnafu.

3 Trwy 'fonydd mawrion, dyfnion, du,
Ymlaen heb ofni gronyn;
Gan ddringo creigydd mawrion, ferth,
I'r lan trwy nerth eu Brenhin.

4 Rhyfelant â gelynion gad,
Trwy rinwedd gwaed eu Capten,
Congcwerant, lladdant ar bob llaw,
Nes myn'd tu draw'r *Iorddonen*.

5 Ni flina neb mae Duw eu rhan,
Y llesg, y gwan, a'r clwyfus;
O ras i ras fe dygiff ef,
I deyrnas nef i orphwys.

6 Lle derfydd byth eu poen a'u gwae,
Eu trallod a'u cystuddiau;
Cânt ganu yn y nefoedd wen,
Yn iach ar ben eu siwrneu.

---

## HYMN XCV.

*Pwyso ymlaen at yr Etifeddiaeth.*

1 O Tyr'd ar frys, f' Anwylyd pur,
Cwpla'th addewid, na fydd hir.
Rhag im' ddiffygio a llesgau,
A nychu o hiraeth i'th fwynhau.

2 Teganau'r byd, a'i bleser sydd,
'N fwy diflas im' o ddydd i ddydd;
'Does ganddynt swyn na meder mwy,
I'm denu idd i'w caru'n hwy.

3 Trwy ffydd 'rwy'n gwel'd yr ardal bell,
'Nghyd â gwrthddrychiau lawer gwell;
O ddydd i ddydd rwy'n pwyso 'mlaen,
Nes nes i'm hetifeddiaeth lân.

4 Caf gyflawn olwg ar fy Nuw,
A'r Oen a laddwyd yno'n fyw;
Wyneb yn wyneb ac e'n wir,
Ynghanol y goleuni pur.

5 'Does genny' neges yma'n hwy,
Nac achos oedi gronyn mwy;
'Ngorphwysfa, a fy nhrysor fy,
Fy ngobaith a'm llawenydd fry.

## HYMN XCVI. *Yr Ail RAN.*

1 RWY'n brefu am gynteddau'm Duw,
Mewn tir fychedig 'rwyf yn byw;
Fel pererin llefg neu ddieithr ddyn,
Yn c'rwydro 'mhell o'i wlad ei hun.

2 Pa cyd rhaid bod ym *Mefec* mwy?
P'odd gallai y' *Nghedar* fyw yn hwy?
A orphennai'm fiwrneu maes o law,
I'm cartre' yn nhragwyddoldeb draw.

3 Fy ffryns o'r blaen aeth yno'n llu,
Yn awr yn gorfoleddu fry;
Heb ofn mwy, yn ficr iawn
O'u concweft ac o'u taliad llawn.

4 Gan edrych gyd â phlefer mawr,
Ar faes y gwaed, o bell yn awr;
Yn gweled uffern, angau a'r byd
Wedi eu concwero oll i gyd.

5 A minnau mewn gofidiau fil,
A myrdd o demtafiynau cul;
Bron colli'r gamp, nes delo ffydd
I ddweud mai f'eiddo i yw'r dydd.

## HYMN XCVII.

*Ynghylch Dydd y Farn.*

1 O ARGLWYDD, p'am y rhed ein bryd,
Ar wag bleferau fy'n y byd?
Tu hwnt i'r bedd mewn gwledydd pell,
Rhowd i ni olud can mil gwell.

2 F' ymddettyd y greadigaeth faith,
Yr haul a orphen ar ei thaith;
Y byd a lyfg, a'r fer a ffy,
Pan ymddangofo'n IESU hi.

3 Archangel mawr mewn udgorn gân,
I wyſio o'r beddau'r lludw mân ;
O'r môr, a'r tir, a'u galw'n llu
I'w barnu i entrych awyr fry.

4 Fe ddeclu'r beddau ar godiad gwawr,
Boreuddydd tragwyddoldeb mawr ;
Hwy ro'nt i'r lan ſyrddiynau maith,
O bob rhyw bobloedd, llwyth, a iaith.

5 Uffern a nef ar hyn o bryd,
A ymedu â'r eneidiau gyd ;
I gwrdd â'r cyrph oedd hyd yn awr,
Yn llechu yn y ddaear lawr.

6 Angylion gaſgla'r ſaint ynghyd,
Yn gryno o bedwar cwr y byd ;
Yno hwy gipir oll yn llu,
I entrych y ffurfafen fry.

7 Saint orfoleddant bob yr un,
Pan welont arwydd Mab y dyn,
Fel boreu wawr o'r dwyrain draw,
Sy'n dangos bod yr haul gerllaw.

8 Diſgleirdeb hardd ei wyneb pryd,
Lewyrcha ar y ſaint i gyd,
Nes diſgleiriont fel haul bob un,
Yn gymmwys megis ef ei hun.

9 Ni weliff etifeddion hedd,
Ddim llid, na digter yn ei wedd,
Cariad gwna hwy yn ewn i ſyn'd
At Frenhin Iesu fel at ffrynd.

10 O orſedd barn c'od Iesu 'nawr,
Ynghyd â'i dorf aneirif ſawr ;
Angylion gyd â'r ſaint mewn hedd,
A mewn i'r briodaſol wledd.

11 Pob un â'i balmwydd yn ei law,
Yn mynd tu a drws y nefoedd draw,
Coronau aur neu berls digoll,
A wiſga'r etifeddion oll.

12 Cânt ynau gwyn fel lliain main,
A th'lynau peraidd iawn eu sain
I ganu'r hyfryd beraidd côn,
Tragwyddol *Haleluia* i'r OEN.

---

## HYMN XCVIII.

*Rhyfeddu Rhad Ras.*

1 WRTH feddwl am dy ryfedd waith,
A dyfnder maith dy gariad;
I eigion môr â'm henaid gwan,
Nes ffaelwi 'r lan a dringad.

2 Pan elwi chwilio'th gariad hael,
Mae f' enaid gwael yn boddi;
Ond plygu bellach, ARGLWYDD, wnai
Yn wastad a'i ryfeddu.

3 Pa'm cerais fi, d'wed, un o fil,
O ganol hil llygredig;
Wrth natur f'aeth fy ngwell heb lai
I blith y rhai damnedig.

4 O safn drist gehenna gaeth,
Fy ngwared wnaeth yr ARGLWYDD;
Fy enaid bach am hyn bob tro
Gaiff lammu o lawenydd.

5 Pentewyn poeth ynghanol tân,
Yn myn'd yn lân i'm llosgi;
Achubodd IESU f' enaid, do,
Yn dra enwog o drueni.

6 Glyned fy nghalon bellach byth,
Duw, wrth dy ddilyth eiriau
Fel teithiwy'n hoyw 'mlaen o hyd
Yn uniawn rhyd dy lwybrau.

HYMN.

## HYMN XCIX.

*Can.* v. 16. *Melus odiaeth yw ei Enau, &c.*

1 TYwalltwyd ar ei wefus fwyn,
Ras ag ſy'n dwyn y galon;
Ei eiriau hyfryd ef ſy'n hedd,
I'r holl wir lariedd ddynion.

2 Un gradd o'i lid, neu bwys ei ddwrn,
Sy'n 'ffernol ffwrn ddiffafr;
Ei hyfryd wen, a'i guſan gwar,
Sy'n nefoedd ar y ddaear.

3 O fewn y ddaear hon a'r nef,
Pwy ſy iddo ef yn gymmar?
Dymunol yw uwchlaw'r holl ſyd,
Y mae e i gyd yn hawddgar.

4 Rhyfeddu wnaf o hyn i maes,
Anfeidrol ras ſy Ngheidwad;
Nid oes na ſeraph ſyth na ſaint,
All ddangos faint ei gariad.

5 Y nefoedd faith ſy'n plygu, dan
Gyfadde' eu hanwybodaeth,
O fawr ddoethineb Brenhin ne';
Cyfryngwr iechydwriaeth.

6 Ei foli maent ſwyfwy bob dydd,
Yn newydd eu caniadau;
Gan freſu am ei foli'n well,
Ond ffaelu o faith bell raddau.

7 Rhifedi'r gwlith o angylion bra',
Cerubiaid a ſeraphiaid,
A'u ſwn ynghymmyſg â'r holl ſaint
Sy am ddangos faint ei gariad.

8 Wrth geiſio ei ganmol 'rwy ar goll;
Y mae e oll yn hyfryd;
'Does tafod un creadur byw,
Dd'wed pa fath yw ſ' Anwylyd.

## HYMN C. *Yr Ail RAN.*

1 FY undeb I â'i Berson mwyn,
Sydd im' yn dwyn diddanwch,
Na ddaeth i galon dyn erioed,
I feddwl fod fath heddwch.

2 Er gwerthfawrocced yw bob tro,
'Rwy'n eiddo fo, mi cara;
Ac ef yn eiddo i minneu fydd,
Ac felly bydd i bara.

3 Pa fwya bwi'n mynegu ei glod,
A'i hynod ryfeddodau,
Mwy gwerthfawr wy'n ei weld o hyd,
Mewn byd o demtafiynau.

4 Wel, merched *Salem*, dyma nôd
Fy Mhriod hynod hawddgar:
Mewn nef a daear, tra ynoch chwyth,
Ni ffeindiwch byth o'i gymmar.

5 Eich cweftiwn-yn rhy galed aeth,
D' Anwylyd pa fath meddwch;
N' all geiriau 'i ganmol, bellach tewch,
Yn fuan dewch a gwelwch.

## HYMN CI.

*Fy Nefaid I ni ddwg neb allan o'm Llaw.*

1 MI ges ryddhad i'm henaid fwrth,
Unwaith oddi wrth yr ARGLWYDD
Yr amfer o'wn i'n llefg a gwan,
Yn griddfan dan euogrwydd.

2 A gaf fi etto fyn'd yn ol,
Fu yn ei gôl a'i gorlan?
Na chaf, fe'm ceidw â llaw gref,
Fe dd'wedodd ef ei hunan.

3 A gollai'r Ffrynd a wn i fod,
I mi erioed anwyla'?
Yn well mi cerais ganwaith, do,
Na phleser o'r melusa.

4 Pwy sydd yn awr yn uffern drist
Gwerth gwaed y CRIST anwyla' i
Pwy etholedig, d'wedwch hyn,
S' o fewn i lyn gehenna?

5 On'd gras effeithiol Duw oedd hyn
A weithiwyd yn fy enaid?
Nid all'sai neb tan nef ond fo,
I'm gwared o'm caethiwed.

6 Efe'm digonodd i yn hir,
A ffrydiau o wir ddiddanwch;
Rhows arnai'i serch, a baid ef mwy
I'm harwain trwy'r anialwch?

7 Fy arwain i hyd yma wnaeth,
'R un ffordd ac aeth ei bobol;
Fe'm cynnal etto ar fy nhaith,
Trwy 'stormydd maith, llifeiriol.

8 Credais, mi greda tra fo chwyth,
Na chaf fi byth wrthgilio,
Am fod fy Mhrynwr gwridog gwyn
Yn wastad yn fy ngwilio.

---

## HYMN CII.

*Pererindod.*

1 CHWI bererinion glân,
Sy'n myn'd tua'r *Ganaan* wlad,
Ni thariaf finneu doim yn ol,
Dilynaf ol eich traed;
Nes elwi i *Salem* bur,
Mewn cysur llawn i'm lle:
O Ffrynd trofeddwyr, moes dy law,
A thyn fi draw i dre'.

2 Mi ge's arwyddion gwir,
O gariad pur fy Nuw;
Ei ras, a'i dawel hyfryd hedd,
I'm henaid rhyfedd yw:
Ymhell o'r babell hon,
Mae nghalon gyd ag e'; O Ffrynd, &c.

3 Mae'r manna gwedi ei gael,
Mewn dyrus anial dir,
Ymborthi caf, ond myn'd ymlaen,
Ar ffrwythau'r *Ganaan* bur:
Mae yno swppiau grawn,
Yn llawn o fewn i'r lle; O Ffrynd, &c.

4 Mi fentra 'mlaen yn hy',
Gan gyrchu at y nôd;
Mi gefais, do im' ffyddlon dyst,
Fe erchodd Crist im' ddod:
Fy mhechod ymaith tyn,
Mae'n eiriol yn y ne'; O Ffrynd, &c.

5 F' hyfrydwch yw dy waith,
A'm plefer yn y byd,
Mae hiraeth llwyr yn f' enaid llaith
Am wel'd dy wynebpryd:
Cael hefyd roi fy mhwys,
A gorphwys ar dy dde'; O Ffrynd, &c.

6 Wrth feddwl am y wlad,
A ragbar'towyd i'r plant,
A chyflawn degwch tŷ fy Nhad,
Mae ar fy nghalon chwant,
I landio uwch y nen,
Tu draw'r *Iorddonen* gre'; O Ffrynd, &c.

---

## HYMN CIII.

*Yr Arglwydd yw fy Nerth.*

1 MI âf ymlaen, er pelled yw,
I wlad 'rwi am fyn'd iddi fyw;
O'r diwedd tiria'm henaid gwan,
O ddyfnder moroedd mawr i'r lan.

2 Anialwch mawr mi aethum trwy,
Pa ham y digalonna'i mwy ?
Yr hwn a'm nerthodd i byd hyn,
A'm dwg i'r lan i ben y bryn.

3 On'.chaf fi dy gymdeithas wiw,
Mae'n boenus yn y byd im' fyw ;
'Does plefer tan y nef pe cawn,
All lanw'm calon fach yn llawn.

4 Can mil o weithiau gwyn ei fyd,
Gai gongcweft ar fy meiau gyd ;
Gael bod yn bur o mewn o maes,
A darfod fôn am bechod cas.

---

## HYMN CIV.

*Maddeuant i Wrthgiliwr.*

1 NID yw fy nyddiau yn y byd,
Ond megis dyrnfedd gron i gyd,
A darfod maent, ni's gwn pa lun,
Wrth bechu'n erbyn Duw ei hun.

2 'Rwi'n profi meiau fawr a mân,
'Nawr am fy nigalonni'n lân ;
Eu rhif, eu nerth, ynghyd â'u lliw,
A wnaeth fy nghalon fach yn friw.

3 Fe'm twyllwyd, do, gwae fi yr awr,
I dorri deddf f' Eiriolwr mawr ;
Edifar genny' wneud anghlod,
I'r un a'm carodd oreu erioed.

4 Maddeuaift ganwaith, maddeu hyn,
O Arglwydd, canna fi etto'n wyn ;
Rho i mi dyft, f' Anwylyd cu,
I'm clirio yn y nefoedd fry.

5 Na tharo fi, 'rwy dan fy maich,
'Dwy'n abal diodde' pwys dy fraich ;
Duw ydwyt ti, 'dwyf fi ond dyn,
Pa'm lleddi waith dy ddwylo'th hun ?

6 Gwn

6 Gwn mai rhinweddol yw dy waed,
I bledio'm hawl o flaen y Tad ;
A chlirio'm ffordd at orfedd gras,
A blotto meiau mwy'a maes.

7 Cofia mai gwagedd wyf a gwynt,
A chofia'm cwymp yn *Eden* gynt ;
A chofia mod yn teithio 'nawr,
Mewn byd sy'n llawn o feiau mawr.

8 'Rwy'n gwel'd mai ofer yw fy ngrym,
Na thâl fy addunedau ddim ;
Pechadur wyf, fy Nuw a'i gŵyr,
'Nawr wedi colli ei nerth yn llwyr.

9 Pa ham y deft o'r nefoedd fry,
Ond i gongcwero'r 'ffernol lu ?
Cyflawna'th waith, a gwna dy ran,
Yn fuan ar fy enaid gwan.

## HYMN CV.

*Pererindod.*

1 YMdeithydd wyf fi 'nawr o hyd,
Mewn maith a thrallodedig fyd ;
Nid yma mae fy nghartre'n wir,
'Rwy'n teithio tu a *Salem* bur.

2 Pa'm carai'r byd, na'i wagedd mwy,
Hyd angau'n brin y deuant hwy ;
Gwell genny garu'r Ffrynd a ddaw,
Yn angau i 'maflyd yn fy llaw.

3 'Rwy'n pwyso ar f' Anwylyd cu,
Ei ddehau yn fy nghynnal fy ;
Pa ham y dof o'i gôl i maes,
Nes elwy trwy'r *Iorddonen* lâs ?

4 Er maint yw llid a brad y ddraig,
Fy nhraed osodwyd ar y graig ;
Mae Iesu'n hwylio ngherdded im',
'Chai mwyach gyfeiliorni dim.

## HYMN CVI.

*Gwaed yr OEN.*

1 O Arglwydd, cofia'th angau drud,
A'th boenau mawrion yn y byd!
A dadleu rhai'n ag uchel lef,
Tros f' enaid tlawd ynghanol nef.

2 O cofia'th wae, a'th waed a'th gur,
Ac ôl yr hoelion llymion dur!
Dy chwys i'r llawr yn ddafnau gwaed,
A'th glwyfau mawr o'th ben i'th draed.

3 'Rwy'n ceisio ymdreiglo at dy waed,
Gan gwympo'n llaw trugaredd rad:
'Does gweithred dda yn eiddo fi,
All gleimio hawl i'r nefoedd fry.

## HYMN CVII.

*Yn erbyn Ofn marw.*

1 Dwed pa'm yr ofni'm henaid cu,
I fyn'd yn wyneb angau du?
Y gelyn sathrwyd gynt dan draed,
Gan Frenhin nefoedd yn ei waed.

2 On' chawd y dydd ar angau'n llyn,
Yn lân ar ben *Calfaria* fryn?
O ble mae'r colyn s'iddo mwy?
A phle mae'r gwenwyn sy'n ei glwy'?

3 Pa'm ofnai 'mado â'r byd 'rwy'n byw,
Lle ces ofidiau o bob rhyw;
A myn'd i'r ddinas dawel, bur,
S' a'i heolydd fel y grisial clir.

4 'Dyw marw it', fy enaid trist,
Ond naid o'r byd i fynwes Crist,
At feintiau ac angylion sydd
Yn gwel'd ei wyneb nos a dydd.

5 Cai hedd o fewn i'r *Ganaan* bell,
Cai ffryns a brodyr lawer gwell;
Cai felus foli tr'o ynot chwyth,
Heb gwympo'n llaw'r *Philistiaid* byth.

6 Mi gaf swpperu gyd â'm Ner,
Ymhlith y seintiau rif y ser,
Aeth yno i'r lan, ni's gwn pa lun,
Trwy'r unrhyw rwystrau a mi fy hun.

7 Cai yno orphwys f' enaid trist,
Ar fron d' Eiriolwr Iesu Grist,
Y Ffrynd a'th garodd cyn dy fod,
A phan yr oeddit bella 'rioed.

8 Yn un cai yno weled tri,
Dirgelwch maith y nefoedd fry;
Caf wel'd Creawdwr nef yn ddyn,
Yn gwisgo corph fel fi fy hun.

9 Pryd hynny caf (gwynfyd yr awr!)
Wel'd myrdd o ryfeddodau mawr:
Cwmpeini'r nef gânt gyflawn waith,
Rhyfeddu i dragwyddoldeb maith.

10 Rhyfeddu'r cariad mawr ei faint,
I droi trofeddwr fod yn faint;
Rhyfeddu i lwch dd'od i'r fath le,
Ddisgleirio megis Brenhin ne'.

11 'Ddaw angau byth roi i mi glwy,
Nac ofn marw i mlino i mwy:
'Ddaw tristwch, pechod cas, na phoen,
Ddim i gwmpeini'r addfwyn Oen.

---

## HYMN CVIII.

### Crist y *Meddyg*.

TRofeddwr wyf fy Nuw (da iawn y gwyddost hyn)
Anheilwng iawn i fyw, tu yma i uffern lyn;
Fy enaid gwan sydd dan ei faich,
Estyn dy fraich a dwg fi'r lan.

2 O Iesu 'r Meddyg hael, tydi wyt yn iachau,
Tlawd bechaduriaid gwael, a phublicanod rai;
Fy enaid gwan, &c.

3 Meddyliais gynt cawn fod cyn hyn yn gonc'rwr mawr,
Camfyniais, gwae fi 'rioed, 'rwy'n pechu hyd yn awr:
Fy enaid gwan, &c.

4 Rhif fy mhechodau fydd fel y mân wlith brydnhawn,
A rhei'ny oll bob dydd o liwiau duon iawn:
Fy enaid gwan, &c.

5 Mae gennyt ras yn 'ftor, a *balm* i wella'm clwy',
A chariad mawr fel môr na dderfydd m'hono mwy:
Fy enaid gwan, &c.

---

## HYMN CIX.

*Cyfur yn erbyn marw.*

1 PA'M na b'ai chwant ar f' enaid gwan,
I landio o'r anial fyd i'r lan?
O'r dywyll *Aipht*, o *Babel* gaeth,
I'r wlad fy'n llifo o fel a llaeth.

2 Beth fy i mi gael o fewn y byd?
Dim ond cyftuddiau o'r bron i gyd:
P'odd treulia 'r dyddiau fy i mi fyw,
On' chai dy brefennoldeb wiw.

3 Wel, f' enaid, draw mae'th dryfor drud,
A'th ffyddlon frodyr fwya gyd;
Dy Arglwydd a dy Briod cu,
Sy â'i deml yn y nefoedd fry.

4 Cai, f' enaid, weled yno 'nghyd;
Y faint o bedwar cwrr y byd;
Cai orphen ar dy lafur waith,
A charu i dragwyddoldeb maith.

5 'Traid i mi yno gario'r groes,
Na 'mdrechu â phechod ddydd na nos,
Nac ofni archoll byth na chlwy',
Nac un o rwydau'r gelyn mwy.

## HYHN CX.

1 PEchadur wyf, da gŵyr fy Nuw,
Llawn o archollion o bob rhyw,
Yn byw mewn eisiau o waed y groes,
Bob munud awr o'r dydd a'r nos.

2 Ynghanol cyfyngderau caeth,
A myrddiwn o ofidiau maith;
Gad i mi roddi pwys fy mhen,
I orphwys ar dy fynwes wen.

3 O cofia fi ger bron y Tad,
A dangos iddo werth dy waed;
O pledia 'nawr ynghanol ne'
I ti roi'th fywyd yn fy lle.

4 Ti'm cerais i, O rhyfedd waith,
Mewn amryw o gyflyrau maith;
O câr fi etto, tro ynwyf chwyth,
A châr fi'n nhragwyddoldeb byth.

5 O cadw fi yn dy gôf bob awr,
Wrth bledio ynghanol nef yn awr,
Dwg f' enw mewn llyth'rennau llawn,
O flaen y faingc yn eon iawn.

## HYMN CXI. *Yr Ail RAN.*

1 GAD i mi dreulio'm dyddiau gyd,
I edrych ar dy wynebpryd;
A difyrru'm hoes o awr i awr,
I garu fy Eiriolwr mawr.

2 Ynghanol cyfyngderau du,
Yn agos attat cadw fi;
Rho'm henaid gwan ei felus hun
Byth rhwng dy ddwyfron di dy hun.

3 N'ad bechod bellach roi i mi glwy',
Nag ofn angau mlino i mwy?

Gwna

Gwna fi'n gyfarwydd iawn o hyd,
A'r llwybrau'r ochr draw i'r byd.

4 Yn angau ddydd bydd im' yn Ffrynd,
A gad fy enaid attat fynd;
Saf ar fy nehau, a phledia'n gry',
Bod gennyf hawl i'r nefoedd fry.

5 O cofia fi pan bwi 'n y bedd,
A chasgla'm llwch i'r lan mewn hedd;
O arddel fi'n y farn a ddaw,
A gosod fi ar dy ddeheulaw.

---

## HYMN CXII. *Y Drydedd RAN.*

1 TR'wi yn dy gwmpni, f' ARGLWYDD mawr,
'Rwi wrth fy modd bob munud awr;
A blino 'rwyf, fy Nuw, o hyd,
Yn nwndwr ac yn nhwrf y byd.

2 Iach wyf pan byddwi yn dy wydd,
A'm henaid yn dy foli'n rhwydd;
Tr'wi yma'n byw, Duw gwna fy lle,
Yn agos iawn at borth y ne'.

3 A dyro im' dy gwmp'ni o hyd,
Tr'o raid im' aros yn y byd;
Diddana fi mewn anial dir,
A ffrydiau o ddiddanwch pur.

4 Gad i mi weld mai ti yw'm rhan,
Gad i mi'th ganfod ym mhob man;
Gad i mi'n wastad blygu lawr,
I dy lan 'wyllys bob yr awr.

---

## HYMN CXIII. *Y Bedwaredd RAN.*

1 GWNA, ARGLWYDD, fi'n golofn gry',
Sefydlog yn dy demel di;
I lynu wrthyt ti yn lân,
Ymhob rhyw drallod fawr a mân.

2 Dal fi, fy Nuw, dal fi i'r lan,
'N enwedig dal fi lle 'r wi'n wan;
Dal fi yn gryf, nes myn'd i maes,
O'r byd fy'n llawn o bechod cas.]

3 Gwna fi 'n gyfoethog ym mhob dawn,
Gwna fi fel halen peraidd iawn;
Gwna fi fel feren o'eu wiw,
Ddifgleirio yn y byd 'rwy'n byw.

4 Dyfg fi mewn gorthrymderau trift,
I bwyfo ar f' anwylaf Grist;
Dyfg fi wrth fyn'd o'r byd i maes,
I gario'r dydd ar angau glâs.

5 Dyfg fi 'mhob man, dyfg fi pa fodd
I ddweud a gwneuthur wrth dy fodd;
Dyfg fi ryfela â'r ddraig heb goll,
A dyfg fi gongc'ro'm pechod oll.

6 Tra caffwi rodio'r ddaear hon,
Rho'th hedd fel afon tan fy mron;
Ac yn y diwedd moes dy law,
I'm ledio mewn i'r nefoedd draw.

---

## HYMN CXIV.

*Newyddion da.*

1 NEwyddion braf a ddaeth i'n bro,
Hwy haedden gael eu dwyn ar go',
Mae'r Iesu wedi cario 'r dydd,
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

2 Mae Iesu Grist o'n hochor ni,
Fe gollodd ef ei waed yn lli',
Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach,
I'r ochor draw 'mhen gronyn bach.

3 Wel, f' enaid, weithian c'od dy ben,
Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen;
Mae'n g'lynion oll i gyd yn awr,
Mewn cadwyn gan y Brenhin mawr.

## HYMN CXV.

*Y Pererinion.*

1 WEL, dyma'r pererinion dewr,
Achubwyd yn y ſtormydd mawr;
Dan *Seinai* fe cynhaliwyd hwy,
Pwy elyn a'u gorchfyga mwy?

2 A gwaed yr OEN eu prynu wnawd,
Eu henwau 'mhlith y ſaint a gawd;
Hwy a gyfrifwyd yn ddilai,
O rif y bendigedig rai.

3 Nid angau mwy, nac erlid maith,
Nid ofn dim mewn anial daith,
Nid moroedd mawr o ddw'r a thân,
All rwyſtro rhai'n i *ſyn'd* ymla'n.

4 IESU yw eu Ffrynd, a'u Prynwr drud,
Eu Tŵr, a'u Tryſor yn y byd;
Eu Harch, fe'u caria maes o law,
Yn ddiogel trwy ſarwolaeth draw.

5 Pwy fatter yw i'r rhai'n i gyd,
Gael eu dirmygu gan y byd;
Eu henwau da, a'u parch, a'u bri,
Sy 'nghadw yn y nefoedd fry.

## HYMN CXVI.

*Canmoliaeth o Gariad* CRIST.

1 YR IESU'n ddilai a'm gwared o'm gwae,
Fe ſafiodd fy mywyd, maddeuodd fy mai.

2 Er pelled y cas fi'n wir oddiwrth ras,
Fe'm carodd yn amlwg yngolwg fy nghas.

3 Fe'm golchodd i'n rhad, do'n wir yn ei waed,
Gan ſelio fy mhardwn rhoes i mi ryddhad.

4 O melus

4 O melus yw'r wledd, ce's weled ei wedd,
Fy Mrenin a'm Prophwyd mwyn hyfryd mewn hedd.

5 Fy Mhriod a'm Pen a rwygodd y llen,
Ffordd newydd a bywiol sy i fyned uwch nen.

6 F' Arweinydd i dre' yw'r Iesu'n ddible,
Fe'm ceidw rhag niweid, ca' fyned i'r ne'.

7 Mi wela fy mod yn awr tan y nôd
O'm Priod cywiraf, dilynaf ei droed.

8 Fy enaid i sydd yn awr nos a dydd,
Am ganmol fy Iesu a'm rhoddodd yn rhydd.

9 Ffarwel fo i'r byd, a'i blefer ynghyd,
Ar drysor y nefoedd fe redodd fy mryd.

10 Fe'm cododd i'r lan pan oeddwn yn wan,
Amlygodd f' Anwylyd fy rhydd-did a'm rhan.

11 Fe roes i mi faeth, o win ac o laeth,
O'r pydew fe'm cododd, yn gadarn fe'm gwnaeth.

12 'Rwy'n gweled bob dydd mai gwerthfawr yw ffydd,
Pan elwy' i borth angau fy angor a fydd.

13 Mwy gwerthfawr im' yw nâ chyfoeth *Peru*,
Mor ddiogel i'm cynnal ddydd dial ein Duw.

---

## HYMN CXVII.

*Gwynfyd y Saint.*

1 O Braf yw meddwl am y fraint,
A'r gwynfyd fydd i bawb o'r faint;
Y cyfiawn hil, brenhinol had,
Gwir etifeddion *Canaan* wlad.

2 Er teimlo gwae, a diodde gwawd,
Wrth ado'r byd er mwyn eu Brawd;
Trwy ganol llid hwy ânt yn llu,
Yn iach i fryn *Caersalem* fry.

3 'Nol

3 'Nol hela eu pererindod maith,
A gorphen ar eu llafur-waith,
Cânt fedi yn y nefoedd wen,
O ffrwyth eu llafur uwch y llen.

4 Iesu a'u harwain hwy mewn hedd,
O'r anial wlad i'r nefol wledd;
O ras i ras fe'u leda'n rhodd,
I dir y bywyd wrth eu bodd.

5 Wel, dyma'r dydd dihangant hwy,
Ffarwel eu maith ofidiau mwy;
O happus awr, a melus bryd,
'R anghofiant eu gofidiau gyd.

6 A dyma'r dydd y derfydd gwae,
Dydd dechreu hir o lawenhau;
Dydd o gymmundeb melus yw,
Heb gwmmwl du rhyngddynt a'u Duw.

7 Cânt yno edrych yn ddiball,
Fel cyfaill llon ar wedd y llall,
Yn wyneb hardd eu Priod cu,
A'u hena Frawd esgynnodd fry.

8 'Ddaw newyn byth na syched mwy,
Na diffyg hedd i gwrdd â hwy;
Cânt yno yfed yn ddilyth,
O afon bur y bywyd byth.

---

## HYMN CXVIII.

*Gobeithio yn erbyn Gobaith.*

1 PA'M digalonna'm henaid gwan,
Ond wyt ti, Arglwydd, ar fy rhan?
Ac ond wyf finnau 'n un o ri'
Rhai brynwyd ar ben *Calfari?*

2 Oni alwaist arnai, Arglwydd cun,
Do, ganwaith wrth fy enw f' hun;
Ac oni wnest fi'n gonc'rwr llawn,
Ar demtasiynau lawer iawn?

3 Cynheliaist fi mewn dyrus daith,
Rhag cwympo'n erchyll lawer gwaith;
Yn amddiffynfa buost im'
Pan o'wn fy hun heb allael dim.

4 D'wed, f'eraid, p'am na's claimi'n hy',
Dragwyddol hawl i'r nefoedd fry,
A phledio'n wyneb cnawd a byd,
Mai'r ARGLWYDD yw fy Ffrynd o hyd.

5 Gwirionedd yw, fy meiau sydd
'N fy mhwyso i wared nos a dydd;
Ond credu wna, tr'o ynnwi chwyth,
Na fynni fy anghofio i byth

6 'Rwy'n ffieiddio pechod o bob rhyw,
'Rwy'n blino ar y byd 'rwy'n byw,
'Rwy'n caru'th saint; ond dyna nôd
I tithau ngharu innau 'rioed?

---

## HYMN CXIX.

*Trysor y Saint.*

1 DUW yw fy Nhad, iddo bo'r clod,
Am iddo 'ngharu cyn fy mod;
CRIST yw fy Nghyfaill i a'm Pen,
A'm gwlad artrefol sy uwch y nen.

2 Fry mae fy nhrysor pur dilyth,
A'r goron gaf fi wisgo byth:
Fe sygnodd nefoedd Duw fy mryd,
Nes 'dwi'n ddieithr yn y byd.

3 Myrdd o fy mrodyr anwyl sy,
Yn gorphwys yn y nefoedd fry;
'Nghyfeillion goreu sy mewn hedd,
Yn canu'r ochr draw i'r bedd.

4 Hyd yma y'm deliaist trwy dy ras,
Duw, dal fi etto o hyn i maes;
Cryfha fy yspryd ar fy nhaith,
I landio tros ddyfnderoedd maith.

5 Mi ddringais greigydd, 'down ond gwan,
Rhyfeddu 'rwyf p'odd des i'r lan ;
Tebygol bod fy mhwys i fry
'N ddirgelaidd ar f' Anwylyd cu.

6 Rhyfeddol fel cynheliaist fi,
Yn erbyn myrdd o elynion cry ;
Trwy ddyfroedd mi es, na's gŵyr un dyn
Mor ddwfn oe'nt, ond ti dy hun.

---

## HYMN CXX.

1 MAE'n siwrneu trwy'r anialwch maith,
Mae'r *teid* a'r tonnau ar ein taith,
Gelynion erchyll ar bob llaw,
Cyn ennill tir y *Ganaan* draw.

2 Ond pan y landiom yno i'r lan,
Fe lwyr anghofia'n henaid gwan,
Y gofid trist, y poen a'r traul,
A gawsom yma tan yr haul.

3 Munudyn yn y nefol fyd,
A etryb ein holl boenau gyd ;
Radd leia o ogoniant fry sydd well,
Na holl drysorau'r *India* bell.

4 P'am ofna'i fy ngelynion mwy ?
Clwyfwyd y cryfa o honynt hwy,
Can's pen y ddraig a sigwyd fry
'N y frwydr fawr ar *Galfari.*

5 Mae gennyf hawl, doed fel y del,
I addewidion sydd dan sel ;
Mi gredaf mwy, pwy roiff im' nôd
I DDUW i dorri ei air erioed ?

---

## HYMN CXXI. *Yr Ail RAN.*

1 P'ODD byddai dlawd ? fy enw ga'd
Yn llyfr y cyfammod rhad.

A gollai'r dydd, a Mrawd yn ben,
A Chapten yn y nefoedd wen?

2 Ni ildai ddim o'r maes yn llyn,
Mi ddringais dylau mawr cyn hyn,
Mi dynnais oen o balfau'r llew,
Mi dorraf ben *Golia* glew.

3 'Rwi'n caru ei air, a'i 'fengyl faith,
Ei g'fammod mawr a'i ryfedd waith;
'Rwi'n caru ei ordinhadau iach,
A'i gyfraith bur bob *jotta* fach.

4 'Rwi'n caru'r man mae Mhriod cu,
A hwnnw ydyw'r nefoedd fry;
'Rwi'n caru maingc ei ras dan go'
Lle ces faddeuant lawer tro.

---

## HYMN CXXII.

*Dedwyddwch Tragwyddoldeb.*

1 CAF fod yn llonydd byth, pan etifeddwi'm braint,
'Does gofid mwy ymhlith y gogoneddus faint:
Cafyno fyw 'mhell uwch y byd,
A'm ferch i gyd ar IESU gwiw.

2 Ni hedeg *fatan* wan i'm cartre' uwch y nen,
'Ddring pechod byth i'r lan, i drothwy'r nefoedd wen;
'Ddaw dim i'm cwrdd yn *Seion* fry,
Yn fuan ffy ngelynion ffwrdd.

3 'Does wrthddrych mwy i gael i demtio'm henaid llaith,
Nac unrhyw blefer gwael yn nhragwyddoldeb maith;
Dim gwagedd ffol mewn nefol fyd,
I dynnu'm bryd byth ar eu hol.

---

## HYMN CXXIII.

*O Goffadwriaeth am Farwolaeth amryw o rai duwiol oddi amgylch* Llanfawel.

1 FY myfyrdodau i'n felus fy,
Wrth gofio'r dorf fy'n moli fry;

Pob un yn ddifglair yn ei le,
'N rhagori ar fer yn entrych ne'.

2 Fel y rhagora'r perlau drud,
Ar dom a forod fy'n y byd,
Mil mwy rhagoriaeth fy'n eu gwedd
Nâ'r pryd yr oe'nt tu yma i'r bedd.

3 Yr haul g'wilyddia maes o law,
Wrth wel'd y rhai'n mewn dydd a ddaw;
Fe 'mgyddia'r lloer ni 'mddengys mwy,
Gan lewyrch eu difgleirdeb hwy.

4 Mae yno heddyw rai yn iach,
Rodd' ffarwel in' dros ronyn bach;
Yn ddiftaw iawn dihangfant hwy,
I'r fabboth fry s' heb ddiwedd mwy.

5 Aethant i maes o'r cyftudd mawr,
Eu gofid oll a ddarfu 'nawr:
Maent heddyw'n canu, canant byth,
Heb fwn pechadur yn eu plith.

6 Myrddiynau o fyrddiynau a mwy,
O gyfeillion newydd gawfant hwy,
Oll arnom ni'n rhagori 'mhell,
Ac yn eu caru'n llawer gwell.

---

## HYMN CXXIV. *Yr Ail RAN.*

1 HWY gawfant weld, O gwyn eu byd!
'R hen bererinion yno i gyd,
Gynt gwedi bod mewn dw'r a thân,
A myn'd trwy'r pyrth i mewn o'u blaen.

2 Rhai gwedi mynd i ben eu taith,
Er's miloedd o flynyddau maith,
Ac etto i'r IESU'n canu clod,
Mor felus a'r awr gynta erioed.

3 Ymhlith y rhai'n hwynthwythau maen,
'Nawr yn eu helfen oll yn lân;

A'u hyfryd ſwn debygwn ſydd,
Yn beraidd iawn i gluſtiau'm ffydd.

4 Darfuant hwy yn lân yn awr,
Ag amryw derfyſgiadau mawr;
Y poen a'r gofid oll i gyd,
A'r temtaſiynau ſy'n y byd.

5 Fel hyn y daeth, gadawyd ni,
I fyn'd i maes yn erbyn llu
O elynion hyll, dichellgar iawn,
Heb wybod bryd eu congc'ro cawn.

---

## HYMN CXXV. *Y Drydedd RAN.*

1 CYfeillion oe'nt mewn dw'r a thân,
Wrth deithio'r llwybr cul ymlaen;
Yn ffyddlon iawn 'mhob man a lle,
At 'r hyn berthynai i deyrnas ne'.

2 Mae cariad IESU eu Prynwr drud,
Wedi eu concwero 'nawr i gyd;
Fel na allant lai o ganol ne',
Nâ chadw eu golwg arno fe.

3 Eu coronau diſglair ſy ar eu pen,
Yn rhodio yn y nefoedd wen;
A'r palmwydd gwyrdd, eu harwydd hwy,
Na chânt fyn'd i ryfela mwy.

4 Eu tafod wedi ddyſgu ſy,
Yn holl ganiadau'r nefoedd fry;
A'u byſedd yn gyfarwydd cair,
O chwareu ar y delyn aur.

5 Diſgwyl y maent bob munud awr,
Am weld yr adgyſodiad mawr,
I'r cyrph ſy'n gorwedd yn y bedd,
Gael rhan o'r briodaſol wledd.

## HYMN CXXVI.

*Gwaredigaeth yn nesau.*

1 O'R diwedd fe iachawyd fy nghlwy',
Na lwfrhaed credadyn mwy;
Ei air a saif, a'i 'ddewid wen,
Er oedi yn hir a ddaw i ben.

2 Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm, a IESU'n llawn;
Myfi yn dlawd heb feddu dim,
Ac ynteu'n rhoddi pob peth im'.

3 Y bywyd wyf fi 'nawr yn fyw,
Sy'n meddu hapusrwydd o bob rhyw;
Hapusrwydd yw, O d'wedwch pwy
A weliff ddiwedd arno mwy?

4 Mae'n brysio at bryd i ganu'r gân,
Concwest gelynion fawr a mân;
Cannir ni'n wyn, ni fyddwn iach
O'n pechod oll 'mhen gronyn bach.

5 Yn awr mae'r dyddiau'n gwir nesau,
At dragwyddoldeb sy'n parhau;
Un funud at y llall heb ble,
Sy'n myn'd â'm henaid tu a thre'.

6 Na frysiwn mwy, credwn yn glau,
Mae'n gwaredigaeth yn nesau;
Gwelwn arwyddion braf o'r dydd,
Mewn corph ac enaid fynd yn rhydd.

7 Trwsiwn ein lampau, rho'wn ein 'sten,
Yn llawn o olew hyd yr en:
Na chysgwn mwy, ond 'drychwn draw,
Fe waedda'r Priodfab maes o law.

## HYHN CXXVII.

*Dydd Nadolig.*

1 BLANT ffyddlon *Seion* dewch,
A llawenhewch i gyd,
Ymlaen â chwi fel milwyr da,
Yn llon er gwaetha'r llid;
O hyfryd ddedwydd awr,
*Messiah* mawr a ga'd:
Henffych i'r dydd, a'r boreu daeth
Y iachawdwriaeth rad.

2 Er i ni golli 'r hedd,
Ymharadwyfaidd wiw,
A bod yn fyrr o gadw'r fraint,
Myn'd dan ddigofaint Duw:
Ni gawfom Had y wraig,
Yn gadarn graig i'n traed; Henffych, &c.

3 Addewid gafwyd do,
'Nol inni fyrthio ymhell,
Arfaethol ras hawl in' a roed,
Gawd ar gyfammod gwell;
Mae'r fylfaen yn ddigryn,
Ni chollir un o'r had: Henffych, &c.

4 Anfeidrol fendith fawr,
A ddaeth yn awr i ni,
Mae gennym archoffeiriad gwiw,
Yn cyhoeddi'r *jubili*,
Maes o'r caethiwed du,
Rhai gafodd y rhyddhad; Henffych, &c.

5 Er gwaetha *fatan* fydd,
Yn temtio ddydd a nos,
Mae gennym hawl i'r tryfor da,
Fe bara o oes i oes;
Ffordd newydd gafwyd do,
I deithio at y Tad; Henffych, &c.

## HYMN CXXVIII. *Yr Ail RAN.*

1 DRachefn llawenhewch,
Chwi etholedig ri',
Mae'r oruchafiaeth gwedi d'od,
Trwy GRIST ein Priod ni;
Er cyfeiliorni 'n hir,
Cawn dd'dd i dir ein gwlad,
Henffych i'r dydd a 'r bore daeth
Y iachawdwriaeth rad.

2 I'n gwared daeth ein Ffrynd,
Pan oe'm ni'n mynd ar goll,
Mae pob cyflawnder yntho ef,
Yn trigo oll yn oll;
Can's felly'r OEN dinam,
A wnaethpwyd gan y Tad; Henffych, &c.

3 Wel dyma'r newydd da,
A lawenycha'r trift,
Mae'r ddraig a fatan er ein mwyn,
Mewn cadwyn gyd â'n CRIST;
Pan figodd ef ei liol,
Fe 'nillodd nefol wlad: Henffych, &c.

## HYMN CXXIX.

*Brefiadau am Ogoniant.*

1 WRTH gofio'r *Jerufalem* fry,
Y ddinas prefwylfa fy NUW,
Y feintiau a'r angylion y fy,
Yn canu caniadau o bob rhyw;
Am mai yno mae nhryfor i gyd,
Nghyfeillion a'm brodyr o'u bron,
Fy nghalon fy'n brefu o hyd,
Yn fuan am fyned i hon.

2 'Ngelynion yn greulon y fydd,
Hwy rwygent fy enaid pe caen',

'Rwy'n

'Rwy'n profi bob munud o'r dydd,
Nerth saethau gwenwynllyd y rhai'n ;
Am fod fy ngofidiau mor fawr,
A'r llewod uffernol fath lu,
Pe cawn fy nymuniad yn awr,
Trwy angau dihangwn i fry.

3 Fy enaid sychedig i sydd
Wrth deithio dros fryniau mor faith,
Yn disgwyl yn dawel bob dydd,
I gwrddyd â diwedd fy nhaith ;
Fel darffo fy ngofid a ngwae,
Fy nhrallod, fy mlinder a mhoen
A dechreu'm gorfoledd didrai,
Caniadau tragwyddol i'r Oen.

4 Er gofid a blinder o hyd,
A rhwystrau bob munud o'r awr,
Er gelynion echryslon i gyd,
Sy'n curo fy yspryd i lawr ;
Fy enaid lluddedig a ddaw,
Trwy demest', trwy donnau, trwy dân,
Er gwaetha pob dychryn a braw,
I'm cartre' tragwyddol yn lân.

5 Mi gara f' Anwylyd o hyd,
Fy Mhrynwr, fy Mhriod, a'm Pen,
O'r diwedd fe sugnodd fy mryd,
O'r ddaear i'r nefoedd uwchben ;
Gwynfyd a sae'n gorwedd yn awr,
Yn llonydd yngwaelod fy medd,
Mi godwn ar doriad y wawr,
Yn fuan i weled ei wedd.

---

## HYMN CXXX.

*Y Concwest diweddaf.*

1 PEchadur wyf 'r Arglwydd a'i gwyr,
Pechadur a garwyd yn rhad,
Pechadur a gliriwyd yn llwyr,
Yn rhyfedd trwy rinwedd y gwaed ;

Pechadur

Pechadur a orfu fyn'd trwy
  Ryw 'ftormydd o ddyfroedd a thân,
Pechadur na orphwys byth mwy,
  Nes dringo i'r nefoedd yn lân.

2 Y rhyfel o'n bochor ni fydd,
  Er cymmaint ein tuchan a'n cwyn,
Pwy etto 'rioed gollodd y dydd,
  Trwy waed yr IMMANUEL mwyn;
Fe ddrylliwyd fy ARGLWYDD i'n friw,
  Rhwng mwrddwyr ar *Calfari* fry,
Wel bellach mi mola trw'i byw,
  Fe brynodd y nefoedd i mi.

3 'Ngelynion er cymmaint eu llid,
  Yn lluoedd a deflir i'r llyn,
Fe rhwymir hwy'n 'fgubau ynghyd,
  Dechreuad llawenydd yw hyn;
Mwy etto fy enaid yw'th fraint,
  Ond landio tu arall i'r bedd,
Cael treulio ymhlith yr holl faint,
  Sabbothau tragwyddol o hedd.

4 Pryd hynny cai glywed y gair,
  Y gair fydd felufach nag un,
Yn feinio ffurfafen y nef,
  O enau f' Anwylyd ei hun,
Dewch blant bendigedig fy Nhad,
  Dewch etholedigion i gyd,
Meddiennwch y deyrnas yn rhad,
  Bar'towd ich' cyn feiliad y byd.

5 Y baradwys af iddi cyn hir,
  Mae afon y bywyd yn hon,
Yn llifo fel grifial yn glir,
  I ddiodi'r fychedig o'u bron;
Mae hefyd ynghartre' fy NAF,
  Afonydd o laeth ac o fel,
Wel bellach tu ag yno mi af,
  A deued hi fel ag y del.

6 Fe'm cod i ben *Nebo* yn llyn,
  Ca' weled gwlad *Canaan* o'i bron,

 Jec 23 32

Y ddinas ce's ganwaith cyn hyn,
Addewid o fyned i hon;
Ac yma cai adael fy nghnawd,
Lawr eilwaith i'r ddaear y bu,
A'm dwylan ymreichiau fy Mrawd
I ganol *Jerusalem* fry.

## HYMN CXXXI.

*Etholedigaeth.*

1 YR ARGLWYDD a'm carodd i'n rhyfedd erio'd,
Fe'm cywir adnabu ymhell cyn fy mod;
Arfaethodd yn gynnar fy nghadw 'n ddigel,
Pan gwnaeth ei gyfammod yn ficr dan fel.

2 A chariad tragwyddol fe'm carodd i do,
Clod iddo trwy'r nefoedd, fe'm cadwodd mewn co';
'Sgrifennodd fy enw, 'mhlith yno ryw bryd,
Y rhai a etholodd cyn feiliad y byd.

3 Er i mi drofeddu glân gyfraith fy Nuw,
Do ganwaith ei demtio, a'i flino gwir yw;
Ni altrir, ni thorrir y weithred a wna'd,
Gynt yn nhragwyddoldeb, fe ddwedodd fy Nhad.

4 Wel, dyma fel carodd fi'n rhodd ac yn rhad,
Pwy dryfor tan nefoedd mwy gwerthfawr a ga'd;
OEN anwyl ei fynwes a gefais heb gel,
Mae yntho'n guddiedig fy mywyd dan fel.

5 Mi ge's y Ffrynd goreu, fyth, fyth all'fai fod,
'R addewid a roddodd ni thorrodd erio'd;
Er byw'n ei ogoniant ynghanol y nef,
Mewn awr o gyfyngder fe wrendy fy llef.

## HYMN CXXXII.

*Y Ffordd newydd trwy* GRIST.

1 FFordd newydd wnawd gan IESU GRIST,
I basio heibio i uffern drist,

Wedi

Wedi ei phalmentu ganddo fe,
O ganol byd i ganol ne'.

2 Agorodd ef yn lled y pen,
Holl auraidd byrth y nefoedd wen,
Roi rhydd did i'w gariadau ef,
I mewn i holl drigfannau 'r nef.

3 Gwnawd llwybr rhydd, 'does rhwystr mwy,
Na's gall credadyn dorri trwy;
Gelynion hyll rowd dan ein traed,
Ac angau'n ffrynd, trwy rin y gwaed.

4 Pa'm 'r ofnwn dragwyddoldeb mwy,
Pa'm 'r ofnwn forio attynt hwy,
Y rhai i'n tyb a glywn yn ber,
Yn canu heddyw uwch y ser.

5 Os tonnau gawn, a 'stormydd chwith,
Mae Duw o'n tu, ni soddwn byth;
Credwn yn gryf, dewn maes o law
Yn iach i'r lan yr ochor draw.

6 Myrddiynau o frodyr anwyl sy
O'u gofid oll yn gorphwys fry;
'Chas neb o'r rhei'ny fyn'd yn rhydd
Heb brofi o bwys a gwres y dydd.

7 Pa'm y disgwyliwn fyn'd i'r nef,
Heb gario'r groes a gariodd ef;
Mwy melus fydd y nefoedd, pan
Yr elom iddi yn y man.

---

## HYMN CXXXIII.

*Cariad* DUW, *Rhyfeddod y Credadyn.*

1 RHyfeddu 'r wyf, O ARGLWYDD cun,
I ti fy ngalw erioed yn un,
I maes o'r dorf annuwiol sy
Yn lliwio'r ffordd tu ag uffern ddu.

2 Dwed

2 Dwed ble mae 'm bath a gafodd ras,
Wedi ymdroi mewn pechod cas;
A ffeindir un yn *Salem fry*,
Wrthgiliodd ganwaith fel myfi.

3 Pan gwelwi f' hun, yngoleuni gras,
A gweld pwy wyf, b'le des i mae's,
Mae'm tafod hy' yn myn'd yn fud,
A minneu 'n gwaeddi gras i gyd.

4 Hyd yma arweiniaist fi yn rhodd,
Ni's gwn pa ham, ni's gwn pa fodd;
Ni fedrai neb, ond ti yn wir
Fy ledio trwy'r fath anial dir.

5 'Doedd neb a ddalfai 'm henaid gwan,
I ddringo creigydd mawr i'r lan,
A myn'd trwy lynnoedd dyfnion chwith,
Y boddodd mil heb godi byth.

6 Wel etto helpa'm henaid gwan,
Nes dod o'r moroedd oll i'r lan,
A chael fy nhraed ar fanctaidd dir,
O fewn i gaerau'r ddinas bur.

7 Yn fynych mynych Iesu cu,
Datguddia'th fod yn eiddo i mi:
Mewn 'stormydd mawr yn wastad gad
Im' ddysgu llefain, *Abba Dad*.

---

## HYMN CXXXIV.

*Y Llew o Lwyth* Juda *a orchfygodd*, &c.

1 ESgynnodd ein HARGLWYDD, mawr hylwydd mwyn hy',
Uwch cyrraedd gelynion, rai creulon ryw cry;
Bygwthent a fynnon' yn eon is nen,
Ni s gallant wneud niweid i'n HARGLWYDD uwchben.

2 Gall fatan i orphwys, er cymmaint ei lid,
Er cael rai blynyddau ein blino yn y byd;
Ac er fod e'n nerthol, a'r defaid yn wan,
Ni ddwg ef un ddafad, dwg IESU ni'r lan.

3 Wel, blant, gorfoleddwch, ni gawsom y dydd,
Trowyd satan oddi yno, mae'r nefoedd yn rhydd,
Fe bechodd, fe gwympodd o entrych y ne',
Ni bech'som, fe'n prynwyd, ni gawsom ei le.

4 Ar fynydd *Calfaria* hiliogaeth y wraig,
Mewn rhyfel o'r tecca' orchfygodd y ddraig;
Fe sigodd ei choryn, rhows iddi'r fath glwy',
Fel gallwn, er gwanned ei chonc'ro hi mwy.

5 Wel, weithian cymmerwch eich arfau yn hy',
Dewch allan i ryfel yn erbyn y llu,
Ni rhoddwn hwy'n fuan i lawr tan ein traed,
Cawn ganu am goncwest yn rhinwedd y gwaed.

---

## HYMN CXXXV. *Yr Ail RAN.*

1 MOliannwn yr Iesu am hynny bob un,
Bu farw ar *Galfaria*'r EMMANUEL ei hun;
Fe gym'rodd ein beiau, eu pwysau a'u poen,
Dioddefodd y cwbl mor llariaidd a'r oen.

2 Daeth uffern, a'r ddaear, a'r nefoedd ynghyd,
I gonc'ro'r *Messia* Iachawdwr y byd;
Fe safodd i fynu, fe 'nillodd fath glod,
Bydd coffa am dano tr'o'r nefoedd yn bod.

3 Fe gurodd gehenna, fe gonc'rodd y byd,
Fe 'gorodd y nefoedd oedd gauad o hyd;
Diffoddodd ar unwaith yn gyfan â'i waed,
Holl felldith y gyfraith ac angerdd ein Tad.

4 Pob bryn 'f'a'i gostyngodd, gan lanw pob pant,
'Radwyau fe'u torrodd, fe sychodd bob nant:
Palmentodd bob llwybr o'r ddaear i'r ne',
Fel gallai'r briodas-ferch gael digon o le.

5 Mae'r Brenhin ei hunan yn cerdded o'r blaen,
Yn treio grym dyfroedd, a phoethder y tân,
Ni chaiff ei anwylyd fwyn hyfryd fynd gam,
Nes torri grym dyfroedd, a diffodd y fflam.

6 Wel,

6 Wel, bellach dechreuwch, mae'n ddigon o bryd,
I ganu caniadau i Iachawdwr y byd ;
Ni feiniwn y ddaear a'r nefoedd uwch ben,
Hofanna, Haleluia, Hofanna. *Amen.*

---

## HYMN CXXXVI. *Y Drydedd RAN.*

1 'R Hen *Adda* ga's gynnyg ar gadw ei holl
Hiliogaeth heb bechu a myned ar goll ;
Fe gwympodd y cynta', 'r ail 'nillodd y dydd,
Ac yn ei or'chafiaeth daeth miloedd yn rhydd.

2 Bu'r frwydr yn amlwg ar *Galfari* fry,
Fy ARGLWYDD ei hunan yn erbyn y llu ;
Er cael hwy bob mantais, eu byddin yn gref,
Concwerodd hwy'n loyw 'ngwydd daear a nef.

3 Pwy fentrai gymmeryd fath arfau a rhai'n
Yn erbyn llu uffern, fef coron o ddrain,
A mantell o 'fgarlet, a chroes o bren îr,
Y gorfen a bustl, a hoelion o ddur ?

4 Bu farw f' Anwylyd, fe grymmodd ei ben ;
Fe 'gorodd y beddau, fe dduodd y nen :
Yr holl greadigaeth ryfeddodd yn fawr,
P'odd marw Creawdwr y nefoedd a'r llawr.

5 Fe 'fgynnodd i fynu, fe dalodd ein d'led,
Fe 'gorodd holl ddryfau y nefoedd ar led ;
Fe'n rhodd ni mewn heddwch, o farw ar bren,
A'r holl greadigaeth o'r ddaear i'r nen.

6 Fe rhoddwyd i'r ddaear, fe gododd yn fyw,
Y maen a fymmudwyd ar 'fgwyddau fy NUW ;
Fe laddodd yr angau, fe ddaclodd y bedd,
Wneud ffordd i'w anwylyd adg'odi mewn hedd.

7 Wel, tyred, fy enaid, o'th hunan i maes,
Ymffroftiaf yn unig yn IESU a'i ras ;
Efe wnaeth y cwbl, efe bia 'r clod,
Bydd moliant i'w enw tr'o'r nefoedd yn bod.

## HYMN CXXXVII. *Y Bedwaredd RAN.*

1 NI redwn yn wrol, mae'r Brenhin o'n bla'n,
Pa'm ofnwn ni rwystrau o ddw'r ac o dân?
Mae'r goron a'r palmwydd, a'n gwobr ni fry,
Ynghadw'n llaw'r Barnwr, mae'n perthyn i ni.

2 Rhaid cadw ar y llwybr heb bwyso ar un llaw,
I ddehau neu aswy, nac yma na thraw;
Os trown ni un ochor, y llwybr sydd gul,
Hyll iawn yw'r gelynion, a chyfrwys eu 'sgil.

3 Fe'n gwneir ni'n gysarwydd, ein Capten dinam
A deithiodd yn union heb golli un cam;
Dilynwn ei gamrau trwy fywiol ffydd gref,
Fe'n dygir yn fuan i'r man yr aeth ef.

4 Blinderau a chroesau yn sicr ni gawn;
Ca's ynte o'r rhei'ny rifedi mawr iawn;
Yn wirion a llariaidd dioddefodd hwy 'gyd,
Sancteiddiodd i'w bobl holl drallod y byd.

5 Wel, bellach gystuddiau, o safwch bob tu,
Mi safa yn y canol yn eon a hy';
A churwch eich gwaetha ar f' enaid o hyd,
Fe dynnodd fy ARGLWYDD eich gwenwyn i gyd.

6 Diolchaf byth iddo, sancteiddiodd y groes,
'Sgafnhaodd ei phwysau, fe laesodd ei loes;
'Nawr nef yw ei chario, a gwynfyd y sy,
Yn canlyn yr IESU i *Galfari* fry.

---

## HYMN CXXXVIII. *Y Bummed Ran*

1 DEwch, frodyr, yn eon trwy ddw'r a thrwy dân,
Fe gwympiff gelynion cry' blinion o'n blaen;
Ni alliff hen satan y bradwr roi brath,
Ar fynydd *Calfaria* fe gollodd ei saeth.

2 Wel gyd â'r henuriaid ynghanol y nef,
A'r pedwar anifail, yn uchel ein llef,
I lawr ar ein gliniau, ni roddwn bob pryd
'R anrhydedd a'r gallu i Iachawdwr y byd.

3 'Doedd neb ar y ddaear, na neb yn y nef,
Oedd deilwng i ddattod y feliau ond ef:
Agorodd y llyfr (oedd gauad) â'i waed,
Ni ddaethom i ddarllen holl gwnfel ein Tad.

4 Mae mur y gwahaniaeth ? fe rwygwyd y llen,
Oedd rhyngom a'n Harglwydd o'r ddaear i'r nen:
Ni welwn yn amlwg trwy rinwedd ei waed,
Y *Shecina* ddifglair wynebpryd ein Tad.

5 Ni welwn ein caru (O gariad mor ddrud !)
Ynghwnfel y Drindod cyn fefliad y byd:
Ni welwn gyfammod yn gadarn a wnaed,
Draw yn nhragwyddoldeb rhwng Iesu a'n Tad.

6 Ni welwn faddeuant ar fynwes ein Duw,
A heddwch diddiwedd (O rhyfedd ei ryw !)
Y nef yn agored, a groefo i ni fry,
Wel, dyma'r dirgelion ddatguddiwyd i ni.

7 Ni welwn yn amlwg daw pechod i lawr,
Trôdd Iesu ei arfau yn ei erbyn e 'nawr:
Pob trefn rhagluniaeth fy'n erbyn y ddraig,
Mae'r nefoedd a'r ddaear o ochr y wraig.

8 Diolchwn i'r Iesu gael gweled y dydd,
Y cododd goleuni i'n gollwng yn rhydd
O'r dwfn garchardy, i *Galfari* fry,
I wel'd y gogoniant yn *Seion* y fy.

---

## HYMN CXXXIX. *Y Chwechfed Ran.*

1 MAE'n bryd i ni ganu, ni gawfom y fraint,
Mae'r rhyfel yn cerdded o ochor y faint;
Mae'n Brenhin ni'n dyfod â'i gledde ar ei glun,
Fe fathrodd y gwinwryf bob gronyn ei hun.

2 Mae ddillad yn gochion, llychwinwyd â gwaed,
Fe gwympodd gelynion yn fyrdd dan ein traed;
Fe rwygodd gwlad *Edom* (diolchwn i'n Duw,)
Ni safiff un gelyn yn *Edom* yn fyw.

3 Nid gallu angylion, na gallu un dyn,
Goncwerodd y gelyn, ond ei allu ef ei hun;
Fe 'nillodd ogoniant, anrhydedd mor gref,
Mae canu am dano mewn daear a nef.

4 Fe ddarfu eu blinder a'u gofid i gyd,
F' anghofiwyd ymdrechu'n rhyfeloedd y byd;
Fe basiodd eu gaia', newidiwyd yr hin,
Ynawr maent yn canu a charu bob un.

5 Ni chlywir dim ochain, gan angel na faint,
Ond pur orfoleddu (ond braf yw eu braint!)
Rhyfeddu'r *Meffia*, JEHOFAH yn ddyn,
A chraffu eu llygaid ar IESU bob un.

---

## HYMN CXL.

CRIST *pob peth mewn Profedigaeth.*

1 O IESU'r Brenhin mwya' ei fraint,
Unig hyfrydwch yr holl faint;
Holl obaith, nerth, a noddfa glyd.
Dy ddefaid gwirion yn y byd.

2 O edrych rhwng y fer i lawr,
I eitha dyfnder moroedd mawr,
Yno cai wel'd fy yfpryd gwan,
Yn griddfan yn y dyfna man.

3 I nofio i fynu'n fawr fy mryd,
Uwchlaw y ffrwd a'r tonnau i gyd;
Ymdrechu'n lân, ond ffaelu 'rwy',
Ac wrth ymdrechu'n foddi mwy.

4 'Rwi'n gweld mai nerth fy enaid gwan,
Yw bod yn llonydd yn y fan,
A gado'm IESU gario'n lân,
Y gwaith ddechreuodd yn y blaen.

5 Yn rhad rhaid it' roi'r cwbl im',
Ni feddai werth, na nerth, na grym ;
'Nol rhoddi, eilwaith trefnu'm gras
'Mhob brwydr cyn y 'nillwi'r maes.

6 Myrddiynau maith a gonc'raist ti,
O elynion hyll ar *Galfari* :
'R wy'n pwyso ar dy allu mawr,
'Roi f' holl elynion innau 'lawr.

---

## HYMN CXLI.

*Yn yr* ARGLWYDD *(medd un) y mae i mi Gyfiawnder a Nerth.*

1 FY unig gysur tan y ne'
Fod IESU 'n sefyll yn fy lle;
Cym'ryd fy meichiau bob yr un,
A'u rhoi hwy ar ei 'sgwyddau 'i hun.

2 Anfeidrol gryf ydyw dy fraich,
Dim pwys i ti, er maint fy maich ;
Gynt ar y groes dioddefaist lid,
A phwysau holl bechodau'r byd.

3 Nid wyf ond gwan, O na'd fi 'lawr,
Dan bob rhyw drallod fach a mawr ;
Mi bwysaf arnat, tr'o ynof chwyth,
Digon wyt ti, a digon byth.

4 Nerthaist dy blant, (O faint dy ras!)
Er gwanned oe'nt i gario'r maes ;
Pa faint yn llai a fydd dy rym,
Trwy estyn braich 'roi cymmorth im' ?

5 Fy ngharu wn'e'st er maint fy mai,
A'm galw o blith annuwiol rai ;
B'le dof fi bellach am iachâd,
A nerth i gonc'ro, ond at fy Nhad ?

## HYMN CXLII.

Crist *yn bob peth.* Col. iii. 11.

1 IESU yw'm Ffordd i'r nefol fyd,
Rhy wan yw'm dyledfwyddau 'gyd ;
'Nghyfiawnder eilwaith a fy ngrym,
Ti wyddoft feddai o honynt ddim.

2 'Rwi'n dewis Iesu a'i farwol glwy',
Yn Frawd a Phriod i mi mwy,
Ef yn Arweinydd, ef yn Ben,
I'm ledo o'r byd i'r nefoedd wen.

3 Wel dyma un, O d'wedwch b'le
Y ffeindir arall fel efe ?
A beru'n ffyddlon im' o hyd
Ym mhob rhyw drallod yn y byd.

4 'Does genny' mwy ddim tan y ne'
'Mddigryfu ynddo ond efe ;
Neb a ddiddana f' enaid trift,
Yn ei holl flinderau ond Iesu Grist.

5 Pwy wrendy riddfan f' enaid gwan ?
Pwy'm c'od o'm holl ofidiau i'r lan ?
Pwy garia'm baich fel Brenhin ne' ?
Pwy'm gydymdeimla fel efe ?

6 Wel, ynddo ymffroftia innau mwy :
Fy holl elynion, d'wedwch pwy
O ch cewri cedyrn, mawr eu rhi',
All glwyfo mwy f' Anwylyd i?

## HYMN CXLIII. *Yr Ail RAN.*

1 EF gododd yn ei erbyn ef,
Y ddaear, uffern, do a'r nef;
Ond fefyll wnaeth ein Prynwr drud,
Dan citha' llid y rhai'n i gyd.

2 Cyfyngder mwya'n Prynwr rhad,
Oedd colli gweled gwedd y Tad,
Pan lefodd ar ben *Calfari*,
" *Eli, lama sabachthani.*"

3 O feiau mawr, beth all'sech mwy
Nâ rhoddi i Frenhin nefoedd glwy' ?
Lladd'soch yr Oen ; fe droedd y rhod,
Mae dydd eich dial chwi yn d'od.

4 O dewch, rhyfeddwch rin ei waed,
Ro'i torf o elynion tan ein traed ;
Ei ddwyfol waed ddamsangodd griw,
A'i angau wnaeth fyrddiynau'n fyw.

5 Dirgelwch o anfeidrol ryw.
I'm Iesu farw, ac ynte'n Dduw ;
Mae plefer gan angylion nef,
Fyfyrio ar ei angau ef.

6 Dyma lle bydd fy nhrigfan i,
O fewn i glwyfau 'Mhrynwr cu ;
Y man na's tyrr euogrwydd trwy,
Y man na's mentra fatan mwy.

---

## HYMN CXLIV.

### Crist, *Eiriolwr yn y Nef.*

1 WRTH droi fy ngolwg yma 'lawr,
I gyrrau'r holl greadigaeth fawr,
Gwrthddrych ni wel fy enaid gwan,
Ond Iesu i bwyso arno'n rhan.

2 Dewisais ef, ac ef o hyd,
Dewisai mwy, tr'wi yn y byd ;
Can gwynfyd ddaeth i'm henaid tlawd,
Gael Brenhin nefoedd i mi'n Frawd.

3 'Nghysuron oll oddi wrtho dardd,
Mae'n Dad, mae'n Frawd, yn Briod hardd ;
F' Arweinydd llariaidd tu a thre',
F' Eiriolwr cyfiawn yn y ne'.

4 Fe garai bellach, tra fwy' byw,
'N fwy nâ'r creaduriaid o bob rhyw:
Er gwaetha' dae'r ac uffern drist,
F' Anwylyd i fydd Iesu Grist.

5 O pa'm yr wyt, fy enaid, clyw,
Am g'rwydro 'mhell oddi wrth fy Nuw;
Ni che's fath blefer tan y ne',
Ac gefais yn ei gariad e'.

6 Melus, fel manna 'r nefoedd fry,
Yw hyfryd hedd f' Anwylyd cu;
Mwynhad o'i gariad ef a'i ras,
Nâ'r diliau mel sy'n well ei flas.

---

## HYMN CXLV.

*Chwennych ein diofg,* 2 Cor. v. 4.

1 FY enaid athrist, Arglwydd, sy
'Noch'neidio tu a'r nefoedd fry;
Lluddedig, ar lewygu mae,
Yn griddfan am gael ei ryddhau.

2 Yn cyd-hiraethu, f'Arglwydd cu,
A'r rhai sy tan yr allor fry;
Fy ngweddi i fel 'r eiddynt hwy
Sy'n d'wedyd, "Tyr'd, nac oeda mwy."

3 Beth yw'r greadigaeth hebost ti,
Ond fel rhyw bydew tywyll du;
Na ffeindir cyfur ynddi 'maes,
O fer y nef i'r ddaear las.

4 Am hyn 'rwy'n blino ar y byd,
Ac ar ei wrthddrychiau gwag i gyd,
A blino aros ynddo'n hwy,
Am nad wi'n cael o'th gwmpni'n fwy.

5 'Rwi'n llawen etto, 'r amser mae
O awr i awr yn agoshau:
Yr amser hynny, gwyn fy myd,
Caf 'mado â'm cystuddiau gyd.

## HYMN CXLVI.

*Y Criſtion yn teimlo ei leſgedd.*

1 DUW gwel un gwan ymhlith y llu
S'au hwynebau tu a'r nefoedd fry
Am deithio 'mlaen i'r nefol ſyd,
Y lleſga o honynt oll i gyd.

2 Y gwanna wyf, a rheitta ei ddwyn
O'r defaid gwirion, ac o'r wyn;
A diau yw, mi aroſa 'n ol,
Oni chwyd y Bugail fi'n ei gôl.

3 Nid allaf gerdded cam ymlaen,
Trwy'm nerth fy hun, mi gwada'n lân;
'Nghyfiawnder a fy rheſwm ffol,
Sy'n hyttrach yn fy nghadw 'n ol.

4 Ffaelu fel hyn yr wyf fi 'nawr,
Fy arfau f' hun mi rhof i lawr,
Mi dreiais wneud i'm hunan les
Ganwaith, ac etto ronyn 'nes.

5 'Does enw foddia'm henaid triſt,
Ond enw hyfryd IESU GRIST:
Wel, dyma'r gwir, ni feddai'r un
Rhyw ddinas noddfa ond ti dy hun.

## HYMN CXLVII.

*Gwagedd y Byd.*

1 PWY bleſer dan y nen a gawn
All roddi im' ſodlonrwydd llawn?
Pan 'drychwi ar f' Anwylyd gwych,
Pob peth ſydd am y ſaela ei ddrych.

2 Rhyfedd mor wael yw'r pethau ſy,
Am ddenu'm ſerch o'r nefoedd fry;
Un gwen o eiddo'm Prynwr drud,
Sydd gan mil mwy nâ'r rhai'n i gyd.

3 Paham

3 Pa ham myfyria'm henaid drud
Ar gibau'r moch, pleserau'r byd ?
A gado'r llo pasgedig rhad,
A'r gloyw win yn nhŷ fy Nhad.

4 Ffarwel y sorod sy'n y byd,
A'm hen drigfannau oll i gyd ;
Tu ag adre' 'raf er dw'r a thân,
Mae swn fy mrodyr o fy mlaen.

5 F' Anwylyd Iesu aeth ymlaen,
'Nawr gyd â'r dorf fel tywod mân,
Yn gorphwys ar ddeheulaw Nhad,
Yn pledio'r iachawdwriaeth rad.

---

## HYMN CXLVIII.

*Na ofelwch dros Drannoeth.*

1 O Arglwydd, d'wed i mi pa lun,
Y gallai gario meichiau f' hun ?
Mawrion 'ynt hwy, ond fi sy wan ;
P'odd codai'r lleia' o'r rhai'n i'r lan ?

2 D' ysgwyddau di ddal beichiau mawr,
Arnynt mae'n hongian nef a llawr ;
Am hyn fy holl gystuddiau i yn un,
Gânt bwyso arnat ti dy hun.

3 Pa ham gofala'm henaid mwy ?
Na wna ; mi 'drycha' 'fynu, pwy
Yw'r hwn sy 'nawr yn entrych ne'
Yn trefnu'r cwbl yn fy lle.

4 Mae'r holl greadigaeth yn ei law,
Fe sy'n ei threfnu yma a thraw ;
I ddodi 'maes ei anfeidrol glod,
Mae pob rhyw drefn ag sy'n bôd.

5 O nertha f' enaid gwan ei ffydd,
Roi ofal arnat ti bob dydd,
Heb flino 'nghylch amseroedd draw,
Y rhai o bosib' byth ni ddaw.

6 Taw,

6 Taw, f' yspryd, paid a ch'rwydro'n hwy,
Oddi wrth yr hwn a'th gâr yn fwy
Nâ'r holl wrthddrychiau gwael i gyd
S'am lanw'm meddwl yn y byd.

## HYMN CXLIX.

*Y pennaf o Bechaduriaid.*

1 YR OEN a laddwyd ydyw rhan
A holl hyfrydwch f'enaid gwan:
Fy Mrawd a Mhriod fydd e mwy,
Ymhob cyfyngder elwi trwy.

2 A doed hi arnai fel y del,
M' ymffrostiaf ynddo byth heb gel;
Fu neb o feibion *Adda* 'rioed
A rhwymau mwy i ganu ei glod.

3 Pwy o honoch chwi gerubiaid pur,
Seraphiaid ac angylion gwir,
A gafodd y fath fraint a mi,
Trwy angau'r IESU ar *Galfari*.

4 Wel, bernwch, chwithau feintiau gyd,
Sy'n teithio tu a'r nefol fyd:
Mi'r dua' oll; ond 'nyled yw,
Moliannu mwy ar f' anwyl DDUW.

5 O barna dithau ddaear faith,
Sy'n dal cenhedloedd o bob iaith,
Neb arnat' fu, neu arnat' fy
Mwy rhwym i ddiolch nâ myfi.

## HYMN CL.

*Fy Anwylyd sydd im' yn Bwysi myrr*, Can. i. 13.

1 TRA gallwyf byth anadlu a byw,
Moliannu wnaf fy IESU gwiw;
O eitha'r nef i uffern drist,
Neb i mi erioed fel IESU GRIST.

2 Pan byddwi'n gorwedd tan fy maich,
Heb neb i'm helpu i'r lan â'i fraich,
Wel, dyma'r pryd f' Anwylyd mae
Yn arfer hoffi trugarhau.

3 Pryd hyn 'rwy'n caru IESU'm DUW,
Uwchlaw'r creaduriaid o bob rhyw;
A'm calon fach oll trwyddi'n wir
Yn llofgi megis marwor pur.

4 Ni phrofais ddim o tan y ne',
Mor felus ag yw gariad e';
Mi wn, na ffeindir dim i maes
Trwy'r nefoedd fry bereiddiach blâs.

5 Geiriau i ddatguddio ofer yw
Beth yw melufdra hedd fy NUW:
Pe dywedwn cyd fai ynnof chwyth,
Melufach yw nag dwedwn byth.

6 Rhagori ar ddeng-mil mae ei wedd;
'Rwi'n llawn-fodloni ar ei hedd:
'Dwy'n 'mofyn plefer tan y ne'
Ond digon o'i gyfeillach e'.

---

## HYMN CLI.

*Golwg Ffydd.*

1 TRWY ffydd 'rwi'n gweld yn entrych nen
Fan hyfryd, ben fy fiwrneu,
Y delyn aur, a'r goron fry,
Trwy dywyll ddu gymmylau.

2 Mi wela draw dros fryniau pell,
Dragwyddol babell IESU,
A'r hyfryd wlad, y wlad gaf fi
Ar fyrder i feddiannu.

3 A'i bryniau fel paradwys ardd,
Yn flodau hardd a hyfryd,
A'i 'fonydd tawel, teg, diftwr,
Yn llifo o ddw'r y bywyd.

4 Pob rhan o honi, bryn a bro,
Sydd gyflawn o ddiddanwch ;
Dim ſon am ryfel, bai, na phla,
Ond byth didra dawelwch.

5 Ei dinas hardd o riſial ſy,
Neu wydr difrycheulyd ;
Pob twr, a mur o berlau drud,
Mae oll i gyd yn hyfryd.

---

## HYMN CLII.

*Golwg y Criſtion arno ei hun.*

1 PEchadur wyf, ie'r dua ei liw
O'r holl rai ſydd tan nefoedd Duw ;
A haeddai fod oddi wrth yr Oen,
Dan rym dy lid mewn eitha poen.

2 'Rwi'n gwel'd fy mhechod fel y gwlith,
Angylion nef ni's rhifant ſyth ;
Ond hawſach maddeu f' Arglwydd cun,
Nâ chenni ſaddeu im' fy hun.

3 'Rwy'n eon ; addefaf arnat, Naf,
I gredu fi bechadur caf
Wel'd hyfryd wedd dy wynebpryd,
'Nol pechu'm heinioes bron i gyd.

4 Ganwaith gwnes addunedau cry',
I rodio'n agos attat ti ;
Torrais y rhai'n, yr o'wn heb ble
Yn clwyfo'm Harglwydd yn y ne'.

5 'Dig'lonnais addunedu'n hwy,
Ac etto addunedu 'rwy' :
Mae f' addunedau'n dangos im'
Mai oneſt wyf, ond eiſiau grym.

6 Er mai aflan wyf, trwy'n enw di
O flaen y faingc mi ddof yn hy',
I geiſio tryſor nef yn rhad
Trwy glwyſau Mhriod gan fy Nhad.

## HYMN CLIII.

*Teimlad y Criſtion.*

1 FY mawl a'm holl ganiadau gyd
Gaiff, IESU, 'th ganmol tr'wi'n y byd;
F' Anwylyd wyt', dy hedd mor fawr,
Mil mwy nâ phleſer nef a llawr.

2 Fy myfyrdodau i'n ſelus mae,
A'm holl ofalon yn lleihau,
Pan byddwi'n profi'th gariad drud,
Yn ennyn fy ſerchiadau gyd.

3 Mae ngobaith gwan, ynghyd â'm ffydd,
Yn d' addewidion di bob dydd,
Yn rhoi meluſtra i fi fy hun,
Byth na ſynega calon dyn.

4 Tra fyddwy yn dy freichiau'n rhydd,
'Does meddwl gwibiog garia'r dydd,
Mae gallu gan dy gariad drud,
I gonc'ro fy mhechodau gyd.

5 Pan d'wedoſt air, yn union cawn
Lawenydd anhraethadwy iawn;
Dy lais a ddod fy enaid gwan,
A'th hedd a'm lleinw i bob rhan.

6 Pan byddo'n cuddio ei wyneb cu,
Mae'n gadael arwydd i myfi;
O fewn fy mynwes tyſtion mae,
Ac ſelly'm cyſur yn parhau.

7 O'i abſennoldeb pan bwyf fi,
Yn achwyn ac yn wylo'n lli',
Ni chaf fi leſain ſelly'n hir,
Ca' ſanna'r nef mewn apial dir.

8 Trwy heolydd *Seion* pan bwi'n myn'd,
Yn holi'r gwilwyr am fy Ffrynd;
Rhyw bleſer ſy 'mhob man a lle,
Yn unig wrth ei enwi e'.

HY

## HYMN CLIV.

*Ar yr un Ystyr.*

1 MAE arnai chwant, ti wyddost p'un,
Fy IESU da, fod yno'n un
O'r rhai sy'n gwel'd dy wyneb cu,
Uwchlaw'r ffurfafen risial fry.

2 Fy mhleser, er fy mod ymhell
Oddi wrthyt ti a'm cwmp'ni gwell,
Yw caru'th Berson gwridog gwyn,
Fu farw ar *Galfaria* fryn.

3 Teganau'r byd 'n rhy fychan sy,
I hanner llanw'm henaid cu;
Mae 'nghalon fach yn oeri o hyd,
Ar y gwrthddrychiau sy'n y byd.

4 Golwg o bell, a'r gynta 'gyd,
Yw'r orau ar deganau'r byd;
Ond wrth eu teimlo gweled cawn
Eu gwraidd o wenwyn marw'n llawn.

5 'Does Ffrynd i'w gael, angel na dyn,
Neb, IESU, ond tydi dy hun,
All arwain f' enaid i'n ddifraw
Trwy ddyffryn cysgod angau draw.

6 Wel, tyr'd, f' Anwylyd, tyr'd i lawr,
Rho'th gwmp'ni yn yr anial mawr;
Dwg heibio fi yn dy fynwes glud
I'r tanllyd seirph sy yma gyd.

## HYMN CLV.

*Adnabod yr* IESU.

1 'DWI'n 'nabod dim tu yma i'r bedd
Ond IESU yn ei ras a'i hedd;
Ni cheisia i 'nabod, tra fwi 'mhlith
Angylion Duw, ond IESU byth.

2 'Dwi'n profi mod i 'nawr ynglyn
Wrth ddaear, dw'r, na dâ, na dyn;
Rhyw olwg oer iawn a diflas,
S' ar bob peth tan yr awyr lâs.

3 'Does mel na gwin i'm henaid gwan
Yn y greadigaeth mewn un man;
Mi ddarfum yma, af ymhell
I 'mofyn am 'tifeddiaeth gwell.

4 Y perl y ge's, 'rwi wrtho ynglyn,
Ei fath ni fedd y nef ei hun:
O rhyfedd gwrthddrych nefoedd fry
Mewn rhwym priodas â myfi?

5 Ei ganmol bellach wnai o hyd,
Heb dewi mwy, trwi yn y byd:
Dechreuais gân a bery'n hwy
Nag y ceir diwedd arni mwy.

---

## HYMN CLVI.

*Rhosyn Saron*, Can. ii. 1.

P'ODD gallai'th ganmol, Iesu cu,
Am i ti'm dwyn o'r pydew du,
A rhoddi 'nhraed yn awr yn rhydd,
Ac oedd yn rhwym er's llawer dydd.

2 Fel rhosyn per, neu lili'r maes
Ymhlith y drain a'r mieri cas,
Felly mae tegwch d' wynebpryd
Ymhlith holl feibion *Adda* gyd.

3 Llyth'rennau d' enw, Iesu cu,
Fel diliau mel i'm henaid sy;
A'th wisgoedd yn arogli 'n wir,
Yn beraidd iawn o'r manna pur.

4 'Does bellach dim all sugno mryd
A welais etto yn y byd:
Wel dyma'r perl mi cara heb gel,
I dragwyddoldeb, doed a ddel.

5 A phlefer f' enaid bach yn awr
Yw caru fy Eiriolwr mawr,
Ni feddai mwy mewn dae'r na ne'
Un peth wy'n garu fel efe.

---

## HYMN CLVII.

*Hiraethu am ymddattod.*

1 O Hyfryd fan, y ddinas ber,
Bar'towyd i'r faint uwchlaw y fer!
Mae ei henw hi'n dodi chwant a blys
Ar f' enaid bach fynd yno ar frys.

2 Mae tragwyddoldeb ym mhob man,
Yn ennyn fel yn f' enaid gwan:
Mae'r gair ei hunan lawer pryd
Yn twymo fy ferchiadau gyd.

3 Och fi, na chawn i glywed llef
Archangel mawr o ganol nef;
A gweld yn dod fy Mhrynwr drud,
I farnu meibion *Adda* gyd.

4 Codwn fy mhen, llefwn yn glau,
Mae ngwaredigaeth yn nefau,
A'm iechydwriaeth werthfawr rad,
Yn gwawrio draw o dŷ fy Nhad.

5 Cofia dy faint, O IESU cu,
Sy 'n teithio ar y ddaear ddu;
A bryfia 'n ebrwydd dd'od i lawr
Roi'n traed yn rhydd o'r cyftudd mawr.

6 Mae'r hiraeth hyn, ti wyddoft p'un,
O fewn fy nghalon fach ynglyn;
A'm mynych lef tu a'r nefoedd wen
Yw, "Tyr'd, f' Anwylyd, tyr'd. AMEN!"

## HYMN CLVIII.

*Hiraeth am Fwynhad o* DDUW.

1 CYſtuddiau mawrion o bob rhyw,
Sy o fewn y byd 'rwi 'nawr yn byw;
Pan darffo un, daw'r llall yn glau,
Ac felly 'nghyſtudd i'n parhau.

2 Ond mwy nâ'm holl gyſtuddiau o'r bron,
Yw colli llewyrch d' wyneb llon;
Dy abſennoldeb, IESU cu,
'Nrhyw ddirfawr boen i'm henaid fy.

3 Gronyn o'th hedd a'th gariad drud
A ettyb fy nghyſtuddiau gyd;
Ond rhyfedd iawn y rhinwedd ſy
Mewn lleied gradd o'r nefoedd fry.

4 Nertha fi â'th hedd, portha fi â'th ras,
Nes myn'd yn lân o'r byd i mae's;
Bodloni wnaf, O ARGLWYDD glân,
I'm holl gyſtuddiau fawr a mân.

5 Nid ofnai'r gelyn gwycha ei wedd,
Nid ofnai angau, ni ofnai'r bedd,
Nid ofnai ddim ag ſy'n y byd,
Ond cael bod yn dy gôl o hyd.

## HYMN CLIX.

*Dioddefaint* CRIST.

1 RHyfedda hyd a lled, fy enaid triſt,
Uwchder a dyfnder maith marwolaeth CRIST;
Pan cym'rodd agwedd gwas, a phechod cas ei blant,
Trwy farw yn ddigwyn, i'w dwyn i bant.

2 Fe gymmerth arno'n cnawd, (O ein Brawd ni!)
Fe ſafai ar ben y bryn, gwnai yn erbyn llu,
Gan ſathru dan ein traed, trwy ei briod waed ei hun
Ellyllon, ar fyr dro, heb ado'r un.

3 F'aeth

3 F'aeth tan y gyfraith faith, hedd ddaeth i ni,
Mwy t'raned *Seinai* gaeth, beth waeth genni?
Mae'r llwybr idd i'w gôl, yn rhydd i'r nefol had,
Ni feder fatan ferth ddwyn werth ei waed.

4 Fe dalai lawr ar led, ein dyled ni,
Trwy ddiodde angeu ar ben *Calfari:*
A hyn o'i 'wyllys rydd, can's gwelai ddydd yn dod,
Cai 'lynion cry' a gwan lawr tan ei droed.

5 'Nol rhoddi'n Harglwydd hael yn wael ei wedd,
(Rhyfeddod mwya 'rioed) yngwaelod bedd;
Ond ar y trydydd dydd yn rhydd yr aeth efe;
Palmentodd lwybr gwych i entrych ne'.

6 'Nol gorphen ar ei waith i'r nef 'raeth ef,
Lle mae e' yr awr hon yn gwrando'n llef;
Yn eiriol drofom draw, ar fyrr fe ddaw'n rhyddhau;
Mae'r amfer ddydd a nos yn agoshau.

---

## HYMN CLX.

### Crist *Drws y Nefoedd.*

1 WRTH d' yftlys di, O Arglwydd cu,
Mae holl allweddau'r nefoedd fry,
'Chair porth agored yno i'r un,
Ond i'th gariadau di dy hun.

2 'Rw'innau'n teithio i'r bythol fyd,
Ni's gwn, na'r nefa wyf i gyd,
I bledio'n wyneb angau du,
Ni feddai enw ond tydi.

3 O agor byrth y ddinas bur,
Na ad fi guro yno yn hir;
A derbyn finnau mewn ymhlith
Y myrdd gaiff fod yn ddedwydd byth.

4 Beth bynna'm fwydd o fewn y ne';
Pwy bynna' radd; p'le bynna'm lle;
Yr holl hapusrwydd geifia fry
Cael cadw ngolwg arnat ti.

5 'Rwi'n rhoi fy enaid yn dy law,
Cofia fi yma, felly draw:
Rho i mi fôr o'th nefol hedd,
Tu yma a thu draw i'r bedd.

---

## HYMN CLXI.

### *DUW Tarian y Cristion.*

1 PAN byddwi 'nghanol rhyfel poeth,
Mae f' ARGLWYDD doeth yn union
Yn troi pob arf a saeth digoll
Yn erbyn f' holl elynion.

2 Ni's gwn pa fodd, fy serch f'ai tyn,
Wrth edrych yn ei wyneb;
Yn union sugno f' enaid wna
I babell tragwyddoldeb.

3 Y ddaear gron ynghyd a'i dâ
Sydd wagedd a ffolineb;
Mi gara mwy drysorau bra',
Sy 'nghadw'n nhragwyddoldeb.

---

## HYMN CLXII.

### *Gogoniant yr Arglwydd* IESU *yn y Nefoedd.*

1 MAE 'r lle sancteiddiolaf yn rhydd,
Fe rwygodd f' Anwylyd y llen,
'Fe yw haul y cyfiawnder y sy
Yn goleuo'r holl nefoedd uwchben:
Mae yno dyrfa anfeidrol o saint,
Ac etto ni wela mo'r un
'Mhlith 'ngylion, seraphiaid a saint,
Neb fel fy Anwylyd ei hun.

2 Mae'n eistedd ynghanol y llu
S'au rhifedi fel glaswellt y maes,
Yn helaeth yn rhoddi i bob un,
Ogoniant, a harddwch, a gras:

Fel

Fel haul yn yr wybren a fai
  Yn tywynnu ar fyrddiwn o fer,
A'i gwres, a'i goleuni ddim llai;
  Fel hyn mae gogoniant ein Ner.

3 Tu ag atto mae wyneb ei faint,
  Ma' oddiamgylch yn rhes ar ol rhes,
Cwmpeini aneirif o faint,
  Rhai 'mhellach oddi wrtho, rhai nes.
Difgleirdeb ein HARGLWYDD â 'mhellach,
  Mil pellach nâ'r haul yn ei rhod;
Fwynhau e mae'r pellaf yn well
  Nag allwyd amgyffred erioed.

4 'Does angel, na feraph, na faint,
  Byth yno'n difgleirio hono ei hun;
Pe ciliai f' Anwylyd i bant,
  Fe dywyllai, fe dduai pob un:
'Fe yw Afon y bywyd fy fry,
  'Fe yw'r Manna cuddiedig a drud,
Efe yw hyfrydwch y llu,
  Ie'm IESU yw'r nefoedd i gyd.

---

## HYMN CLXIII. *Yr Ail RAN.*

1 Y Goleuni fy'n ninas ein Duw,
  Sy tu hwnt i amgyffred un dyn;
'Does neb all ei weled a byw,
  Ond y dorf ogoneddus ei hun:
'Dyw grifial yngolwg yr haul,
  Neu wydr fai lawer mwy pur,
I lewyrch y nefoedd ddim ail,
  Fy IESU yw'r ffynnon yn wir.

2 Mae yno dri Pherfon yn bod,
  Ac etto un fylwedd ond un,
Gogyfuwch mewn gallu a chlod,
  I wared plant *Adda*'n gyttun;
Yn hyn rhyw ddyfnderoedd y fy
  Rhy fawrion i chwilio hwy 'mlaen,
Yn drech nâ hwynthwythau fy fry,
  I gwybod hwy allan yn lân.

3 'Does mesur amseroedd byth fry,
Dim oriau cyffelyb i'r byd;
Myn'd heibio rhyw oesoedd y sy,
Wrth ganu i'r Drindod ynghyd.
'R holl nefoedd, wrth weled ei ras,
Sy'n synnu, yn canu'n fwy hy',
Ganiadau newyddion eu blas;
Wel, dyma'r digryfwch sydd fry!

---

## HYMN CLXIV. *Y Drydedd RAN.*

1 ANgylion, Seraphiaid, a saint,
Wrth ganu'n soniarus ynghyd,
Eu hadsain sydd cyfuwch ei faint,
Mae'n crynu'r holl nefoedd i gyd:
Neb yno yn glaear ei gân,
Neb yno'n addoli mewn rhith,
A'u c'lonnau sy'n llosgi fel tân,
A gwynfyd a fai yn eu plith!

2 Caniadau newyddion sy fry;
Tebygwn o glywed eu llef:
Fy enaid blinedig i sy
Am ddysgu cerddoriaeth y nef.
'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,
A'r parch, a'r gogoniant, a'r bri,
Yr awr hon fel ag y bu 'rioed,
I'n HARGLWYDD yn un ac yn dri!

3 Pan gofiont eu dyddiau yn y byd,
A'r amryw demhestloedd o'r blaen,
Fe 'nynna eu hysprydoedd hwy 'gyd,
Yn fflammiau angerddol o dân;
Gwel'd eu IESU, er cymmaint eu bai,
Eu codi o bydew mor ddu,
P'odd gall eu calonnau hwy lai
Nâ seinio *Jerusalem* fry.

4 Pan gofiont drachefn y dydd,
Y galwyd hwy o'r tywyllwch i maes,

Daclowyd

Dacclowyd eu gefynnau hwy'n rhydd,
A'r carchar yn feinio, Rhad ras!
Pwy allai i beidio rhoi clod,
Tan olwg o rydd-did mor fawr?
Wel, dyma'r caniadau fy'n bod;
Gogoniant trwy'r nefoedd a'r llawr!

---

## HYMN CLXV. *Y Bedwaredd RAN.*

1 WRTH gofio dichellion y ddraig,
A'i maglau mor amal a'r dail,
Eu tannu yn erbyn y wraig,
A'u torri gan *Adda* yr ail:
A'i weled e 'nawr yn y ne',
A'r bradwr hen obry'n y llyn,
Hwy ganant nes dawnfio'r holl le;
B'le arall mae canu fel hyn?

2 Wrth gofio drachefn am hyn,
Ei glwyfau, a chwer'der ei loes,
A'i guro i *Galfari* fryn,
Ei eiriau diwedda' ar y groes;
Y ddaear, ac uffern, a'r bedd,
Ac angau, a'r gyfraith ynghyd,
I gwympo gan archoll ei gledd';
Bra' yw'r canu fy i Iachawdwr y byd.

3 Os ydyw rhai feintiau'n rhoi tro,
I wared i'r bydoedd is nen,
'Does byth myn'd o'u golwg a'u co'
Ogoniant eu HARGLWYDD uwchben;
Mae ef yn brefennol bob awr,
'Ddynt yma fel canol y ne';
Hwy gwelant mewn nefoedd a llawr
Mae'm IESU yn llanw pob lle.

---

## HYMN CLXVI. *Y Bummed R A N.*

1 RHAI yma canlynodd efe
Trwy'r ffauau, a'r fflammau'n ddigryn,

Rhai'n gynt a nofiasant i'r ne'
Mewn 'fonydd o'u twym waed eu hun;
Yn awr yn cael myned ymlaen.
Yn eon at orsedd yr Ion,
A chanu bob amser y maen'
Ganiadau newyddion yr Oen.

2 Ddaw syched, na newyn, na phoen,
Na gofid, na galar, na chlwy',
Nac anwyd yn nheml yr Ion,
Na gwres idd eu blino byth mwy.
Mae yno adenydd fy Ion,
Yn tannu fel nefoedd ar led,
Yn cuddio priodasferch yr Oen,
O f' enaid, i fynu ched'!

3 'Rwi'n teimlo arnai hiraeth a chwant
Wel'd mysgu f' holl deml o'i lle,
A hedeg yn union i bant,
Fel 'deryn i ganol y ne';
A neidio mewn yno i blith
Y dyrfa s' â'u gwisgoedd yn wyn,
A chanu i'm Harglwydd i byth,
Fu farw ar *Galfari* fryn.

---

## HYMN CLXVII.

*Yr wyf yn dyfod ar frys.*

1 YR amser bellach, O na bai
I'n Harglwydd ninnau ddyfod,
O'r nefoedd wen 'mhlith sanctaidd lu;
Caf finneu ei gyfarfod.

2 Pan dêl, daw'n ogoneddus iawn,
Yn gyflawn o ddisgleirdeb;
Tyr allan ei oleuni'n rhydd,
Oedd gudd er tragwyddoldeb.

3 'Dyw'r haul yn y ffurfafen serth,
Yngrym ei nerth yn tywynnu,
I harddwch ein Hanwylyd ni
Un gronyn i gymmaru.

4 Angylion

4 Angylion pur, rhif gwellt y maes,
Yn rhes o gwmpas Iesu,
A'u t'lynau aur a'u gwisgoedd gwyn,
Yn beraidd yn ei foli.

5 'Postolion, patriarchiaid fry,
Angylion dirifedi,
Mwrddiwnau o saint o'i gylch yn dro',
Mewn gwisgoedd o oleuni.

6 Pan gynta' codo'r seintiau eu pen,
A gwel'd y nen yn goleuo,
Chwarddant, a neidiant ar bob cam,
'Nhiraethu am fyn'd atto.

7 Pwy saint dristâ? nid ofna'r un
I gwrdd â'i Frenhin Iesu;
Hedd yn ei wyneb ef, nid llid:
O gwyn ei fyd sy'n credu!

---

## HYMN CLXVIII. *Yr Ail RAN.*

1 FE wridia'r awyr fry uwchben,
Cyn delo'r Capten Iesu;
Rhyw arwydd mawr o'r dwyrain draw
Ry gwys y daw i farnu.

2 Disgleiria wynebpryd pob sant,
Pan gynta gwelant Iesu.
Ond rhyfedd hyn! fe fydd pob un
Wrth wel'd ei hun yn synnu.

3 Corph hardd a gawn, corph fel efe,
All yn y ne' breswylio?
Ac all o'r ddae'r (ni's gwn pa fodd)
I entrych nefoedd neidio.

4 Wel, dyna'r pryd y cenir clod,
Na chlywd erioed ei gymmar;
ngylion a seraphiaid pur.
A'r seintiau yn un eu llafar.

5 Caniadau'r ſaint fydd gwaeddi, '*Nrbad*
*Iachawd ni 'ngwaed yr* Iesu :
Seraphiaid ettyb hwy fel hyn,
*'Rym ninnau yn rhyfeddu.*

---

HYMN CLXIX. *Y Drydedd RAN.*

1 PAN gwelont obry ſwg y byd
Yn codi hyd y nefoedd,
Y dorf a gân (O hyfryd foes!)
Ganiadau yn oes oeſoedd.

2 Canant, wrth feddwl nad rhaid byth,
Fyn'd etto i blith gelynion ;
Ond treulio ſabboth yn y ne',
'N ei gwmp'ni e' yn gyſon.

3 Wrth feddwl cânt hwy weled gwedd,
Ac yfed hedd yr Iesu,
I dragwyddoldeb yn ddidrai,
Pwy allai lai nâ'i garu ?

4 Ni 'mddengys haul, na lloer, na ſer,
Ddim oll yr amſer delo,
Fel llewyrch cannwyll ganol dydd
Eu goleu fydd yn cil'o.

5 Angel ry dro ynghylch y byd
I'n galw gyd i godi.
Fe wrendy'r meirw ar y wys,
Hwy ddont ar frys i fynu.

6 'Does angel, ſeraph, nac un ſaint,
Er cymmaint eu doethineb,
Mewn geiriau eglur i ni wna
Ddedwyddwch tragwyddoldeb.

---

HYMN CLXX.

*Hymn i Gymmanſa o Weinidogion.*

1 'RYM yn dy erfyn, Arglwydd mawr ;
Deſgyn o entrych nef i lawr,

'Rhyd

'Rhyd ysgol faith JEHOFAH'n ddyn,
'Roi bendith *Jacob* i bob un.

2 Fel ŵyn yn wirion gwna ni gyd
Ymhlith y bleiddiaid sy'n y byd;
Ac fel y seirph yn gyfrwys gall
I wel'd a dadrys rhwydau'r fall.

3 Gwel ni yn myn'd i maes i blith
Gelynion cryfion rif y gwlith;
O rho addewid i ni gyd
Y byddi o'n plaid hyd ddiwedd byd.

4 D'rostynged satan fawr ei nerth;
Fel mellten glau o'r nefoedd serth,
I lawr o'n blaen trwy d' allu cry',
Fel cofiom byth am danat ti.

5 Gad i ni dd'od i'r mynydd fry,
I'r cwmmwl goleu attat ti,
Fel y disgleirio'n hwynebpryd;
Nes synnu *Israel* oll i gyd.

6 Rho'r cleddyf disglair yn ein llaw,
A nerth i'w chwarae yma a thraw,
A rhoddi i'n gelynion glwy',
Fel ac na's safo gelyn mwy.

---

## HYMN CLXXI. *Yr Ail RAN.*

1 YM mylchau'r creigydd bydd o'n rhan,
I ddringo ar ein gliniau i'r lan,
A'n saethau gloywion ar ein clun,
Nes maeddu *Midian* bob yr un.

2 O deffro ni ar dorriad gwawr,
I gyhoeddi'r ffoadigaeth fawr;
I maes o'r tân sy'n dod yn lli'
I lawr am ben ein dinas ni.

3 Gwna ni fel halen â dy ras,
Yn wyn, yn beraidd iawn ei flas;
Yn foddion yn dy law o hyd,
I dynnu'r adflas s' ar y byd.

4 N'ad ni amcanu, n'ad ni wneud,
Na cheisio meddwl dim, na dweud,
Nac yn ddirgelaidd, nac ar g'oedd,
Yn unig ond fo wrth dy fodd.

5 Gwna fod d' ogoniant pur dilyth,
Yn nôd a diben i ni byth;
Dy fywyd hardd, a'th eiriau gwir'
Yn wastad i ni'n 'rheol bur.

## HYMN CLXXII. *Y Drydedd RAN.*

1 O Dena'n ferch oddi yma gyd,
Fel gwir ddieithriaid yn y byd;
O fan i fan i deithio'n hy'
Bob pryd ar ol d' orch'mynion di.

2 Doed gogledd, de', a'r dwyrain bell
I glywed y newyddion gwell:
Aed fwn d' efengyl, Iesu maes
Yn gylch o ddautu'r ddaear lâs.

3 Mynydd'r *Olewydd* hyllt yn frau,
Ac yn ei ganol rhan e'n 'ddau;
Gwna ddyffryn mawr, fel delo 'mla'n
Y C'nhedloedd i *Gaersalem* lân.

4 O doed i ben, hwnnw yw'r dydd
Nid goleu ac nid tywyll fydd;
Nid dydd, nid nos, a Duw a'i gwyr,
Pan tardd goleuni yn yr hwyr.

## HYMN CLXXIII.

*Fy Anwylyd sydd wyn a gwridog.*

1 O Na chawn eiriau bra' o'u bron
I ganmol grasson Iesu!
'Chair ar y ddae'r, neu 'fewn i'r ne'
Neb iddo fe i gymmaru.

2 Pe bai doethineb ſeintiau fry,
A'r 'ngylion dirifedi,
Pell raddau'n brin 'ynt oll yn un,
Doethineb ei hun yw'r IESU.

3 Mwy ei nerth nâ'r lluoedd fry i gyd;
Mae'n cadw'r byd rhag cwympo:
Mae'n DDUW, ar ei allu nid oes ſeth,
Fe wnaiff y peth a fynno.

4 Y nefoedd wen, a'r ddaear wael,
Sy oddi wrtho'n cael diſgleirdeb,
Yn ei oleuni ef llewyrchu wna,
Y ſeintiau i dragwyddoldeb.

5 Fel afon faith ry ei dw'r i ma's,
Tros wyneb gwyrddlas ddolau;
Mae IESU a chyfoeth mawr ei ras,
Yn ſoddi'n hatgas feiau.

6 Pan gwelo'r *Indiaid* draw ei wedd,
A phrofi ei hedd a'i gariad,
Dont yn fintioedd atto'n hy',
Efe fydd eu dymuniad.

7 Pwy na ddoi wel'd o eitha' byd,
Ei degwch pryd a'i fwynder?
Pe myrddiwn ddoi, hwy ddwedent hyn,
"Ni's dwedpwyd i ni'r hanner."

---

## HYMN CLXXIV. *Yr Ail RAN.*

1 HARDD yn ei Dduwdod yw efe,
Mae'n llanw ne' a daear:
Hardd yn ei ddyndod, n'fu mewn Oes,
Neu 'nawr nid oes o'i gymmar.

2 Hardd yn ei ddoniau o aneirif ryw,
A'i ſwyddau yw f' Anwylyd;
O *Galfar'* i *Gethſeman'* ardd
Mae e' oll yn hardd a hyfryd.

3 Myrdd-

3 Myrddiynau a losgwyd (braf eu rhan!)
Yn ulw gan elynion :
Myrddiynau mwy ddioddef'sai ar g'oedd,
Gan hardded oedd ei Berson.

4 Ni welwn degwch yn ein Duw,
Dan boenau o'r rhyw eitha' ;
Yn dêg ei bryd pan crymmai ei ben,
Wrth farw ar ben *Calsaria*.

---

## HYMN CLXXV. *Y Drydedd* RAN.

1 PERL *India* bell, aur o *Beru*,
Gwell trysor yw ei gariad,
Y rhai dihangol yma a fry,
Efe yw eu dymuniad.

2 Gorllewin bell ddaw ar ei ol,
I'w ganmol a'i ryfeddu,
Ym mrig yr hwyr am brofi blas
Y gwin sy'n nheyrnas Iesu.

3 Morwynion saith â'u bara a'u dw'r,
Ddaw at y gwr o *Iudde'*,
I weled gwedd ei wyneb gwyn,
A 'maflyd yn ei odre'.

4 Y lluoedd fry iddo o'r un fryd,
Sy'n canu 'gyd yn gyngân :
Calonnau pawb o fewn y ne'
Sy arno fe ei hunan.

5 Ni welai neb mewn lle na man,
Y filfed ran yn haeddu ;
O'r ddaear fawr i'r nefoedd fry,
I'm Harglwydd i gymmaru.

## HYMN CLXXVI.

*Hymnau Sacramentaidd.*

1 WEL, dyma wledd, gwledd ein Duw Ion,
O basgedigion breision,
A gwin puredig yn ddidrai
I lawenhau y cleifion.

2 Ond gwledd yw hon gyfoethog hael?
'Does diwedd gael mohoni:
O pwy n'anturia 'mlaen yn rhwydd,
I wledd yr ARGLWYDD IESU.

3 Yfwn yn eon îs y nen,
Ffrwyth y winwydden heddy':
Ar fyrder ni gawn brofi ei blas
O fewn i deyrnas IESU.

4 Bwyttewch yn helaeth yn ei dŷ,
Mae ef i ni yn perthyn;
Yfwch i dre', p'am byddech fych?
Cyfeillion 'ych i'r Brenhin.

5 Os claf, os gwan, os tlawd o hedd,
O dewch i'r wledd yn fuan;
Dewch â'ch achwynion o bob rhyw,
Fe'u hettyb Duw ei hunan.

## HYMN CLXXVII. *Yr Ail RAN.*

1 YMA cewch wel'd eich HARGLWYDD mawr,
Yn rhoddi lawr yn hollol
Ei hun i angau, angau'r groes,
Yn ddiddig tros ei bobol.

2 Yma cawn wel'd ein HARGLWYDD cun,
Neb wrth ei glyn; fe hunan
Yn chwyfu'r gwaed (b'le bu'r fath ras?)
Ynghanol maes *Gethseman*.

3 Cawn fwytta ei gnawd (wel, dyna rad !)
Ac yfed gwaed yr IESU :
P'odd gall ein c'lonnau ni bob rhai
'N dragywydd lai nâ'i garu ?

4 Mi gofia eiriau'm HARGLWYDD hael,
'Prydnhawn cyn cael ei hoelio :
I fwytta ei fwpper minnau ddof
Ymlaen er cof am dano.

## HYMN CLXXVIII. *Esa.* ix. 6.

1 BACHGEN a aned ; Mab ro'wd in' ;
Ei enw fy'n rhyfeddol :
Ar ei yfgwydd ef llywodraeth ga'd,
Duw cadarn, Tad tragwyddol.

2 Chwilio ei Berfon hardd a'i waith,
Sy'n orchwyl maith anfeidrol ;
A gelwir yma, ac yn y ne'
Ei enw e'n Rhyfeddol.

3 Dehonglwch hyn, ddyfgedig ra ;
Rhyfeddu mae'r Cenhedloedd
P'odd gall'fai *Mair* ei gynnwys ef
Na chynnwys nef y nefodd.

4 Duw mawr, Creawdwr dw'r a thir,
I gael ei wir genhedlu
Gan forwyn wnaethpwyd ganddo ei hun ;
Fy enaid fy'n rhyfeddu !

5 Mae holl ddoethineb Duw ynghyd
Yn cwrddid yn ei Berfon :
Nid rhyfedd bod myrddiwnau'r nef
Yn ei foli ef yn gyfon.

6 'Roedd doniau ein Duw i gyd fel môr
Dygyfor, heb eu rhifo ;
Gynt oll ynghudd, ond yr awr hyn
Trwy'r IESU yn difgleirio.

## HYMN CLXXIX. *Yr Ail RAN.*

1 MAE'r Tad a'r Yſpryd ynddo'n un;
(Ond rhyfedd rin ei boenau)
Duw ar y nef ac uffern goll,
Y byd a'i holl wrthddrychiau.

2 Rhyfeddol yn ei ras a'i air,
A'i Yſpryd cair yr Iesu;
A'i ordinhadau pur diſai
Yn waſtad mae i ryfeddu.

3 Cuddiwyd e'n hir (pa ham fath rodd?)
Rai miloedd o flynyddau:
Rhyfeddol p'am cyhoeddwyd ef,
Trwy'r ddae'r a'r nef i ninnau?

4 Mi wela ddyn ynghrog ar bren,
Yn crymmu ei ben i wared;
Fy Nuw yw ef; caned y byd
Ganiadau o gydgynghanedd.

5 Philoſophyddion y dwyren,
Ganlynai'r ſeren heini,
A'u thus, a'u myrr, aur melyn pur,
Yn ddiſyr i addoli.

6 Er maint eu dyſg, 'chlywſant erioed
Fath beth i ſod a hynny,
Baban mewn preſeb, gwael y lle,
Yn dal y ne' i ſynu.

## HYMN CLXXX. *Y Drydedd RAN.*

1 P'ODD aeth ein Duw, yr haulwen dêg,
Yn ol hyd ddeg o raddau
I agwedd gwas (O gariad bra'!)
Cynefin â doluriau?

2 Yr

2 Yr Hen Ddihenydd yn ddyn gwan,
Mewn prefeb tan ei rwymau:
Y gair tragwyddol ar lin *Mair*,
Heb fedru gair o'i enau.

3 Pe y meddyliwn filiwn faith
O oefoedd ac aeth heibio,
Pryd hynny cawn ei weled e'
O fewn y ne'n difgleirio.

4 Er creu'r nefoedd faith o ddim,
Trwy allu a grym ei fawredd,
A chadw rhai'n rhag mynd ar feth,
'Dyw hyn yn beth mor rhyfedd.

5 Er d'od â'r meirw bob yr un,
A'u cyrph eu hun i fynu,
Yn hyn 'dyw gallu'r nefoedd fry
Ddim cymmaint i ryfeddu.

6 'Dyw gwaith y ddae'r neu 'r nefoedd fry,
Er bod hwy'n ddirifedi,
I'r pethau ym Mherfon Iesu fy,
Un gronyn i gymmaru.

---

## HYMN CLXXXI.

*Marwolaeth, Adgyfodiad, ac Efgyniad* Crist.

1 'R Haul guddiodd ei wyneb, pan grymmodd ei ben,
Agorodd y beddau, fe dduodd y nen;
Fe ofnodd y ddaear, hi grynodd yn wir,
Wrth wel'd ei Chreawdwr tan hoelion o ddur.

2 Fe gododd y meirw, fe rwygwyd y llen,
Yn dangos bod heddwch trwy'r nefoedd uwchben;
Duw guddiodd ei wyneb (ond chwerw y loes)
A'r Mab yn diodde' ei hoelio ar y groes.

3 Fel *Jofeph* i garchar, neu *Jonah* i'r môr,
Y rhoddwyd Etifedd y nefoedd a'i 'ftor
I wared i'r ddaear; ond Duw oedd efe;
Fe gododd i fynu i ganol y ne'.

HYMN

## HYMN CLXXXII. *Yr Ail RAN.*

1 DOedd neb yn y nefoedd, na neb ar y llawr,
All'ſai ofyn dim dyled i'n HARGLWYDD yn
Pan dalodd y cwbl, pan groeſwyd y ſwm, [awr.
P'odd gall'ſai ei ofynwyr ei gadw e 'nghlwm ?

2 Fe grynodd y ceidwaid, cwympaſant i lawr,
P'odd gall'ſent hwy edrych diſgleirdeb mor fawr ?
Y weithred oedd ynfyd roi dyn ag ſydd wan,
I rwyſtro Creawdwr y ddaear i'r lan.

3 Wel, ſaint, gorfoleddwch ; fe gafodd y dydd;
Fe rwymwyd ei ddyndod, ei Dduwdod oedd rydd.
Mae ſaint ef yn dyſtion (gwirionedd mawr yw)
I'n HARGLWYDD adg'odi o farw i fyw.

4 Ond rhyfedd orfoledd pan 'ſgynnodd yr OEN,
I ganol y nefoedd o'i lafur a'i boen ;
Wnai ſaint na cherubiaid na'r thronau bob rhai
Ond ſynnu a charu, a gwir lawenhau.

5 Fe ganodd hen ſeintiau ddiangodd o'r byd,
Yn diſgwyl cael gweled eu HARGLWYDD o hyd,
Ynghyd â'r ſeraphiaid, a'r 'ngylion fath glod,
Mewn newydd ganiadau na chlywyd erioed.

6 Cawn ninnau adg'odi ar dorriad y dydd,
Lladd ceidwad y carchar, a'n gollwng yn rhydd,
A'n cym'ryd i fynu o'r ddaear i'r ne'
Yngolwg angylion, fel ag y ca's e'.

## HYMN CLXXXIII.

*Gweddi am Heddwch* DUW.

1 BETH ydwyf fi ? 'doedd genni' ond ffon,
Yn myn'd tros yr *Iorddonen* hon :
Yr awr hon mae fy enaid gwan,
Yn cleimio f' ARGLWYDD i mi'n rhan.

2 Pan 'drychwi 'mewn, ni feddai ddim,
Ti yw fy heddwch i a ngrym ;
Ac arnat ti 'rwi'n rhoi fy mryd,
I lanw nghalon oll i gyd.

3 Dof wrth dy borth ; a thyna'r fan
Y safaf, nes y'm dwyn i'r lan.
O atteb Ior mi goda'm llef,
Nes feinio holl drigfannau'r nef.

4 Newynog wyf, a hedd fy Nuw
Wnaiff i mi ddwedyd, " Digon yw."
Wel, dyma'r dw'r, a gwynfyd hwy
Y fawl a'i hyf, ni fych'ant mwy.

5 Pe cawn dy hedd, a'th gariad drud,
Y fawl a fynne caed y byd.
'Dyw hwn ond dom ; ond mae dy ras
Yn fwy nâ'r perlau drytta 'maes.

---

## HYMN CLXXXIV.

### *Dioddefaint* CRIST.

1 FY enaid, gwel i *Galfari*,
Y poen angerddol yno fu,
Torfeydd dirif, â'u harfau 'nghyd,
Am gongc'ro bywyd mawr y byd.

2 Holl deyrnas fatan fawr ei grym,
Pob ellyll du â'i araf llym,
Llid a chynddaredd cryf o'r trwch,
Rhag i'w hawdurdod fyn'd i'r llwch.

3 Pechodau dynol-ryw o'r bron,
Gafglodd ynghyd y funud hon,
A bwyfodd arno'n dorf ddiri',
Nes iddo chwyfu'r gwaed yn lli'.

4 A llid difefur nefoedd fry,
Yn gwafgu ar ei enaid cu ;
Mil mwy ei bwyfau oedd ei bwn,
Nâ bryniau'r byd, pe 'gyd yn blwm.

5 A rhai'n a ruthrodd arno'n llu,
Fel c'nifer torf o elynion cry',
Yn curo yspryd f' ARGLWYDD cun,
Heb ddim trugaredd yn yr un.

6 Etto er cyngrair dae'r a nen,
A lladd fy ARGLWYDD ar y pren,
Ond felly 'speiliwyd uffern fawr,
Ac felly tynnwyd nef i lawr.

---

## HYMN CLXXXV.

*Gelwir ei Enw ef Rhyfeddol.*

1 EDrychwch draw ar Frenhin hedd,
Yngwaelod bedd yn gorwedd ;
Rhyfeddod bellach yn y byd,
Na welir hyd y diwedd.

2 Ond rhyfedd iddo grymmu ei ben,
Fry ar y pren diodde' ?
Rhyfeddol pan rodd' lef, "Fy Nhad,
O maddeu 'n rhad eu beiau !"

3 Yn cynnal y greadigaeth faith,
A threfnu gwaith ei fysedd,
Yn rhwym tan hoelion ar y groes,
Yn diodde' tros ein camwedd.

4 Angylion nef yn rhyfedd fynn
Sy'n edrych yn ei glwyfau,
Yn fugno eu dysg bob awr uwch nen
Oddi wrth y pren diodde'.

5 B'le bugail aeth tan angau loes ?
A hynny tros ei ddefaid ;
A myn'd i waelod bedd tros dro,
I'w gwared o gaethiwed.

6 Crynhowch y doethion oll ynghyd
S' o fewn y byd yn trigo,
Beth mwy rhyfeddod glywsoch chwi
Nî'm Duw gael ei groeshoelio ?

 HYMN

## HYMN CLXXXVI.

*Buddugoliaeth CRIST.*

1 GWEL draw fy Mrenhin ar y pren,
Yn niwedd dydd yn crymmu ei ben:
Poen angau mwy nâ buasai 'nghyd
Ddioddefaint holl ferthyron byd.

2 Wel, angau'r groes, dy waetha mwy,
I Ben y bobloedd rhoddaist glwy;
Cododd i'r lan; fe gôd i'r nef
Fyrddiynau trwy ei adg'odiad ef.

3 Os hoeliwyd ef unwaith ar bren;
Os gorfu arno grymmu ei ben;
'Tros f' enaid i bu hyn i gyd,
Mi gofia ei boenau tr'wy yn y byd.

4 'Does golwg harddach ddydd na nos
Nâ'm Iesu'n hongian ar y groes;
Y dwylo a hoeliwyd ar y pren
Ar fyr a egyr ddrws y nen.

5 Tebygwn mod i'n gwel'd ei waed,
Yn llifo'n goch o'i ben i'w draed;
Fy nghalon, p'am na's torri'n friw?
Fy Mhriod oedd efe a'm Duw.

6 Ei boenau gofir gan fy Nhad,
Ni chollir un o ddafnau ei waed:
Mae llid yn aros, cwymp ryw ddydd
Ar rai'n elynion iddo fydd.

## HYMN CLXXXVII.

1 FY enaid gwel dy Brynwr mawr,
A'i freichiau ar led rhwng nef a llawr,
Creawdwr nef yn prynu dyn,
Sef prynu gwaith ei ddwylo ei hun.

2 Pwy

2 Pwy ddynion bwyai'r hoelion main?
Pwy wiſgai'm Duw â choron ddrain?
Edrych i'r lan, ſy enaid triſt,
Gwel waywffon dan fron dy Grist.

3 Oedd unrhyw angau, f' Arglwydd mwyn,
D'wed ac oedd hawſach i ti ddwyn?
Oedd unrhyw angau dalai'r iawn
Ond hoelio, am ſy meiau'n llawn?

4 Oedd dim a wnaethai fodd ſy Nhad,
Ond gwiſgo drain, a cholli gwaed?
A oedd rhaid marw, a marw'n lân,
Cyn maddeu 'meiau fawr a mân?

5 Ai felly 'r oedd dy arfaeth faith?
Oedd neb i'th helpu yn y gwaith?
Sathrodd y gwinwryf coch ei hun,
Ac yn ei helpu nid oedd dyn.

6 Fe ddarſu ei wae, dihangodd Ner,
I'r b'radwys ddiſglair uwch y ſer:
Ei goron ca's, 'nawr ddydd a nos
Mae'n medi ffrwyth cyſtuddiau'r groes.

---

## HYMN CLXXXVIII.

1 GWEL f' enaid Iesu ar y pren,
Yn gaeth gan angau'n crymmu ei ben;
Angau'r carcharor laddodd ef,
Ac eſgyn wnaeth i ganol nef.

2 Pwy all'ſai hoelio ei ddwylo a'i draed?
A olchwyd hwythau yn ei waed?
Rhodd' rhai o'th frodyr i ti glwy',
'Does meſur ar dy gariad mwy.

3 O dyſg fi ddilyn ol dy dro'd,
Trwy bob rhyw groeſau ac ſo'n bod,
Ac yſed hefyd yn ddigryn,
O'r cwppan yſaiſt ti dy hun.

4 'Rwy'n ofni'r groes, ac ma' arnai chwant,
O tyn fy ofn, Iesu, 'bant;
N'ad fi i chwennych, ond os daw
Rho i mi'n fuan help dy law.

5 P'am gwelai'n galed i mi ddwyn
Croes gariodd Iesu er fy mwyn?
Nid trosto ei hun, ond troswyf fi,
Y congc'rodd ef ar *Galfari.*

## HYMN CLXXXIX.

*Am Rydd-did o Gaethiwed.*

1 YN dy gyfammod mae'n fy ngho'
Fod miloedd o 'ddewidion,
Oll yn cyhoeddi llwyr iachad
Trwy rin dy waed i'r cleifion.

2 'Rwi'n gwaeddi wrth dy borth yn ewn
Am dd'od i mewn i wledda;
Nid bodlon wyf i fod tu faes
I gaerau'r ddinas noddfa.

3 Agor y môr, gwna'r ffordd yn rhydd
I weled dydd y rhydd-did,
A chael teyrnasu cyn bo hir,
Yngwledydd yr addewid.

4 Dwg fi i *Nebo* fry i'r lan
I wel'd y man cai drigo;
Oddi yno dwg fi 'mlaen bob cam,
'Rwy'n brefu am fyn'd yno.

5 Ar bechu f' enaid blino mae,
Gwynfyd a gai ymwared!
Gwel'd diftryw fy ngelynion oll,
Darfyddai'm holl gaethiwed.

6 Difgwyl yr wyf, a hyn bob cam,
Fel gwilwyr am y borau;
I brofi cryfder braich dy ras
I'm tynnu maes o'm beiau.

## HYMN CXC. *Yr Ail RAN.*

1 O'R b'radwys fry doed dw'r i maes,
Fel afon lâs yn gyson,
A threulio'm bywyd wrth ei chlun;
Tydi dy hun yw'r afon.

2 O ddyfroedd *Mara* chwerwon iawn,
Ti wyddost llawn yw'm phiol;
Rho ynddi'n fuan ddail y pren
Sydd uwch y nen yn eiriol.

3 Agor y creigydd mawrion serth,
'Nawr trwy dy nerth yn eiriol,
I gaethion *Gosen* dd'od bob gwr,
At ddw'r rhedegog bywiol.

4 Brenhinoedd *Canaan* dod i lawr,
Sy'n bostio eu mawr awdurdod;
Nac arbed un, ond taro'n ddwys
Fel profont bwys dy ddyrnod.

5 Helpa fy ffydd, 'rwy'n teimlo gang
O filwyr anghrediniol,
A drygau eraill o bob gradd,
'Nawr am fy lladd yn hollol.

6 Ynghanol môr bydd di o'm blaen,
Yn gwmmwl tân diniwaid;
Yn fryn o dywyllwch tew fel mur,
Rhyngwi a thir yr *Aiphtiaid.*

7 Pan byddwi gan elynion llym,
Yn profi grym gwrthwyneb,
O gylch fy mhabell tywynna o'r ne'
Dy hyfryd bresennoldeb.

## HYMN CXCI.

*Gweddi am Gyflawniad o Addewidion.*

1 O Moes dy law, 'r *Iorddonen* mae
Yn pledio 'dai ddim trwyddi;

Wrth

Wrth wel'd y dyfnder fy'n y dw'r
'Rwy'n ofni'n fiwr o foddi.

2 O fewn dy air d'wedaift yn llyn
(Dy air fydd yn wirionedd)
Mai Iesu wyt', y caem ryw ddydd
I fyn'd yn rhydd o'n camwedd.

3 Dywedaift na chai neb o dy blant
Eu dwyn i bant o'th ddwylo;
Cedwit' y rhei'ny oll rhag brad
Ro'wd gan y Tad i'w fafio.

4 Dywedaift iacheit' trwy rym dy ras
Ein hatgas wrthgiliadau;
Cerit' ni'n rhad, diffoddwyd llid,
Er maint eu gyd yw'n beiau.

5 Cyflawna rhai'n yn awr mewn pryd,
'Rwy'n ceifio o hyd i'w credu,
A'u cymhwyfo at fy hun a wnawn,
Ond f' enaid cawn yn pallu.

6 Dy ddyfroedd gloyw fy arnai chwant,
Mae'n tynnu bant ofidiau;
A'r hwn a yfo o waed yr Oen,
Ni theimla boen cyftuddiau.

7 Mi bwyfaf arnat' etto 'n nes;
Pwy les im' ddigalonni?
Dy faith drugaredd di erioed
Nid oes dim darfod arni.

---

## HYMN CXCII.

*Gweddi tan Deimlad o Wrthgiliad.*

1 DYMA fi, ARGLWYDD, wrth dy draed,
Yn teimlo'r eifiau o rin dy waed:
Yr wyf yn dlawd, a phwy a wyr
Ond ti dy hun fy eifiau'n llwyr?

2 O pechod, p'am y'm twylli'n llyn ?
Beth wyt ti'n well o wneuthur hyn ?
Er maint dy ſwn, gwirionedd yw,
Nid ti yw'm ffrynd, fy ffrynd yw Duw.

3 O Iesu, fy Eiriolwr mawr,
Gad i mi gael fy meiau 'lawr ;
D'wed p'am wyt' cyd yn ſefyll draw ?
'Bryd gwelwyd mwy o eiſiau'th law ?

4 Claf wyf am deimlo gwaed yr Oen,
Yn rhodio beunydd mewn rhyw boen ;
'Does unryw eli roiff iachad,
Yn unig, Iesu, ond dy waed.

---

## HYMN CXCIII.

*Y Goron Ddrain.*

1 COronwyd, do, Iachawdwr byd
Gan ſwrddwyr ffyrnig oll i gyd,
A drain plethedig, dyma'r bri,
Fy enaid, ga's dy Brynwr cu.

2 O edrych ar dy Frenhin glân,
Fy nghalon, tor yn ddrylliau mân ;
Gwel waſgu lawr y pigau drain,
A'r gwaed yn ffrydio'r ol y rhai'n.

3 Ai Brenhin yw ? Ie brenhin byd,
Uffern, a'r nefoedd wen i gyd ;
Yn diodde' poen fwy nag un dyn
O fewn ei deyrnas faith ei hun.

4 Ai dyma'r parch ga's Brenhin ne'
Wrth roddi ei fywyd yn fy lle ?
Wel, f' enaid, bellach diodde'n hy',
Bob gwawd dros enw Mhrynwr cu.

5 Os cwrddyd wnaf â choron ddrain,
Dyſg fi i ddiodde' pigau 'rhai'n ;
A'i wel'd e fyth yn rhyfedd fraint,
I ddiodde' cyſtudd mwya' ei ſaint.

6 Mi gwela mewn paradwys bell
Yn awr yn gwisgo coron gwell,
Ie gwell na'r aur, na'r perlau drud,
Na dim coronau sy'n y byd.

---

## HYMN CXCIV. *Yr Ail RAN.*

1 GWELED yr oeddit' byddai'th glod,
Yn fwy nâ'th w'radwydd fwya 'rioed;
Mawr oedd, ond byr dy boenau chwyth,
Ond dy ogoniant bery byth.

2 Edifarhawd i'th wisgo'n llyn,
A'th wawdio i ben *Calfaria* fryn.
Mae'r dydd yn d'od, ar dd'od yn awr,
Gwelir d' ogoniant fel y wawr.

3 Myrddiwnau dirifedi sydd,
Yn gwmp'ni it' ryw forau-ddydd;
Cair gwel'd yr haul sy'n fyd o dân,
Yn bellen bygddu o dy flaen.

4 Y g'leuni dry yn dywyll nos,
Fel gynt pan oeddit' ar y gro's,
Pan gwelont di ymhlith dy lu,
Ynghanol y ffurfafen fry.

5 Ar yspryd rhai bydd ing a loes,
Rhai gynt a'th hoeliodd ar y groes,
Ac yn dy hoelio etto o hyd
Pan delo'th awr i farnu'r byd.

6 Ond dyna'r awr, a gwyn eu byd,
Fydd i'th gariadau oll i gyd;
Cânt eu gwobrwyo am y loes,
A'u holl gystuddiau'n cario'r groes.

HYMN

## HYMN CXCV.

*Tan Deimlad o Bechod yn ofni'r Wialen.*

1 TAN draed yr wyf, nac aros draw,
Mi gwympa yn llaw dy Fawredd;
O'r dyfnder brefu 'rwyf bob cam,
Sef brefu am drugaredd.

2 P'odd fafai ergyd trwm dy ffon?
Mi gwelai bron a dyfod.
On' fafi o'm plaid, fefyll nid gwiw,
Mi gwympa ryw ddiwrnod.

3 A gai weddio, ARGLWYDD hael,
I'th wialen gael myn'd heibio?
Os dàw, bendithia'r cyftudd hyn,
Fy enaid fy'n arfwydo.

4 Attal dy law, O ARGLWYDD da,
'Dwy'n abal a'th ddiodde';
P'am lleddi bryfyn gwael fel hyn
Sy â'i anadl yn ei ffroenau?

5 Arbedaift rai, torraift dy ffon,
Pan oeddit' bron a tharo;
Os cait' eu calon 'difarhau,
Cyfadde 'u bai a pheidio.

## HYMN CXCVI.

*Ymgyfuro tan Wradwydd yr Annuwiol.*

PA ham y rho'ift y cwn, o'u tyn gadwynau'n rhydd?
A ph'am y caiff eu fwn, i'm gwneud fel hyn yn brudd?
Cadwyna'n glau'r uffernol griw,
Ti yw fy NUW byth i barhau.

2 Os rho'wd fy mhen i lawr, i'r g'lynion gael eu gwyn,
Er c'ryddu meiau mawr, fy NUW ei hun wnaeth hyn;
Fe'm c'od i'r lan cair gwel'd ryw bryd,
Uwchlaw y byd fy enaid gwan.

3 Ac ar ol i mi gael fflangellau gan fy Nhad,
D'od yn bechadur gwael, a chwympo wrth ei draed;
Fe dry y rhod, ar wddf y llu,
A ddringodd fry caf roi fy nhroed.

4 'Nghaseion, byddwch brudd, rhowch heibio'ch crechwen fawr,
Arddelir fi ryw ddydd, er tlotted wyf yn awr;
Er dued wyf, fe g'od y wawr,
Mewn munud awr ca'm gwisgo'n wyn.

---

## HYMN CXCVII.

*Gweddi am Amynedd.*

1 RHO i mi amynedd i ddiodde' pob poen,
A gwel'd mai m rhagorfraint yw dilyn yr Oen,
Duw, maddeu fy nghystudd, can's pechod a wnaeth
I mi fod yr awrhon mewn gofid yn gaeth.

2 O cura fy mhechod trwy gystudd i maes,
Dy wialen yn wastad fy'n ennyn fy ngras;
Ni fedraf fi gerdded un droedfedd tu a'r ne'
Nes teimlwi dy wialen ynghadw i yn fy lle.

3 Na ofidia, fy enaid, llawenydd i ti,
'Rwi'n gweled mai plentyn o briod wyf fi;
'Rwy'n barod i bechu yn erbyn y ne',
Ond parod yw'm HARGLWYDD i'm curo i dre'.

4 Os croes fydd yn bwysig, fe'm cynnal i'r lan,
Fe gymmer ei hunan (gwel nad wyf ond gwan)
Ymhlau ar ei 'sgwyddau (b'le ceffir ei ail?)
Caiff glod pan ddarfyddo y ddaear a'r haul.

---

## HYMN CXCVIII.

*Llawenhau mewn Gobaith o Rydd-did.*

1 Y Mae—fy enaid bach am lawenhau,
Wrth geisio ar fyrder gredu ca'i
Fy llwyr ryddhau o'r pydew hyn;

A gwel'd

A gwel'd yr haul ddiſglairwen haf,
Yn tywynnu 'n braf tros *Seion* fryn.

2 O bra'!—wel, dyma'r flwyddyn hyfryd ca'
I dorri holl gloiadau'r ia,
A thoddi'r eira oedd yma 'rioed;
Wrth feddwl hyn fy enaid mae
Am lawenhau 'nawr cyn ei dd'od.

3 'Rwy'n byw—yn awr ymhlith dieithriol ryw,
Gelynol iawn i ras fy NUW;
O ARGLWYDD, clyw fy ngweddi'n frau;
'Ddiwrth drothwy'r ne' nid â fy nhroed,
Nes i ti dd'od i'm llwyr ryddhau.

---

## HYMN CXCIX.

### *Ehediad yr Enaid.*

1 FFarwel, mi af ymlaen i'r wlad,
Lle mae fy Nhad yn trigo:
Ymhlith myrddiwnau rif y gwlith;
A gwynfyd fyth fai yno!

2 Mi ddringa i'r lan, can's uchel fry
Mae'r hyn wyfi'n ei geiſio;
Gadawai'r byd o'm hol heb lai,
Yn waſtad mae'n fy rhwyſtro.

3 B'le trown fy wyneb, ARGLWYDD cu,
Ond attat ti dy hunan?
Pob peth gweledig thal e ddim,
Ond gwneuthur i mi ruddfan.

4 Gad i mi lechu yn dy gôl,
A n'ad fi'n ol oddi yno;
Ac yn y clwyfau dyfnion wnaed
O fewn dy draed a'th ddwylo.

## HYMN CC. *Yr Ail RAN.*

1 TI yw fy ngrym, fy nghraig, a'm twr,
Fy noddfa ſiwr o ymwared;
Fy nrygu mae yngallu pwy?
Ynot yr wy'n ymddiried.

2 Fy hedd a'm cyſur oddi fry,
Yn tarddu ſy yn gyſon;
Oni bai hyn, gan ſwn pob gwae,
Llewygu wnai fy nghalon.

3 Oni bai'th fod yn fwy nâ'r byd,
A'i ddrygau 'gyd yn gyſon,
Gan bechod forau a phrydnhawn
Dig'lonni wnawn yn union.

4 Fy nyddiau ddarfu fel y mwg,
O'm golwg heb eu rhiſo;
Ni's gwn gai wel'd cyn angau lo's
Un dydd na nos fyn'd heibio.

5 Caſtell wyt ti, twr cadarn cry',
Yn nyddiau du caethiwed;
Dy enw, IESU, 'n noddfa cawn,
Cyſurus iawn i'r gweiniaid.

6 Pan delo drygau rif y gwlith,
I mewn i blith dy bobol,
A'r ffwrn ſaith boethach, y pryd hyn
Ti fyddi yn y canol.

## HYMN CCI.

### *Adgyfodiad CRIST.*

1 DEWCH gwelwch D'wſog nefoedd fawr,
O radd i radd yn d'od i lawr,
I groth y ddae'r i eſmwythau
Gwelyau'r etholedig rai.

2 'Nol

2 'Nol gorwedd dro, fe ddaeth i'r lan,
Agorodd ddrws i mi oedd wan
I adgyfodi, a d'od i ma's,
Er cadw'r porth gan angau glâs.

3 Gwelwch fy Nuw'n ei ddynol wedd,
Yn gorwedd obry yngwaelod bedd:
'Rwy'n gwybod fod fy IESU'n DDUW
Pan codai ei hun o farw i fyw.

4 Pwy ddrwg wna'r bedd a'r pryfed mân?
Bu f' ARGLWYDD yno o fy mlaen:
P'am ofnai'm henaid fyn'd i'r lle
Gorweddodd ynddo Frenhin ne'?

5 Mae angau wedi myn'd i maes,
Nid yno 'nawr mae'n cadw ei blâs:
Can's dyna'r pryd y cadd fath glwy'
Ni faif ym medd y feintiau mwy.

6 Fy meiau mawrion oedd mor drwm,
Neb ond fy Nuw a dalfai'r fwm;
Gwafgodd Greawdwr nefoedd faith
I ddyfnder daear ar ei daith.

---

## HYMN CCII.

*Gweddi am Rydd-did o Gaethiwed.*

RWy'n difgwyl f'anwyl DDUW am waredigaeth lawn,
Mor hapus fyddwn byw yn unig hyn pe cawn;
O dere'n glau, a chod i'r lan
Fy enaid gwan fy'n llwfrhau.

2 O pledia trofwyf fry, cliria fi o flaen fy Nhad;
Pwy wŷr yn well nâ thi anfeidrol werth dy waed?
O cofia'th lef, pan ar y groes,
Tan chwerwa'r loes, ynghanol ne'.

3 O dyfg fi gleimio rhan i ragorfreintiau'th waed,
A phan bwyf fwya' gwan, i lefain, "Abba Dad"!
Heb gwmmwl du gyfgodi byth,
Tra ynof chwyth â'r hyfryd wlad.

4 Mae'r *Aiphtiaid* yn eu nerth, yn gyrru mlaen o hyd,
A'r bryniau mawrion serth yn cauad arnai 'nghyd;
Trwy'r dyfroedd du gwawried y dydd,
Gael ffordd yn rhydd i'r *Canaan* fry.

---

## HYMN CCIII.

### CRIST *Cadernid y Cristion.*

1 AR d'enw di, Creawdwr byd,
'Rwy'n rhoi f' ymddiried oll i gyd;
Rhyfedd mor wan wyf ddydd a nos,
'Dwy'n gwel'd dim gallu ond ar y groes.

2 'Rwy'n griddfan eisiau rhoddi mhwys
Ar Frenhin nefoedd tan ei grwys;
A gwel'd fy Nuw, sy'n llanw'r ne',
Yn talu'r dyled yn fy lle.

3 Deffro fy ffydd, rho afael gref
A'th freichiau'n dynn am dano ef:
Er ofnau fyrdd, na ad e'n rhydd,
Tr'o yn dy freichiau carri'r dydd.

4 Dyma fi, IESU, fel yr wy',
Cuddia fi yn dy nefol glwy';
Can's dyna'r graig y gwnai fy nyth,
'Does neb yn ofni yno byth.

5 Tyr'd, angau, 'mlaen â'th gleddyf llym,
Tra yn IESU b'wyf nid ofnai ddim;
Y cnawd, a satan, pechod cry',
Yng nghlwyfau'r IESU congc'rai chwi.

6 Gad i mi, IESU, ddydd a nos,
I dreulio'm hamser tan dy groes;
'Does gyflwr arall tan y ne',
I'r ofnog rai yn addas le.

## HYMN CCIV.

*Hiraeth yr Enaid am* DDUW.

1 GWEL arnai'r Meddyg lawer clwy',
O'm traed i'm coryn gwaedu'r wy';
Fe'm 'ſpeiliwyd, do, o'r gwiſgoedd hardd,
Fel ſy rhieni yn yr ardd.

2 Deffro, ſy ffydd, derchafa'th ben
I fynu tua'r nefoedd wen;
Gwel fry wrthddrychiau hardd a gwiw
I'w caru'n anwyl tra f'ech byw.

3 Pa bynna radd ges gynt o ras,
Faint bynna gollais innau o'r maes,
Rho im' a gollais, rho yn lân
Radd at ſu genny fwya o'r blaen.

4 'Rwi'n blino 'mado â ſy NUW;
Byw heboſt dim ond trallod yw;
Cyſuron creaduriaid mae
Rhyw ddirſawr boen wrth eu mwynhau.

5 Yn ol 'rwy'n d'od, ti wyddoſt p'am,
Rhaid im' gael nerth, a nerth bob cam;
D'wed air dy fod, mi creda byth
Yn maddeu'm gwrthgiliadau chwith.

## HYMN CCV.

*Pererindod.*

1 FY NUW, rho'r manna fry
I'm bwydo i ar ſy nhaith,
A'm nerthu i'r tiroedd ſy,
Yn llifo o fel a llaeth:
Agor y graig, doed allan ddw'r,
Gloyw diſtwr o had y wraig.

2 Ffarwel i'r *aiphtiaidd* dir,
A'i degwch oll o'r bron,
Dechreuais siwrneu'n wir,
I maes o'r *Gosen* hon:
'Does yma i gael ymhlith y criw,
Annuwiol ryw ond pethau gwael.

3 Mi wela draw trwy ffydd,
Ryw ragorfreintiau mawr,
Mor sicr im' ryw ddydd,
A phe baent i mi 'nawr;
Ond moroedd sy a m'nyddau maith
Ar hyd y daith rhyngwi â hi.

4 *Iorddonen* saif yn serth,
A'r creigydd hyllt yn ddau,
Ac angel mawr ei nerth
A'm dwg i'r lan yn frau:
Brenhinoedd hy' trwy dy allu mawr
A gwymp i'r llawr o'r bron yn llu.

---

## HYMN CCVI.

*Gweddi am Nerth i gongcwero.*

1 MEWN *Aipht* heb nemawr oleu'r dydd,
Fy enaid sydd yn trigo,
Dwg fi ymlaen o'r tiroedd caeth,
At fel a llaeth yn llifo.

2 Gwna waelod môr fel gwastad dir,
A'r dw'r fel mur cadarna'
O bob tu'n gylch, yn aros doed,
Trwy'r dyfroedd troed y gwanna.

3 Difetha'r g'lynion dewrion dig,
Sy'n ffyrnig yn fy nilyn;
Crynhoed y dyfroedd mawr ynghyd,
Cyflawna'th lid i'w herbyn.

4 O gâd dy angel fyn'd o'm blaen,
A'r golofn dân i'm g'leuo,
Yn gwmmwl tywyll rhyngwi cai
A *Pharao* mae'n fy mlino.

5 Gâd 'ynt fy nghlywed maes o law,
Yr ochr draw yn canu,
A phawb i wel'd y myrdd dirif,
Lawr tan y llif yn boddi.

6 O galw'r tywod mân ynghyd,
Dywallt eu llid yn erbyn,
A foddi olwynion mawr eu grym
Yr hwn fydd im' yn elyn.

---

## HYMN CCVII.

### *Dioddefaint* CRIST.

1 EI enaid doddodd gan y gwres,
Fel ffwrnes yn ei galon;
A'r chwys a'r gwaed yn ddafnau mawr,
Yn cwympo lawr yn gyson.

2 A dyma'r chwys, a dyma'r gwaed,
Sy'n rhoi iachad i'r cleifion;
O'i ystlys tardd yr afon bur,
Sy'n dofi cur y galon.

3 Fforddolion oll, fefwch o'r trwch,
Yn awr edrychwch arno;
B'le ofid fel ein HARGLWYDD IOR,
A glywfoch fôn am dano?

4 Ei apoftolion, gwan eu ffydd,
Yngwres y dydd a gyfgodd:
Un gronyn help o'r dda'r na'r ne',
Ac etto fe gongcwerodd.

5 Fe rodd' ffarwel pan ar y groes
I'w fywyd tros ei elynion;
'Nawr gwelwn uffern, dae'r, a ne',
Yn mwrdro Brenhin *Seion*.

## HYMN CCVIII.

*Diystyru Dyn a'i Ddrygau.*

1 TI wyddost, ARGLWYDD, am gael ffydd,
Bob dydd 'rwy'n gwaeddi'n gyson ;
Pe credu wnawn, er gwaetha eu scil,
Nid ofnwn fil o elynion.

2 Pa beth yw dynion ond fel gwynt,
A'u helynt yn myn'd heibio ?
P'am rhoi fy mhwys ar beth mor wael,
Sydd ar gael ei ddistrywio?

3 Pwy a w'radwyddwyd roddai fryd,
A'i oglyd arnat', ARGLWYDD ;
Rho'ist iddynt barch a chlod am hyn,
Ac enw yn dragywydd.

4 Gwan wyf erioed, a gwan o hyd,
A'r llesga i gyd o'm brodyr;
Os llewod creulon ddaw i'm cwrdd,
O tyn di ffwrdd eu nattur !

5 Mi rof fy maich oll ar dy war,
Mae'n gyfyng ar fy enaid ;
Tor fy nghadwynau'n fuan, tro
Fi allan o gaethiwed.

6 Os collai'm henw yn y byd,
Fy ffryns i gyd, a'm meddiant,
Gad i mi gael, 'nol darfod hyn,
I lechu yn dy haeddiant.

7 Mi gwympaf, ARGLWYDD, yn dy law,
Mi ddof gerllaw i lechu ;
Gwell genni o bawb tan nefoedd fry,
Dy hun i ti fy nghofpi.

HYMN

## HYMN CCIX.

*Gorfoleddu mewn Hyder o'r Fuddugoliaeth.*

1 FY enaid, gwel i ben *Galfaria*,
Draw'r rhyfeddod mwya erioed,
Creawdwr nefoedd wen yn marw,
A'r ddraig yn trengu tan ei droed.
Mi glywa lais yn awr, debygwn,
O agor pyrth y ddinas fry;
Fy enaid, cân, fe ddarfu ofn,
Prynwyd nefoedd wen i mi.

2 Tyr'd i fynu o'r anialwch,
Wedi aros yna'n hir,
Swppiau grawnwin mawrion addfed,
Sy'n dy aros yn y tir.
Brysia i ryfel, gwisg dy arfau,
Cymmer galon, mentra 'mlaen,
Y ffordd ni's colli, mae'n dy arwain,
Gwmmwl niwl a ch'lofn dân.

3 Nid all *Amalec* na *Moab*,
'Nghyd â'r holl elynion hy',
Wneuthur niwaid im', tra cadwyf
'Nagos at dy babell di.
Tan y cwmmwl mi arosaf,
Yno hefyd bydd fy nyth,
Nes cael trigo mewn llawenydd,
Yn y wlad a bery byth.

4 Tro fy nghefn ar yr *Aiphtiaid*,
Welais i ond eu gwaetha 'rioed,
Sathru f' ARGLWYDD, a'i ogoniant,
Fel y glaswellt tan eu troed.
Dydd sy'n dyfod, daw ar fyrder,
Gwelant hwy fy Mrenhin fry,
Cymmylau'r nef yn gerbyd iddo,
'R haul a'r lloer yn bellen ddu.

5 Gwnes

5 Gwnes y dewis gorau wnaethpwyd,
Dewis Brenhin nefoedd wen,
Yn Dad, yn Briod, ac yn Gyfaill,
Yn Frawd, yn Geidwad, ac yn Ben.
Cyfoeth mawr, didrai, difefur,
Sydd ynghadw i mi'n 'ftor,
A bendithion oll, pe rhifid
Megis tywod mân y môr.

---

## HYMN CCX.

*Ar y Greadigaeth.*

1 IESU ydyw fy Nghreawdwr,
Crewr uffern, dae'r a ne',
Y cwbl hefyd oll a wnaethpwyd
Er gogoniant iddo fe:
Ynddo'r cyfan fydd yn fefyll,
Ei fyfedd yn eu cynnal fy,
Fy enaid, dyma'r un a hoeliwyd
Ar fynyddau *Calfari.*

2 Er mor rhyfedd ydoedd rhoddi
I fydoedd dirifedi fod,
Rhyfeddodau'r *Aipht* a *Soan*,
Ynghyd a glywodd cluft erioed;
Hyn i gyd fydd yn diflannu,
Can's mwy rhyfedd wel'd e' fry,
Ar y pren yn diodde' ei hoelio
Ar fynyddau *Calfari.*

3 Angylion pur fy o gylch ei orfedd,
Yn gwifgo g'leuni fel y wawr,
Yr hwn a'ch gwifgodd â'r fath harddwch,
Ac 'ych yn ei addoli 'nawr,
Cig a gwaed a gym'rodd arno,
Fel gallai gyd-ymdeimlo â ni;
Er mai gwrthddrych eich addoliad,
Fe fu farw ar *Galfari.*

4 Yr awyr gou ddifesur lydan,
A'th gopa cuwch â'r nefoedd sy,
Bydoedd o faintioli ofnadwy
Sy'n amgylchu yn dy fru;
Yr hwn â'i air wnaeth dy adeiliad,
A'i fysedd all dy fesur di,
Drowyd mewn cadach yn y preseb,
Ac fu farw ar *Galfari*.

5 'Raneirif ser sydd yn disgleirio,
Ynghanol y tywyllwch du,
Mae ynoch fôr o dân berwedig,
Er mor fach i'n golwg ni:
'Rhwn ryw oesoedd cyn eich ennyn,
Ac bery pan ddiffoddoch chwi,
Fu'n *Nazareth* yn wael ei gyflwr,
Ac fu farw ar *Galfari*.

6 Chwi blanedau o adenydd cyflym,
Sy'n teithio'n brysur fore a hwyr,
Fil filiwnau o fesurau,
Yn cadw'r amser oll yn llwyr;
'Rhwn â'i fraich a'ch gyrrodd gynta'
Uwch eich llwybr wnaeth ei dŷ,
Ga's ei erlid yma'n faban,
Ac fu farw ar *Galfari*.

7 Ti haul y ffynnon fawr ddiysbydd
O 'leuni, cysur, gwres, a thân,
Sy'n danfon dydd o ddautu'r ddaear,
Bywyd myrdd o lysiau mân:
'Rhwn a'th lanwodd o oleuni,
Na ellir edrych ar dy wedd,
Ymddihattrodd o'i ogoniant,
Gorwedd wnaeth yngwaelod bedd.

8 Y lloer sy 'mhlith y ser yn rhodio,
Yn g'leuo mwy nâ hwynt i gyd,
Y môr sy'n teithio wrth dy amser,
Ti guddi'th wyneb ambell bryd.

'Rhwn

'Rhwn rodd' d' oleuni oddiwrth yr haulwen,
Ei lewyrch o hono ei hun y ſy;
'Clips a redodd tros ei harddwch
Pan fu farw ar *Galſari*.

9 Chwi daranau yn y cwmmwl
Pygddu yn ymderfyſgu ſydd,
Yn crynu'r nef, a'r ddae'r o tanom,
Fel yn bygwth barn a fydd;
'Rhwn wnaeth ich' ddychrynu dynion,
A gallu ich' i ruo'n llyn,
Ei hun a leſodd yn y preſeb,
Leſodd ar *Galſaria* fryn.

10 Chwi fellt cynddeiriog ſydd yn tannu
Yn llen o dân trwy'r nef i gyd,
Rydd trigfa pechod gynt yn ulw,
Ac o'r diwedd lyſg y byd:
'Rhwn eich 'nynnodd, ac yn peri
Ich' ladd, neu ynte ſafio ſy,
Rodd' ei Berſon gogoneddus
Gael ei hoelio ar *Galſari*.

11 Chwi demheſtloedd ſydd yn dangos
Eitha gwaelod moroedd mawr,
Briwo llongau erbyn creigydd,
Taflu'r cedrwydd ſerth i lawr;
Yr hwn rydd ffrwyn yn ſafn y demeſt',
Yn marchog ar y gwyntoedd fry,
Fel yr oen yr aeth i'r lladdfa,
Tros ein beiau ar *Galſari*.

12 Chwi gymmylau ſydd yn hongian
Yn yr awyr denau fry,
Weithiau'n gwneud i'r ddaear darddu,
Weithiau'n pydru ei ffrwythau ſy;
Yn chwer'der ei enaid bu'n ymddifad
O'r preſenoldeb tadol fry,
Wrth grymmu ei ben i lawr a marw
Ar fynyddau *Calſari*.

13 Ti wres ſy'n gwneud i'r ddaear loſgi;
Ti oerni ſy'n ei rhwymo hi'n un,
Wrth gymmyſg yn gwneud tymmor hyfryd
Rhy greulon ar eich pennau'ch hun:
Rheolwr mawr yr holl greadigaeth
Mewn tŷ o glai yr amſer bu,
Ddioddeſodd eitha' gwres digofaint
Ar ſynyddau *Calſari*.

## HYMN CCXI.

*Golwg ar Leſgedd.*

1 DArfu ſy nerth, 'rwy'n llwfrhau,
Yn d' allu mae f' ymddiried;
Nerth mawr diſeſur, ſel y môr,
Gennyt' ſy'n 'ſtor i'r gweiniaid.

2 Mi glywais it' ymrig yr hwyr
I roddi llwyr ſaddeuant
Mewn oeſoedd gynt; a ddarfu 'nawr
Gyflawnder mawr dy haeddiant?

3 Ti'm tynnaiſt i o ganol tân,
A mi o'r blaen yn ofni;
Gwna hynny etto'r ſunud hon,
Mae f' enaid bron a threngu.

4 Rho im' yſpryd *Caleb* ſel o'r blaen,
I ſentro 'mlaen i ryfel;
Na phriſiwyf ronyn er dy ſwyn
P'un wneir a dwyn ſy hoedl.

5 Dyſg fi i 'nabod angau llym,
Heb ofni ei rym yn taro,
I ſentro 'mlaen, heb ſod yn wan,
I'w wyneb pan y delo.

6 Bydd coffa am danat' ymhob man
I godi'r gwan i ſynu;
Eu c'lonnau'n deml i ti cair
Sy wrth dy air yn crynu.

## HYMN CCXII.

*Gras a Dedwyddwch yng* NGHRIST.

1 NID ſy nef yw ar y ddaear,
Pe gorau man tan gwmpas haul:
Fy nef yw tawel breſennoldeb
Wyneb ſiriol *Adda*'r ail.
Gwena arnai, ARGLWYDD graſol,
Gwaeddai allan, Digon yw;
Yna 'nghanol cyfyngderau
Fyth yn llawen byddai byw.

2 'Rwybr faith ſy'n llawn o ſydoedd,
Etto ſeren un ni fedd,
Er mor fuan maent yn 'hedeg,
'Hed mor gynted â dy hedd.
Myrdd weddiau a wrandewaiſt,
(Can's mor barod yw dy ras)
Yn y funud gynta'u lluniwyd,
Cyn eu d'od o'r genau maes.

3 Môr ſydd ynot' o fendithion,
Heb waelodion iddo'n bod,
Y mae'n llanw 'mlaen bob munud,
Nid oes diwedd ar dy glod;
Dy enw beunydd ſy 'n helaethu,
Beunydd yn ymdannu 'maes,
Bydd telynau'n canu iddo,
Fel rhifedi gwellt y maes.

4 Yn dy glwyfau y mae bywyd,
Tyllau'r hoelion yw ſy nyth;
Ofnai ſyd, na chnawd, na phechod,
Nac euogrwydd yno ſyth.
Gwaed ſy Mhriod wedi golli,
Archoll fawr y waywffon
Yw ſy nghraig a'm dinas noddſa
Sicr ar y ddaear hon.

5 Yno

5 Yno boed fy mwyd a niod,
  Tan ganghennau gwych y pren,
Sydd â'i wreiddyn ar y ddaear,
  Ei frigau yn y nefoedd wen.
Dyn â'r Duwdod ynddo'n trigo,
  Ffrwythau arno'n tyfu'n llawn,
Cyſgod tano i'r ffyddloniaid,
  O foreuddydd hyd brydnhawn.

6 Dedwydd ydyw'n berchen arnat',
  Dedwydd yfo o dy hedd,
Gallant chwerthin fyth wrth weled
  Cyngrair ſatan, angau, a'r bedd.
Bydd brenhinoedd mewn cadwynau
  Yn llechu yn iſel tan eu traed;
Hwy ar ddehau'r OEN yn moli
  Wedi d'od trwy rin y gwaed.

---

## HYMN CCXIII.

### *CRIST y Tryſor gorau.*

1 FY enaid, 'hed tu a'th etifeddiaeth,
  Fy ngorddiwes tywyllwch mae;
Nid oes rhifo ar flynyddau
  'Nhragwyddoldeb ſy'n nesbau;
Môr diderfyn heb ddim gwaelod,
  Gogledd, dwyrain yw, na de',
Na rhif ar oeſoedd at ei ddechrau,
  Nac eilwaith at ei ddiwedd e'.

2 Tu ag yno 'r wy'n ymdeithio,
  Yno mae fy Mrenhin mawr,
Can' goleuach nag yw'r danllwyth,
  Yn diſgleirio uwch y llawr.
O pwy bleſer! pwy ddifyrrwch
  A nigrifa i yn y byd,
Pan EMMANUEL groeshoeliwyd,
  Oll yn gyfan aeth â mryd ?

3 Clywai lais gan bob rhyw raddau
  O'r creaduriaid mân i gyd

Mod i wedi aros gormod,
   Heppian llawer yn y byd.
Gwisg dy aden, medd pob tafod
   Glywai tan yr awyr las;
Gormod heppian, mae'n ddiweddar
   Cyn it' ddechrau taro 'maes.

4 Ffarwel bellach bob creadur,
   Chwi gewch weled hyn ryw bryd,
Meddai drysor gwerthfawrocach
   Fil o weithiau nag yw'r byd.
Tu hwnt i'r bedd 'does mesur arno;
   Rhan o fewn fy nghalon mae:
Ffynnon fawr ydyw ei wreiddyn,
   Fyth ni welir arni drai.

5 A welodd haul erioed wrth redeg
   Ei thro diderfyn yn y ne',
Neu yn y ser, neu ar y ddaear
   Wrthddrych tebyg iddo fe?
A oes tryfor, ond ei 'mofyn,
   Yn nyfnderoedd daear lâs
I'r filfed ran, pan yn y clorian
   Bwysa Iesu Grist a'i ras?

6 F'enaid, taw; 'does dim trysorau,
   Na theganau ar y llawr,
O *India* 'r dwyrain i'r gorllewin,
   *China* ac *Arabia* fawr,
A fodlona glust neu lygad,
   Neu arogliad enaid trist,
Neu ynte dâl i gloddio am danynt,
   Ond ym mherchen Iesu Grist.

7 Nerth os caf, mi frysiaf mwyach
   'Fynu tu a 'ngwlad fy hun,
Lle mae Nuw yn gwisgo'n gyson
   Mewn gogoniant nattur dyn.
Na enwir i mi'n artre' bellach
   Fangre arall ond y ne';
Neb yn dad, na neb yn briod,
   Neb yn Arglwydd ond efe.

## HYMN CCXIV.

*Cyfiawnhâd.*

1 PE b'ai 'merawdwyr mwya'r byd,
A blodau'r ddaear gron i gyd,
I farw troſwy'n un ;
Rhy fach at faddeu mhechod yw,
Rhaid marw un ac ſydd yn Duw ;
Darſydded haeddiant dyn.

2 Angylion nef baent yn eu plith,
A gwiſgo cyrph o rif y gwlith,
A marw yn gyttun,
Rhy yſgafn yn y clorian fae,
I bwyſo'r ganfed ran o mai ;
Darſydded ſon am ddyn.

3 Fry, fry'r cyfiawnder ddyry iawn,
I'r holl ofynwyr ſy i mi'n llawn,
A'u galw bob yr un.
A fu tan hoelion gliria'r nef,
Yn abal arall neb ond ef,
Darſydded ſon am ddyn.

4 Er dyledſwyddau rif y gwlith,
Neu ynte'r ſer na rifir byth,
Mae pechod etto 'nglyn.
Yn berffaith eilwaith hwy pe cawn,
Dim i gyfiawnder at wneud iawn ;
Darſydded ſon ddyn.

5 Ca'wd y llieiniau yn y bedd,
Fe adgyfododd brenhin hedd.
Gan gongc'ro angau ei hun ;
Mewn cwmmwl gwyn f' eſgynnodd ef,
I glirio llyfrau dua'r nef ;
Darſydded ſon am ddyn.

6 'Nawr heddwch anherſynol ſy
O gwr i'r llall i'r nefoedd fry,
Priodoliaethau'n un ;

Cyfiawnder llym yn llawenhau,
Ynghol trugaredd faith ddidrai;
  Darfydded son am ddyn.

7 Mae'r pyrth yn agor, nef yn rhydd
I'r rhai yn noethion, tlodion sydd,
  A gwisgoedd i bob un;
Y wisg a brynwyd gynt â gwaed,
A hoelion dur mewn dwylo a thraed;
  Darfydded son am ddyn.

---

## HYMN CCXV.

*Diwedd pob peth a nesaodd.*

1 Y Mae'r haul-wen wedi blino
  Teithio yn yr wybr las;
Daear drom ymron deffygio
  Borthi'r llysiau sy'n y maes;
Mae'r planhedau'n gwaeddi, *Diwedd*;
  Pob creadur yn ei ryw
Yn och'neidio am gael gweled
  Gwir ddatguddiad meibion Duw.

2 Y mae'r oriau yn fy ngalw
  'N ddyfal beunydd i bar'toi;
Tân yn d'od ar ddinas distryw,
  Tua *Soar* i mi ffoi.
Arglwydd, 'mafael ynwi'n fuan,
  Onite ni ddeuaf fyth;
Tra fo'r tân yn llosgi *Sodom*
  Yn y bryniau gwna fy nyth.

3 Angau'n llawen sydd o'i afael,
  Beunydd cam yn pwyso 'mlaen;
Rhif fy esgyrn a'm haelodau,
  Tan ei allu'r awrhon maen'.
Pob gwthien fach o'i ochor,
  Y mae'n cloddio tan fy sail,
Gwelai'n ceisio taro'r ergyd
  Na raid taro fyth o'i ail.

4 Taro,

4 Taro, angau, ond yn gynta'
Edrych pwy ſydd wrth fy nghlyn;
Alpha, Omega, Tad a welir
'Nawr yn gwiſgo nattur dyn.
Ar dy waith yn leſlo attaf
Idd i'w glwyfau 'n union ffo;
Ti oſtyngir, ond cair gweled
Pwy wyf finnau ar fyr dro.

5 Wel! ellyllon, 'rych yn ddeuog,
Mil 'ych chwi, 'dwyf fi ond un,
Ond o f' ochor hyd yr eitha'
Y mae Duw mewn nattur dyn.
'Does dim ofn, 'rwy'n crechwennu,
Nid yw angau ddim ond hun
I'r ffyddloniaid, er pwrpaſodd
Duw i wiſgo nattur dyn.

6 Cân, fy enaid, wrth ymadael
A'r carchardy tywyll du,
Mor llawn o byſg ac ydyw'r moroedd
O hadau pob rhyw glefyd ſy;
'Lawr â'r corph i ddyfnder daear,
'Fynu, f' enaid, tu a'r nen:
Rhaid i'm llwch er maned ydyw,
Godi etto i'r nefoedd wen.

## HYMN CCXVI.

*Cwymp* Eden, *a Chodiad* Calſaria.

1 YN *Eden*, cofiaf hynny byth,
Bendithion gollais rif y gwlith;
Syrthiodd fy nghoron wiw:
Ond buddugoliaeth *Calſari*
Ennillodd hon yn ol i mi,
Mi gana tra fwy' byw.

2 Ar *Galſari* yngwres y dydd
Y ca'wd y gwyſtl mawr yn rhydd,
Trwy golli gwaed yn lli';

'Nawr

'Nawr dim heb dalu, rhoddwyd iawn
Nes clirio llyfrau'r nef yn llawn,
Heb ofyn dim i mi.

3 Ffydd! d'accw'r man, a d'accw'r pren,
Yr hoeliwyd arno D'wyfog nen,
Yn wirion yn fy lle;
Y ddraig a figwyd gan yr un,
Can's clwyfwyd dau, congcwerodd un,
A Iesu oedd efe.

## HYMN CCXVII.

*Gras yn dechreu yn* Jerufalem.

1 PRIOD y tragwyddol Hanfod
Welai'n hongian ar y pren,
Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo
Yn barod grymmu lawr ei ben.
Gwelai etto fwy rhyfeddod,
Yn ei wyneb angau loes;
Hedd yn rhedeg tros *Galfaria*,
Fel yr afon tan y groes.

2 Er mai bychan yw ei dechreu,
Mae'n cynnyddu fyth i'r lan,
Cododd eifiws cuwch a'r fferrau,
At y gwddf daw yn y man.
Cod nes ffaelu'n lân a'i rhydio,
Yna hi leinw'r ddaear gron;
Llawn o byfgod mawr a bychain,
'Fengyl heddwch ydyw hon.

## HYMN CCXVIII.

*CRIST yr unig Iachawdwr.*

1 TRofeddodd *Adda* pen pob dyn,
Teyrnafodd angau ar bob un:
Deddf fydd heb obaith, lle ni fedd
I edifeirwch, nac i hedd.

2 A ffeindiwch chwi gerubiaid fry,
Seraphiaid ardderchocca' fy,
Le i ddamnio pechod drwg ei ryw,
A chadw'r euog ddyn yn fyw ?

3 A feddwch nerth, pe oll ynghyd,
I ddiodde pwys anfeidrol lid ?
P'un felly gâr druenus ddyn
Ac daw ef yn ei le fe ei hun ?

4 Rhy drwm y gwaith ; mae pawb yn fud
Trwy ganol nefoedd fawr i gyd ;
'Does yfpryd gogoneddus fry,
O'r grym na'r cariad attom ni.

5 O ras didrai, truèni dyn
Mab Duw gymmerodd arno ei hun ;
Ar ffrwft o eitha'r nen y daeth,
A breichiau agored marw wnaeth.

6 Cyfiawnder fwriodd Duw tan draed,
Gan fynnu iawn â dwyfol waed ;
Ca's deimlo angau gwaetha ei glwy' ;
Ond nid all *Seinai* ei ofyn mwy.

7 O rhyfedd waith ! ti awyr fawr,
Tro d' aml lygaid yma lawr,
Rhyfedda gyd â'r thronau fry
Y cariad mawr ar *Galfari*.

---

## HYMN CCXIX.

*Gogoniant* Duw *yn Achubiad Pechaduriaid.*

1 LLAWN yw, O Dad, y nefoedd wen,
A'r ddaearen o'th foliant ;
Mil o arwyddion bob yr awr
Sy'n canu'th fawr ogoniant.

2 Dweud mae y fer a'u troion ferth,
Dy fgil a'th nerth yn rhyfedd :
Yn 'fgrifenedig ar bob awr,
Y cair dy fawr amynedd.

3 Ond gwel'd dy ddyfais pan y cawn,
  Ar rai ſydd lawn o bechod,
Cyfiawnder llym a gras ynghyd
  Yn taro i gyd gyfarfod,

4 Sydd yn ein rhoi i foddi'n wîr
  Mewn cariad pur a ſyndod.
'Rangylion fry o'r blaen ni ddaeth
  I weled fath ryfeddod.

5 O'th Dduwdod mawr ac yma cawn
  Ryw hyfryd lawn agoriad.
Pwy fentra ddweud, ddiſgleiriach yw
  Cyfiawnder Duw nâ'i gariad ?

6 Pan tor'ſom gyfraith bur ein Tad,
  Mab yn ei waed yn dadleu :
O'r fath ddirgelwch ſy'n ei groes !
  Fath rin ſy o'i loes a'i boenau !

7 Yn awr y mae ei ogoniant ef,
  Yn llanw nef y nefoedd.
Llu'r nef a ddyſgodd ei enw mawr,
  A'i ganu 'nawr yn gyhoedd.

---

## HYMN CCXX.

*Hiraeth am Hapuſrwydd y Nefoedd.*

1 OND ofer ceiſio gwynfyd llawn,
  Gwynfyd perffaith byth ni's cawn,
Nes cyrraedd at ein Prynwr pur,
A ſengu ar y ſanctaidd dir.

2 'Does dim o gylch yr awyr fry,
Neu ynte o ddautu'r ddaear ddu,
Dim lawenha fy enaid cun,
Neu dâl ei garu ond ef ei hun.

3 Ond teimlo ei hedd a'i fywiol ras
Yw'r nefoedd ſy ar y ddaear lâs ;
A'm nefoedd fyth yn nef y nef
Fydd edrych yn ei wyneb ef.

4 P'am ſaif fy oriau draw mor bell,
Cyd O fy Nuw, a'm dinas gwell?
Hollted yr wybr fry uwchben,
I nodi'm ffordd i'r nefoedd wen.

5 Fy Nuw, torr y llinynnau hyn
Sy nghadw i wrth y clai mor dynn:
Rhyw angel cryf cymmered fi,
'Meſtynned tu a'r nefoedd fry.

---

## HYMN CCXXI.

*Pren y Bywyd.*

1 PREN bywiol ſy'n y nefoedd fawr,
Ac hyd y llawr â'i gangau;
A ffrwythau'n pyngo arno'n llawn
Yn rhad brydnhawn a borau.

2 Adar ein Duw, dewch yma gyd
O eitha'r byd yn llawen;
Yn ei ganghennau cewch wneud nyth
Sychedwch fyth drachefn.

3 Arogläu yn diferu o'r nen
Sy fyth o bren y bywyd;
Myrr, aloes, thus, a chaſia gawn,
Yn werthfawr iawn a hyfryd.

*D I W E DD.*